

# Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

**Paratowyd gan Chwarae Cymru ar gyfer Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae**

PAPUR CEFNDIR

## Tabl Cynnwys


1 Cyflwyniad 4

2 Gwerthfawrogi chwarae 4

Pwysigrwydd chwarae 4

Creu yr amodau ar gyfer chwarae 5

Rhwystrau i chwarae 6

Barn plant ar y rhwystrau i chwarae 7

Cefnogaeth ryngwladol i chwarae plant 7

Cyd-destun polisi cenedlaethol 8

Chwarae a COVID-19 10

3 Dadansoddiad o’r themâu allweddol 11

Thema 1: Aliniad deddfwriaethau allweddol sy’n effeithio ar yr hawl i chwarae 13

Chwarae a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 14

Chwarae a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 15

Cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 16

Sicrhau dulliau integredig 18

Dealltwriaeth o’r pandemig COVID-19 18

Argymhellion allweddol 18

Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid 19

Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 19

Ymchwilio i ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae 20

Cynnwys plant mewn digonolrwydd chwarae 22

Cynnwys rhieni, rhai sy’n rhoi gofal a chymunedau mewn digonolrwydd chwarae 22

Cyllid ar gyfer gwaith chwarae a datblygu chwarae 23

Ariannu digonolrwydd cyfleoedd chwarae 24

Dealltwriaeth o’r pandemig COVID-19 25

Argymhellion allweddol 25

Thema 3: Chwarae plant, cyfiawnder gofodol a’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 26

Hawl plant i chwarae 26

Beth mae cyfiawnder gofodol yn ei olygu? 27

Cyfiawnder gofodol a pholisi Llywodraeth Cymru 28

Dealltwriaeth o’r pandemig COVID-19 29

Argymhellion allweddol 30

Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae 31

Ble mae gwaith chwarae'n digwydd 31
Diogelu 32
Rheoleiddio a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol 33
Heriau i fynd i'r afael â hwy ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwaith chwarae 34
Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19 38
Argymhellion allweddol 39
Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau 40
Lleoliadau gwaith chwarae 40
Rolau gwaith chwarae 41
Cymwysterau gwaith chwarae a chyllid 42
Sicrhau ansawdd 45
Datblygiad Proffesiynol Parhaus 45
Cefnogi a chynrychioli'r sector 46
Gweithlu chwarae 48
Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19 48
Argymhellion allweddol 49
Thema 6: Chwarae ac addysg 50
Chwarae, y cwricwlwm ac addysgeg addysgol 51
Strwythur y diwrnod: amser a chaniatâd i chwarae 53
Lle i chwarae yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol 53
Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19 55
Argymhellion allweddol 56
Casgliad 57

# 1 Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 2019, mewn datganiad ysgrifenedig, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ei bod wedi penderfynu i fynd ymlaen gydag Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

Nod yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yw asesu gwaith Llywodraeth Cymru o ran y polisi chwarae ac i hysbysu sut dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a symud yr agenda chwarae yn ei blaen. Mae'r adolygiad yn ystyried y cynnydd a wnaethpwyd wrth gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae, fel y mynegir yn ei *Bolisi Chwarae* ac mae'n cyflwyno nifer o argymhellion allweddol sydd angen eu gweithredu.

Rheolwyd yr adolygiad gan y Tîm Polisi Chwarae o fewn Is-adran Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Llywodraeth Cymru. Mabwysiadodd yr adolygiad agwedd gydweithrediadol, gan gydnabod gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid allweddol wrth ddynodi a deall y materion pwysig ac wrth edrych ar opsiynau ar gyfer y dyfodol. Sefydlwyd grŵp llywio traws-broffesiynol o arbenigwyr chwarae a gwaith chwarae, a swyddogion polisi ar draws Llywodraeth Cymru, i gefnogi'r adolygiad.

Cynhyrchodd Grŵp Llywio yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae adroddiad sy'n darparu trosolwg o ganfyddiadau'r adolygiad. Mae hefyd yn cynnwys tabl o argymhellion allweddol a cherrig milltir ar gyfer Llywodraeth Cymru gan y grŵp llywio.

Mae'r ddogfen hon yn bapur cefndir sy'n cefnogi adroddiad y grŵp llywio. Mae'n archwilio llenyddiaeth allweddol, adroddiadau ar effaith COVID-19 a'r rhesymeg ar gyfer yr argymhellion allweddol. Mae'n darparu tystiolaeth, gwybodaeth a chyd-destun pellach i adroddiad Grŵp Llywio yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

# 2 Gwerthfawrogi chwarae

Mae'r adran hon yn darparu mwy o fanylion am bwysigrwydd chwarae ym mywydau plant ac mae'n ehangu ar yr hyn gaiff ei gynnwys yn adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.

## Pwysigrwydd chwarae

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Maen nhw'n gwerthfawrogi amser, rhyddid a mannau o ansawdd i chwarae. Pan ofynnir beth sy'n bwysig iddyn nhw, bydd plant yn sôn yn gyson am chwarae ac ymgasglu gyda'u ffrindiau.[1] Pan fyddan nhw'n chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain.

Ceir cronfa brofedig o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, yn enwedig chwarae a drefnir yn bersonol, ei wneud i les uniongyrchol a thymor hir plant, i'w iechyd corfforol ac i'w iechyd meddwl a'u gwytnwch. Mae amrywiol astudiaethau[2] wedi casglu:

- Mae chwarae'n cefnogi cymdeithasoli: pan maen nhw'n chwarae bydd plant yn rhyngweithio gydag eraill, yn datblygu cyfeillgarwch ac ymlyniadau gyda chyfoedion, delio gyda gwrthdaro, a dysgu parch a goddefgarwch3.

- Mae chwarae'n cynyddu gwytnwch: mae chwarae'n rhoi hwb i reoli'r emosiynau, hyder, creadigedd, sgiliau datrys problemau a dyfalbarhad plant, gan eu galluogi i ymdopi â straen a heriau trwy gydol eu bywydau[4].
- Mae chwarae'n hanfodol ar gyfer iechyd a lles da: mae bod yn fywiog trwy chwarae'n helpu plant yn gorfforol ac yn emosiynol, gan gyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd[5] [6].
- Mae chwarae'n cefnogi plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach: mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, i greu cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn[7].
- Mae chwarae'n cefnogi dysg a datblygiad: gan adeiladu strwythurau'r ymennydd a sgiliau megis creadigedd, datrys problemau a meddwl beirniadol[8].

## Creu yr amodau ar gyfer chwarae

Fel arwydd o'r pwysigrwydd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei osod ar chwarae plant mae wedi cyhoeddi Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31. Mae hwn yn ddatganiad swyddogol sy'n egluro ymhellach ystyr agwedd o CCUHP sy'n galw am bwyslais neu ddehongliad pellach. Mae hefyd yn anelu i egluro pwysigrwydd Erthygl 31 ac i gynyddu atebolrwydd ymysg Gwladwriaethau sy'n Barti sydd wedi arwyddo'r confensiwn.

Mae'r adolygiad hwn yn cymryd ei ddiffiniad o chwarae o Sylw Cyffredinol rhif 17[9] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn diffinio chwarae fel ymddygiad, gweithgaredd neu broses gaiff ei ysgogi, ei reoli a'i strwythuro gan blant, elfen anorfodol, wedi ei sbarduno gan ysgogiad cynhenid, nid fel modd i gyflawni diben ac sy'n cynnwys nodweddion allweddol sef hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol. Mae'r Sylw Cyffredinol yn darparu arweiniad pellach ar y mesurau deddfwriaethol, barnwrol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sy'n angenrheidiol i sicrhau ei weithrediad ac o'r herwydd, cyfeirir ato trwy'r papur hwn.

Mae cyfleoedd plant i chwarae yn gallu cael eu cefnogi neu eu cyfyngu ar draws tri maes rhyngberthynol[10]:

- Amser: amser 'rhydd' plant (yn wrthrychol ac yn amgyffrediad goddrychol y plentyn hefyd) pan allant ymgolli mewn chwarae
- Lle: sut y gall gofod cyhoeddus gefnogi neu gyfyngu ar allu plant i chwarae yn ogystal â mynediad i fannau penodedig ar gyfer chwarae
- Caniatâd: profiadau goddrychol plant o amser a lle, yn cynnwys ffactorau fel ymdeimlad o ryddid, caniatâd, perthyn, ofn ac aflonyddu, yn ogystal ag adfeddiant a rheolaeth gynyddol oedolion dros chwarae.

Felly, mae chwarae plant yn ddibynnol ar gael lle, amser a chaniatâd i chwarae, ac mae digonolrwydd cyfleoedd i chwarae'n bodoli'n fwy blaenllaw ble mae'r tair elfen yn cael eu cyflwyno'n gadarnhaol.

Bydd plant yn chwarae ar eu pen eu hunain, gyda'u cyfoedion neu gydag oedolion cefnogol. Mae'r mannau ble bydd plant yn chwarae'n niferus ac amrywiol. Gall chwarae ddigwydd ble bynnag a phryd bynnag y bydd yr amodau'n gywir, a hynny dan do a'r tu allan, mewn mannau fel sefydliadau plentyndod (fel y cartref, yr ysgol, gofal plant); mannau dynodedig ar gyfer chwarae, wedi'u staffio a heb eu staffio; sefydliadau eraill fel amgueddfeydd neu ysbytai; mannau cyhoeddus.

Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio amgylchedd chwarae cyfoethog[11] fel un sy'n hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol. Mae'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch, her a dewis. Mae'n ofod y mae'r plant yn ymddiried ynddo, ble maent yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain ac ar eu telerau eu hunain. Mae nodweddion mannau plant o safon yn cynnwys cyfleoedd am ryfeddod, cyffro a'r annisgwyl, ond yn bennaf oll gyfleoedd sydd ddim yn cael eu trefnu na'u rheoli'n ormodol gan oedolion. Mae'r gofodau hyn yn hanfodol ar gyfer diwylliant personol y plant ac ar gyfer eu hymdeimlad o le ac o berthyn.

Gall profiadau plant o chwarae a'u datblygiad gael eu cryfhau gan oedolion cefnogol a gofalgar sy'n deall ac sy'n oddefgar o chwarae. Fodd bynnag, caiff y buddiannau eu lleihau, yn enwedig o ran datblygiad creadigedd, datrys problemau a mwynhad os oes gormod o reolaeth gan oedolion. Mae chwarae'n darparu cyfleoedd bob dydd a chyfleoedd a gyfarwyddir yn bersonol i blant gyfranogi. Mae'n darparu dirnadaeth a dealltwriaeth i oedolion ar safbwyntiau plant. Pan gaiff chwarae ei gefnogi, gall arwain at barch rhwng y cenedlaethau, gan gyfrannu at ddealltwriaeth a chyfathrebu effeithlon rhwng plant ac oedolion.

Mae gan chwarae'r budd o gael effaith cadarnhaol ar lu o ddeilliannau iechyd pwysig yn cynnwys cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella lles ymhlith plant a helpu i ddatblygu gwytnwch. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ac yn werth chweil am y mwynhad y mae'n ei roi i blant a'u teuluoedd yn yr ennyd.[12] [13]

Mae chwarae'n golygu bod plant yn gwneud fel y mynnant yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Prif gyfrifoldeb yr oedolyn wrth gefnogi plant i chwarae yw sicrhau bod yr amodau'n gywir er mwyn i chwarae ddigwydd. Tra bo chwarae'n dod yn reddfol i blant, mae cefnogaeth rhieni, ymarferwyr, llunwyr polisïau a'r gymuned ehangach yn angenrheidiol i sicrhau bod plant yn cael y caniatâd, y lle a'r amser i'w hunain i weithredu ar eu greddfau naturiol.

## Rhwystrau i chwarae

Trafododd y grŵp llywio ystod eang o rwystrau[14] cyfoes cyfarwydd sy'n atal ac sydd ddim yn cefnogi chwarae plant yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth i gefnogi agwedd fwy cytbwys. Tra'i bod yn bwysig cofio bod plant yn unigolion gydag amrywiaeth o gyfleoedd, mae materion a thueddiadau cyffredin sy'n effeithio ar fywydau plant a'u gallu i gael mynediad i gyfleodd i chwarae.

Mae nifer o ffactorau sydd wedi lleihau'r cyfle i blant wireddu eu hawl i chwarae:

- newidiadau mewn cymdogaethau yn cynnwys defnydd cynyddol ceir, cynnydd mewn traffig (yn symud ac wedi parcio), patrymau gweithio newidiol
- cyfyngiadau gan rieni oherwydd canfyddiadau ynghylch diogelwch cymdogaethau (traffig, bwlio, hiliaeth, ofn dieithriaid)
- cynnydd mewn cyfranogaeth mewn gweithgareddau strwythuredig a galwadau addysgol
- bod plant 'allan o le' yn y fro gyhoeddus, anoddefgarwch cynyddol tuag at blant a phobl ifanc yn chwarae a chwrdd â'i gilydd.

Mae rhieni yng Nghymru'n adrodd am eu hanfodlonrwydd gyda chyfleusterau chwarae yn eu hardal leol gan gyfeirio at ddiffyg mannau cyhoeddus awyr agored addas i blant chwarae a chwrdd â'i gilydd[15]. Mae pryder ynghylch y dirywiad yng nghyfleoedd plant i fwynhau chwarae'n rhydd wedi ei gysylltu â chynnydd mewn problemau iechyd meddwl[16] ac mae graddfeydd boddhad â bywyd plant yn eu harddegau yng Nghymru ymysg y gwaethaf ar draws y DU.[17] Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn unig na phobl hŷn: roedd 20% o bobl ifanc 16 i 24 oed yn unig, o'i gymharu â 10% o bobl 75 oed a throsodd.[18]

## Barn plant ar y rhwystrau i chwarae

Mae canfyddiadau o'r DU, Awstralia a Chanada yn awgrymu bod plant yn pryderu llai am rai o ofnau traddodiadol oedolion. Mae ymchwil ar ganfyddiadau'r plant eu hunain ar rwystrau i chwarae'r tu allan yn tanlinellu'r risgiau a achosir gan blant eraill.[19] Er bod plant iau yn mynegi ofnau ynghylch cael eu cipio gan bobl ddieithr, maen nhw hefyd yn dweud eu bod yn bryderus am blant hŷn ac oedolion yn troseddu gerllaw. Dywedodd plant hŷn a phlant yn eu harddegau bod eu hofnau'n ymwneud â bwlio neu fygythiadau gan blant eraill o'r un oed a'u bod yn teimlo'n fwy diogel mewn grwpiau mawr. Ond ar y llaw arall, caiff y grwpiau mawr hyn eu hystyried yn fygythiol yn aml a gallant annog plant iau i beidio ymweld â pharciau'n fwy rheolaidd.

Mae plant yn mynegi awydd am fannau diogel i chwarae a chwrdd â'i gilydd[20] ond mae'n bosibl na fydd eu syniadau o fannau diogel yn cyfateb â rhai oedolion. Fodd bynnag, pan fydd plant yn siarad am deimlo'n ddiogel fyddan nhw ddim, yn gyffredinol, yn siarad am Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayyb 1974[21] ac os oes gan yr amgylchedd y maent yn dymuno chwarae ynddo ar y pryd dystysgrif diogelwch rheoledig, safonedig. Dydyn nhw ddim yn siarad ychwaith am fod eisiau neu fod angen gorfodaeth oedolion ar eu hymddygiad mentrus eu hunain. Maen nhw'n siarad am ymdeimlad o ddiogelwch cymdeithasol ble maen nhw â rheolaeth ac yn teimlo bod croeso iddyn nhw a'u bod yn rhydd rhag bygythiadau o drais neu ymladdgarwch.[22] Mae'r materion llosg y cyfeirir atynt yn tueddu i ymwneud mwy â glendid cyffredinol mannau awyr agored, gan gyfeirio at sbwriel a baw cŵn fel pethau sy'n eu rhwystro rhag chwarae'r tu allan.[23] Mae plant hefyd yn dal i leisio pryderon am gyflymder a thrwch ceir a thraffig yn eu cymdogaethau lleol.[24] Mae cael digon o amser i chwarae yn fater o bwys i blant hefyd: mae gwaith cartref, arholiadau ac adolygu'n cyfyngu ar amser rhydd i chwarae.[25]

## Cefnogaeth ryngwladol i chwarae plant

Yn rhyngwladol, mae pwysigrwydd chwarae'n cael ei gydnabod a'i warchod gan CCUHP. Mae Erthygl 31 CCUHP yn datgan yn groyw bod gan y plentyn hawl i chwarae ac i ymuno mewn gweithgareddau hamdden eraill ac y dylai Gwladwriaethau sy'n Barti gydnabod yr hawliau hyn.

Yn seiliedig ar lobïo gan yr International Play Association a'i adolygiadau byd-eang ei hun o weithredu'r hawl i chwarae, roedd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn wedi tyfu'n bryderus oherwydd y diffyg cydnabyddiaeth yr oedd llywodraethau'n ei roi i'r hawl i chwarae. Roedd y pwyllgor yn pryderu'n anad dim bod diffyg cydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr hawl i chwarae'n arwain at ddiffyg buddsoddi, gan nodi pan oedd buddsoddi'n digwydd, bod hynny'n aml mewn darparu gweithgareddau strwythuredig wedi'u trefnu. Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd digon o bwyslais yn cael ei roi ar yr angen i greu amser a lle i blant gymryd rhan mewn chwarae digymell ac i hyrwyddo agweddau cymdeithasol sy'n cefnogi ac annog chwarae.

Mae gan Sylw Cyffredinol rhif 17 ddiffiniad defnyddiol o chwarae ac mae'n pwysleisio bod chwarae'n cael ei sbarduno, ei reoli a'i strwythuro gan blant. Mae'n diffinio chwarae fel elfen anorfodol, wedi ei sbarduno gan ysgogiad cynhenid, nid fel modd i gyflawni diben. Mae'n nodi mai nodweddion allweddol chwarae yw:

- hwyl
- ansicrwydd
- her
- hyblygrwydd
- bod yn anghynhyrchiol.

Mae hyn yn alinio gydag ac yn ehangu ar ddiffiniad Llywodraeth Cymru (ym Mholisi Chwarae 2002) o chwarae fel elfen sy'n "cwmpasu ymddygiad plant a ddewisir o wirfodd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Nid yw'n cael ei berfformio er mwyn nod neu wobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi".

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn pwysleisio bod cynllunio ar gyfer chwarae'n galw am agwedd eang a hollgynhwysol sy'n cynnwys cydweithio ac atebolrwydd trawsadrannol mewn llywodraeth leol a chenedlaethol. Mae'n enwi nifer o randdeiliaid perthnasol yn cynnwys y bobl hynny sy'n delio'n uniongyrchol gyda phlant, megis iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, amddiffyn plant, diwylliant, hamdden a chwaraeon, ond hefyd bobl sy'n ymwneud â thai, trafnidiaeth a chynllunio – y maent i gyd yn effeithio'n sylweddol ar ddylunio a threfnu gofod.

Yn Sylw Cyffredinol rhif 17, mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn hefyd yn annog llywodraethau cenedlaethol hefyd i ystyried deddfu i sicrhau'r hawliau o dan Erthygl 31. Mae'n cynghori y dylai deddfwriaethau ystyried yr egwyddor o ddigonolrwydd – dylai pob plentyn dderbyn digon o amser a lle i arfer eu hawl i chwarae. Pwysleisiodd hefyd y dylai deddfwriaethau o'r fath gydnabod bod creu amgylcheddau sy'n cefnogi gweithgarwch a gyfarwyddir yn bersonol gan y plant, cyn bwysiced â darparu cyfleusterau a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a drefnir.

## Cyd-destun polisi cenedlaethol

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod, er mwyn cyflawni ei nod o greu Cymru chwarae-gyfeillgar a darparu cyfleoedd i blant chwarae, y byddai hefyd angen i awdurdodau lleol, eu partneriaid a rhanddeiliaid eraill weithio at y diben hwn. O ganlyniad, deddfodd y llywodraeth i gefnogi chwarae plant, gan osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, chyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.[26] Ar lafar, adnabyddir hon fel y 'Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'.

Er bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cynrychioli deddfu pwysig nid yw chwarae, ac ni all chwarae, sefyll ar ei ben ei hun yn y fframwaith deddfwriaethol. Mae cymaint o benderfyniadau polisi, os nad pob un, yn effeithio ar allu plant i chwarae. Mae digonolrwydd cyfleoedd ac ansawdd chwarae'n effeithio hefyd ar y deilliannau ar gyfer meysydd polisi eraill, a'r esiampl allweddol yw buddiannau cadarnhaol chwarae ar iechyd a lles corfforol a meddyliol plant.

Mae cyfarwyddyd statudol digonolrwydd cyfleoedd chwarae Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylai awdurdodau lleol archwilio pob agenda polisi am eu heffaith posibl ar blant sy'n chwarae a gwreiddio targedau a chamau gweithredu i gyfoethogi cyfleoedd chwarae plant mewn nifer o strategaethau a pholisïau:

- Cynllunio gwlad a thref
- Traffig a thrafnidiaeth
- Iechyd a lles
- Tlodi plant
- Polisi blynyddoedd cynnar / gofal plant a'r teulu
- Mentrau polisi sy'n pontio'r cenedlaethau
- Addysg ac ysgolion
- Iechyd a diogelwch
- Datblygu cymunedol.

Mae polisïau a mentrau lleol yn cael eu dylanwadu gan ac yn gysylltiedig â chyfarwyddyd a deddfwriaethau cenedlaethol.

Mae'r adolygiad hwn wedi ei gynllunio a'i gyflawni er mwyn bodloni'r amodau ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, ac i atal problemau di-baid fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd. Caiff y gofynion hyn eu rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae ymchwil a gynhaliwyd yn 2020[27] i gyflawni'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn amlygu aliniad polisi nes ar lefel leol yn ogystal â chenedlaethol fel un o bedair amod all gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Dynodwyd pedwar maes polisi allweddol: lles, cynllunio, cynaladwyedd a hawliau plant. Yn benodol, mae'r ymchwil yn nodi'r synergedd rhwng y Ddyletswydd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), ac yn argymell y dylai Deddf LlCD a'i offerynnau polisi gynnwys mesurau fydd yn cefnogi gallu plant i gymryd rhan mewn chwarae a drefnir yn bersonol.

Mae nifer o feysydd polisi amlwg eraill, y trafodir rhai ohonynt mewn adrannau eraill o'r papur cefndir hwn, sy'n effeithio ar hawl plant i chwarae:

- Deddf Gofal Plant 2006 a chyfarwyddyd statudol cysylltiedig
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (yn cynnwys Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011 a Safonau Gofynnol Cenedlaethol / Gwarchod Plant a Gofal Dydd)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (a Chanllawiau 2021)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a *Pholisi Cynllunio Cymru* (PCC)
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (yn benodol Rhan 2 ar ordewdra, y strategaeth Gordewdra'n Ystod Plentyndod a meysydd chwarae a mannau di-fwg)
- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a'r Fframwaith Llesiant Ysgolion
- *Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru: sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru: adroddiad terfynol* (2021)
- Adnewyddu a diwygio, cynllun adfer addysg o COVID-19 Llywodraeth Cymru (2021)
- *Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol* (2022)
- Terfyn cyflymder cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd preswyl a strydoedd cerddwyr prysur (2022).

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026 Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru'n creu Cymru decach, wyrddach a chryfach. Mae'n amlinellu ymrwymiadau allweddol sy'n croestorri llywodraeth ar gyfer cyflawni hyn, y mae llawer ohonynt yn berthnasol i'r themâu a drafodir fel rhan o'r adolygiad hwn:

- cefnogi'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â iechyd meddwl plant a phlant yn eu glasoed
- creu mwy o fannau gwyrdd
- yr ymrwymiad i ysgolion bro
- diwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol
- ymrwymiadau i ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer plant iau
- ariannu gofal plant ar gyfer rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant

- cyfleoedd ar gyfer y gweithlu trwy adferiad economaidd ehangach, cyflogau tecach a'r Warant i Bobl Ifanc.

## Chwarae a COVID-19

Mae buddiannau chwarae'n cael eu cydnabod yn gyffredinol, ac maent yn torri ar draws iechyd corfforol a meddyliol, lles a datblygiad plant. Mae chwarae'n ffordd i blant gadw'n iach, yn ogystal â phroses sy'n eu helpu i ddelio gydag ansicrwydd, straen a phryderon bob dydd.

Yn ystod ac yn syth wedi adegau o ansicrwydd, mae chwarae[28 29]:

- yn helpu i roi ymdeimlad o normalrwydd a llawenydd i blant yn ystod profiad o golled, unigrwydd a thrawma
- yn helpu plant i oresgyn poen emosiynol ac adennill rheolaeth dros eu bywydau
- yn helpu plant i ddeall yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw, ac yn eu galluogi i brofi hwyl a mwynhad
- yn cynnig cyfle i blant archwilio eu creadigedd eu hunain.

Ym mis Ebrill 2020, mynegodd Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn bryderon ynghylch effaith corfforol, emosiynol a seicolegol y pandemig COVID-19 a'r cyfnodau clo cysylltiedig a mesurau eraill ar blant.[30] Galwodd y Pwyllgor ar Wladwriaethau sy'n Barti i warchod hawliau plant. Yn benodol, pwysleisiodd yr angen i ystyried effeithiau iechyd, cymdeithasol, a hamdden y pandemig ar hawliau'r plentyn. Fe wnaeth grefu ar lywodraethau ar draws y byd i archwilio datrysiadau amgen a chreadigol er mwyn i blant fwynhau eu hawliau Erthygl 31 i chwarae, gorffwys, hamdden, adloniant a gweithgareddau diwylliannol ac artistig.

Mae cyfleoedd i chwarae'n arbennig o fuddiol yn ystod pandemig. Mae pecyn cymorth *Access to Play for Children in Situations of Crisis* 2018 yr International Play Association yn nodi, "Mewn sefyllfaoedd o argyfwng, bydd straen, datblygiad corfforol ac emosiynol gwannach, teimladau o ddiffyg rheolaeth a cholli hyder yn cynyddu fesul tipyn os nad yw plant yn cael cyfleoedd bob dydd i chwarae."[31] Mewn ymateb i'r pandemig, defnyddiodd yr International Play Association y pecyn cymorth hwn i gynhyrchu casgliad o adnoddau ar gyfer rhieni i gefnogi eu plant i chwarae[32].

Yn ystod y pandemig a'i gyfnodau clo cysylltiedig, roedd mynediad i chwarae'r tu allan yn arbennig o bwysig, oherwydd yr ymdeimlad o ryddid a rheolaeth y gall plant ei fwynhau ac mae'n caniatáu i blant fod yn fywiog ac yn gorfforol egnïol. Mae chwarae'n fath o ymarfer corff ar gyfer plant. Wrth i Lywodraeth Cymru ddysgu mwy am COVID-19 a ffyrdd i reoli ei drosglwyddiad, diweddarwyd ei gyngor i gadarnhau rôl bwysig chwarae wrth gefnogi lles. Darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a blaenoriaethu agor parciau, meysydd chwarae a darpariaeth gofal plant a gwaith chwarae o haf 2020 ymlaen, gan bwysleisio'r angen i chwarae.

Adroddodd rhai plant iddyn nhw chwarae mwy yn nyddiau cyntaf y pandemig[33] a'r cyfnod clo. Fodd bynnag, cwympodd y ffigyrau hyn yn sylweddol ym mis Ionawr 2021[34]. Roedd mynediad i chwarae'n gymysg I blant yng Nghymru, gyda llawer yn adrodd eu bod yn methu'r ysgol, eu ffrindiau a chael cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu[35]. Cafodd plant mewn amodau difreintiedig eu bwrw'n galed, yn enwedig rhai heb fynediad i erddi preifat, neu mewn cymdogaethau gydag ond ychydig neu ddim gofod cyhoeddus.[36]

Mae plant wedi mynegi pryderon am ddibynnu mwy ar dechnoleg a 'gor-wylio' y teledu yn ystod amrywiol gyfnodau clo ac roedden nhw'n teimlo, yn gyffredinol, nad oedd hyn yn dda ar gyfer eu lles

a'u hiechyd meddwl[37]. Mae hyn yn taro tant gyda materion a drafodwyd yn *Erthygl 31: Adroddiad Sbotolau* y Comisiynydd Plant, ble nad oedd plant yn gofyn am fwy o amser i chwarae ar neu i ddefnyddio technoleg. Adroddodd y plant eu bod yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau oedd ddim yn ymwneud â thechnoleg yn eu cymunedau eu hunain a'u bod eisiau mwy o'r cyfleoedd hyn.[38]

Mae adolygiad brys o effeithiau cwarantin a chyfyngiadau amgylcheddol ar chwarae plant yn dangos bod chwarae wedi'i newid yn sylweddol. Mae tystiolaeth newydd yn awgrymu y gallai cau ysgolion am gyfnodau estynedig, aros gartref a chyfyngiadau cymdeithasol yn ystod achosion o afiechyd, arwain at ganlyniadau difrifol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol plant.[39] Mae un o gasgliadau allweddol yr adolygiad yn nodi:

> "wrth inni ddysgu sut i gefnogi plant sy'n byw trwy ac sy'n dod allan o gyfnod clo oherwydd pandemig, mae'n bosibl mai chwarae yw un o'r meysydd ffocws pwysicaf ar gyfer hybu iechyd a lles plant."[40]

Mae ymchwilwyr, academyddion ac eiriolwyr[41] wedi mynegi pryderon bod plant, ar adeg o straen a phryder cynyddol, wedi wynebu hefyd lai o fynediad neu newid sylweddol i chwarae a'r buddiannau y mae'n ei gynnig / ei ddarparu ar gyfer ymdopi, mwynhau bywyd a datblygiad.

Gyda'r ansicrwydd a achoswyd gan y pandemig, mae cyfleoedd i chwarae'n hanfodol er mwyn helpu plant i wneud synnwyr o'u profiadau, i ddatrys problemau, ailgysylltu gyda'u cyfoedion, a hybu eu lles eu hunain. Wrth i ymyriadau a mentrau i gefnogi plant sy'n dod allan o'r pandemig a'i gyfyngiadau cysylltiedig gael eu datblygu, chwarae yw un o'r meysydd ffocws pwysicaf er mwyn hybu iechyd a lles plant.

O ystyried pwysigrwydd chwarae i blant ar adegau o argyfwng, gallai cydnabod hyn yn ystod ac wrth inni ddod allan o'r pandemig fod yn gam mawr ymlaen o ran gwarchod lles ac iechyd meddwl ein plant, a chenedlaethau'r dyfodol.

# 3 Dadansoddiad o'r themâu allweddol

Mae'r adran hon yn darparu mwy o fanylion i'r wybodaeth a drafodir yn adroddiad Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Dynododd a dadansoddodd yr adolygiad chwe thema allweddol sydd wedi'u crynhoi isod:

- **Mae Aliniad deddfwriaethau allweddol sy'n effeithio ar yr hawl i chwarae** yn trafod yr angen i alinio polisi chwarae cenedlaethol a Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 gyda deddfau sylfaenol a chyffredinol allweddol – yn benodol, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Archwilir y synergedd rhwng y tair deddfwriaeth arloesol hon.

- **Mae Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid** yn trafod trafferthion gyda gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru ers ei chyhoeddi yn 2012. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd gweithio'n strategol ac yn gydweithrediadol ar lefel leol a rhanbarthol ar gyfer chwarae plant ac mae'n ystyried trefniadau cyllido.

- **Mae Cyfiawnder gofodol** yn archwilio pam a sut y mae angen inni wneud ein cymdogaethau a mannau cyhoeddus eraill yn fwy cefnogol a chroesawus ar gyfer chwarae. Mae'n tanlinellu gyrwyr polisi cenedlaethol allweddol sy'n effeithio ar fwy o blant yn gallu chwarae yn eu cymdogaethau a mannau cyhoeddus.

- **Mae Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae** yn ystyried y cyd-destun cyfredol ac ystod o faterion hanesyddol sy'n ymwneud â chofrestru sesiynau gwaith chwarae wedi'u staffio. Mae'n archwilio ffyrdd i wella'r systemau angenrheidiol fel y gall mwy o blant deimlo'n ddiogel yn yr ystod o gyfleoedd y maent yn eu mwynhau yn eu hamser rhydd.

- **Mae Gweithlu a chymwysterau** yn gwahaniaethu rhwng y gweithlu chwarae a'r gweithlu gwaith chwarae. Mae'n tanlinellu rôl werthfawr gwaith chwarae a materion sy'n ymwneud â hyfforddiant a chymwysterau tra hefyd yn cynnig dirnadaeth ynghylch sut y gellir cefnogi datblygiad proffesiynol yr ystod eang o bobl broffesiynol eraill sy'n effeithio ar chwarae plant.

- **Mae Chwarae ac addysg** yn ystyried yr amrywiol fentrau cyflawni a pholisi cenedlaethol sy'n cefnogi plant i gael mynediad i'w hawl i chwarae ar draws lleoliadau addysgol. Mae'n tanlinellu'r angen i sicrhau bod chwarae'n cael ei werthfawrogi yn y lleoliadau hyn, nid yn unig ar gyfer deilliannau addysgol cyfryngol, ond hefyd am y buddiannau lles uniongyrchol y mae'n eu cynnig i blant o bob oed.

Mae pob adran thema yn ystyried hefyd ddirnadaethau o'r pandemig.

Mae'r argymhellion allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn erbyn pob thema. Ceir tabl o argymhellion allweddol a cherrig milltir yn *Adroddiad Grŵp Llywio yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae*.

# Thema 1: Aliniad deddfwriaethau allweddol sy’n effeithio ar yr hawl i chwarae

Trwy chwarae, gall plant gynyddu eu gwytnwch a’u lles eu hunain.[42] Fodd bynnag, mae gallu chwarae’n dibynnu ar yr amodau cywir ar gyfer chwarae, yn benodol amser, lle a chaniatâd. Mae hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar ystod o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, gofodol, economaidd a gwleidyddol.[43] Mae trefniant cymdeithas yn dylanwadu ar y cyfleoedd gaiff plant i chwarae, ble maent yn chwarae a gyda phwy y maent yn chwarae.[44]

Mae hyn yn golygu, er mwyn cynorthwyo i greu gwlad sy’n gyfeillgar at blant sy’n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae a ddewisir o wirfodd, bod angen datblygu polisi yn gydweithredol ar draws amrywiol feysydd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol hefyd. Mae chwarae’n cydberthyn mor agos i les (yn gorfforol, cymdeithasol ac emosiynol) fel y gall bron pob maes polisi effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae.

Mae partneriaethau allweddol ar lefel leol yn cynnwys nifer o weithwyr proffeisynol, fel rhai sy’n ymwneud â chynllunio, tai, priffyrdd, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, mannau agored, rheolwyr canol trefi, Cynghorau Tref a Chymuned, a’r heddlu. Mae’r adolygiad hwn, o reidrwydd, wedi cynnwys rhanddeiliaid a swyddogion sydd â gwahanol ddiddordebau polisi yn cynnwys addysg, gwaith chwarae, gwaith ieuenctid, iechyd, cynllunio, diogelu, gofal plant, tai a thrafnidiaeth.

Yn ddiweddar, gwelwyd nifer o feysydd ble mae chwarae, er nad oedd yn brif ffocws, wedi cael dylanwad sylweddol ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru. Mae’r ddeddfwriaeth terfyn cyflymder o 20 mya a’r rhaglen Llwgu yn ystod y gwyliau: gwaith chwarae yn ddwy enghraifft. Fodd bynnag, mae meysydd polisi yn dal i fodoli ar lefel genedlaethol ble y gellid gwneud mwy i hyrwyddo a chefnogi hawl plant i chwarae, yn enwedig yn y cyfnod adfer wedi’r pandemig. Fel rhan o’r adferiad wedi COVID-19, dyrannwyd nifer o becynnau cyllido fel rhaglenni Haf o Hwyl a rhaglen aeaf, i awdurdodau lleol drosglwyddo cyfleoedd chwarae a hamdden ar gyfer plant.

Bu plant yn rhan o’r adolygiad hwn hefyd. Mae tair neges allweddol wedi codi o’u cyfranogiad sy’n berthnasol i’r thema hon. Yn gyntaf, maent wedi tynnu sylw at heriau gyda seilwaith trafnidiaeth a mynediad i fannau i chwarae. Yn ail, fe wnaethant siarad am bwysigrwydd cydnabod buddiannau chwarae ar gyfer pob plentyn, yn cynnwys plant hŷn, sy’n gofyn am weithio ar draws sectorau a pholisïau sector. Yn drydydd, roeddent yn teimlo y dylid cefnogi plant i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau a chyfleoedd i chwarae ac ar draws amrediad o sectorau. Roeddent yn gwbl glir wrth ddynodi ble roedd y cyfrifoldeb yn sefyll ar gyfer sicrhau bod cyfleoedd digonol i chwarae, ac mae hynny gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a’u staff, ac ysgolion a gwasanaethau addysg.[45]

Mae nifer o astudiaethau ymchwil i weithredu’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae[46] yn tanlinellu bod y broses yn annog a hwyluso gweithio traws-bolisi ar lefel awdurdod lleol, fel y bwriadwyd trwy ddatblygu’r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, canfu astudiaeth 2020 hefyd bod angen, ar lefel leol a chenedlaethol, alinio polisïau’n well trwy gysylltiadau amlwg â’r ddyletswydd mewn deddfau, mesurau ac offerynnau statudol eraill. Byddai alinio polisi ar lefel leol yn cael ei gefnogi gan aliniad nes ar lefel genedlaethol.[47]

Fel rhan o’r adolygiad hwn, dynododd y grŵp llywio ystod o fentrau, polisïau a deddfau sector penodol cenedlaethol sy’n cefnogi chwarae plant. Daeth yn amlwg i’r grŵp bod bron pob polisi’n effeithio ar os, ble a phryd y gall plant chwarae. Dylid nodi bod cytbwysedd yn bwysig yma hefyd. Gall cefnogi plant i chwarae helpu i gyflawni nodau polisïau eraill. Yn yr un modd, gall polisïau eraill hwyluso hyn trwy gynnwys y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chwarae plant yn gwbl ddiamwys mewn cyfarwyddyd a strategaethau. Dynodir nifer o feysydd polisi cenedlaethol

allweddol sy'n effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae yn Thema 1: Aliniad deddfwriaethau allweddol sy'n effeithio ar yr hawl i chwarae. Trafodir nifer o'r meysydd polisi hyn mewn gwahanol adrannau o'r papur hwn. Mae'r adran hon yn edrych ar yr angen i alinio polisi chwarae cenedlaethol a'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda dwy ddeddf sylfaenol a chyffredinol allweddol – sef Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae hawliau plant wedi eu corffori yng nghyfraith Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan danlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant a CCUHP. Mae'r mesur yn gosod dyletswydd ar weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi trwy ddefnyddio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff sector cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion lles ar draws y pedwar maes lles hyn.

Mae'r rhain yn brif-ddeddfau Cymru ac, o'r herwydd, maent yn eistedd uwchlaw ac yn dylanwadu ar yr ystod eang o ddeddfwriaethau, polisïau a mentrau sector penodol sy'n effeithio ar weld plant yn cael mynediad i'w hawl i chwarae.

## Chwarae a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru CCUHP yn ffurfiol yn 2004, ac mae wedi ymrwymo i droi egwyddorion y confensiwn yn realiti ar gyfer pob plentyn. Mae ymchwil yn awgrymu bod gan y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae y potensial i sicrhau newidiadau real ac ystyrlon sy'n cefnogi hawl plant i chwarae, fel sydd wedi'i gorffori yn Erthygl 31 o CCUHP.[48]

Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig gyda chyflwyniad Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn gwreiddio ystyried CCUHP a'r protocolau opsiynol yng nghyfraith Cymru. Nod hyn oedd darparu ffordd effeithlon i sicrhau y byddai mwy o bwyslais yn cael ei osod ar helpu plant yng Nghymru i gael mynediad i'r hawliau a amlinellir yn CCUHP, fel cam at weld y rhain i gyd yn cyfrannu at eu lles.

Mewn dogfen weithio[49] ar hawl plant i chwarae oedd yn cefnogi'r ymgyrch ryngwladol dros Sylw Cyffredinol rhif 17 ar Erthygl 31 CCUHP, caiff chwarae ei ystyried ar draws tri grŵp o erthyglau CCUHP:

- **Hawliau amddiffyn**: gall plant greu eu hamddiffyniad eu hunain trwy chwarae, o ran ei gapasiti i gyfoethogi gwytnwch a'r ddawn i gyfaddasu (er enghraifft, rheoli emosiynau, systemau ymateb i straen, ymlyniadau, creadigedd).
- **Hawliau cyfranogi**: chwarae yw sut y mae plant yn cyfranogi ym mywyd bob dydd teuluoedd a chymunedau.
- **Hawliau darpariaeth**: o ystyried y pwyntiau uchod, mae darpariaeth felly'n fwy na darparu gwasanaethau chwarae ac mae'n gofyn am dalu sylw i a sicrhau'r amodau cywir i blant gael digon o amser a lle i chwarae.

Mae agwedd seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru tuag at lunio polisïau sy'n ymwneud â phlant yn caniatáu i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fynegi'n groyw werthoedd cynhenid chwarae fel hawl, ynghyd â gwerth mwy cyfrannol ei rôl wrth gyflawni agendâu polisi eraill fel trechu

tlodi plant, iechyd a lles, dysg a datblygiad, a chydlyniad cymunedol. Mae cyfarwyddyd statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*[50] yn seiliedig ar hawliau plant ac mae'n amlygu tair erthygl sy'n perthyn yn benodol i'r ddyletswydd hon:

- Erthygl 31 (Hamdden, chwarae a diwylliant): Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a gweithgareddau hamdden eraill.
- Erthygl 15 (Rhyddid i ymgysylltu): Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau.
- Erthygl 12 (Parchu safbwyntiau'r plentyn): Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ar yr hyn ddylai ddigwydd ac i'r farn honno gael ei hystyried.

Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn amlinellu'r trefniadau sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle i gydymffurfio gyda dyletswydd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i roi sylw dyledus i CCUHP. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad di-baid Llywodraeth Cymru i hawliau plant. Datblygodd Llywodraeth Cymru y CRIA i sicrhau bod swyddogion yn cefnogi gweinidogion i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus ac i sicrhau cydymffurfio. Mae'r CRIA wedi'i gorffori yn offeryn asesiad effaith integredig newydd Llywodraeth Cymru i brofi polisïau newydd Llywodraeth Cymru yn erbyn y nodau a'r ffyrdd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Chwarae a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod amod ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru:

- i feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau
- i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd
- i atal problemau
- i fabwysiadu agwedd fwy cydgysylltiedig.

Mae gweithrediad llwyddiannus y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn alinio'n dda gyda phum dull o weithio yn ogystal â saith nod llesiant y Ddeddf. Mewn geiriau eraill, gall cynnwys y Ddyletswydd yn amlwg mewn cyfarwyddyd ar lefel leol a chenedlaethol helpu cyrff cyhoeddus i ddynodi a chyflawni nodau lles ar gyfer plant a chymunedau.

***Ymgorffori'r Pum Dull o Weithio***

- **Hirdymor** – Mae meddwl yn strategol am chwarae'n seiliedig ar ddatblygu agweddau cadarnhaol pobl sy'n gwneud penderfyniadau a chymunedau tuag at chwarae a gwella mynediad er mwyn roi gwell cefnogaeth i blant chwarae yn eu cymdogaethau. Bydd talu sylw i'r amodau sy'n cefnogi chwarae yn cefnogi'r angen tymor hir i ddiogelu hawl plant i chwarae.
- **Atal** – Mae cael cyfleoedd i chwarae'n cefnogi mwy o blant i fod yn fywiog, i gymdeithasu a theimlo'n rhan o'u cymunedau, sydd i gyd yn cynnig deilliannau iechyd a lles rhagorol. Gall y ffaith bod plant yn medru chwarae gyfrannu at atal llawer o bryderon cyfoes, megis gordewdra, iechyd meddwl, unigrwydd all, yn eu tro, atal nifer o afiechydon sy'n ddifrifol niweidiol i iechyd y boblogaeth ac sy'n achosi costau aruthrol i wasanaethau cyhoeddus. Bydd sicrhau bod plant yn gallu ac yn chwarae yn eu cymdogaethau o bosibl yn atal

problemau (megis gordewdra’n ystod plentyndod, iechyd meddwl gwael ac unigrwydd) rhag digwydd neu waethygu.

- **Integreiddio** – Mae chwarae’n effeithio’n gadarnhaol ar bob un o’r nodau llesiant. Yn ogystal, mae meddwl yn strategol am chwarae trwy weithrediad y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn annog a chefnogi gweithio partneriaeth cadarn. Mae partneriaid polisi’n gwerthfawrogi chwarae am nifer o wahanol resymau, yn enwedig gan fod mynd i’r afael â rhwystrau i chwarae’n ymateb i ystod o sbardunwyr polisi eraill (h.y. ffyrdd mwy diogel, teithio llesol, cymunedau cysylltiedig, asedau cymunedol, cyfalaf cymdeithasol). Mae mentrau cynaladwyedd amgylcheddol, fel lleihau perchenogaeth / defnydd ceir preifat a glasu meysydd chwarae ysgolion a chanol trefi yn cefnogi chwarae hefyd.
- **Cydweithio** – Mae gweithrediad llwyddiannus camau gweithredu sy’n ymwneud â chyfleoedd digonol i chwarae’n annog cydweithredu rhwng ystod eang o sectorau, adrannau o’r llywodraeth a sefydliadau. Mae cefnogi camau gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae’n ddeniadol i amryw o swyddogion ac adrannau awdurdodau lleol, fel rhai sy’n ymwneud â chynllunio, gofod awyr agored, polisi trafnidiaeth gan ei fod â’r potensial i’w helpu i gyflawni eu hamcanion lles.
- **Cynnwys** – Mae cynllunio ar gyfer digonolrwydd chwarae’n denu sefydliadau lleol, cymunedau a phlant o’r cychwyn cyntaf a gall gefnogi grwpiau eiriol dros chwarae’n lleol. Gall ymgysylltu’n uniongyrchol sicrhau bod amrywiaeth cymdogaethau lleol a’u hanghenion chwarae’n cael eu hadlewyrchu mewn asesiadau a chynlluniau gweithredu.

## Cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

**Cymru lewyrchus**

Mae mynediad at gyfleoedd i chwarae’n cyfrannu at ddatblygiad gwytnwch, bod yn agored i ddysgu a datblygu sgiliau yn y tymor hir. Fe wnaeth ymchwil a gynhaliwyd yn Wrecsam[51] considered ystyried buddiannau uniongyrchol a gohiriedig i bobl o ddatblygu rhwydweithiau a pherthnasau cymdeithasol a gwella eu rhagolygon cyflogaeth cyfredol ac i’r dyfodol o ganlyniad i gael mynediad i ddarpariaeth gwaith chwarae rheolaidd a chyson. Daeth yr astudiaeth i’r casgliad bod pob £1 a fuddsoddir mewn gwaith chwarae’n dychwelyd £4.60 mewn buddiannau cymdeithasol uniongyrchol a gohiriedig.

**Cymru gydnerth**

Mae buddiannau cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol chwarae, a dderbynnir yn gyffredinol, yn helpu i ddadlau’r achos bod chwarae’n elfen bwysig wrth helpu i gynyddu gwytnwch. Mae’r dystiolaeth[52] yn awgrymu bod chwarae’n cyfrannu at ddatblygu gwytnwch trwy nifer o systemau rhyngberthynol yn cynnwys:

- rheoli’r emosiynau
- pleser a mwynhad
- y system ymateb i straen a’r ddawn i ymateb i ansicrwydd
- creadigedd a’r ddawn i greu cysylltiadau newydd a gwahanol
- bod yn agored i ddysgu
- ymlyniad â phobl a lle.

Mae’r systemau sylfaenol hyn yn hanfodol ar gyfer y gallu creadigol a’r ddawn i ymgyfaddasu

sydd eu hangen ar gyfer delio gydag elfennau ansicr y dyfodol, yn cynnwys newid hinsawdd.

**Cymru iachach**

Mae chwarae'n hanfodol ar gyfer iechyd a lles corfforol a meddyliol plant. Mae chwarae'n caniatáu ar gyfer rhyngweithiadau rhwng cyfoedion sy'n elfennau pwysig o les cymdeithasol ac emosiynol. Trwy chwarae, mae plant yn profi llu o wahanol emosiynau'n cynnwys rhwystredigaeth, penderfyniad, gorchest, siom a hyder a, thrwy ymarfer, gallant ddysgu sut i reoli'r teimladau hyn.

Bydd galluogi plant i dreulio mwy o amser yn chwarae allan yn eu cymunedau eu hunain yn gwella lefelau gweithgarwch corfforol ac yn cael buddiannau iechyd ac amgylcheddol ehangach. Chwarae anffurfiol yw un o'r ffyrdd rhwyddaf, mwyaf naturiol a chost-effeithiol y gall plant o unrhyw oedran gymryd rhan yn y lefelau gweithgarwch corfforol angenrheidiol.[53] Dyma hefyd y math mwyaf cyffredin o weithgarwch corfforol y bydd plant yn cymryd rhan ynddo'r tu allan i'r ysgol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Mae chwarae wedi'i hen sefydlu fel hawl i blentyn, yn rhyngwladol a gan Lywodraeth Cymru. Gall mynediad i ddarpariaeth chwarae o ansawdd da fod yn fodd o leihau anghydraddoldebau rhwng plant a, thrwy hynny, leihau tlodi profiadau i bob plentyn. Mae darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio ar gael yn aml pan mae teuluoedd ei angen fwyaf (ar ôl ysgol, yn ystod gwyliau'r ysgol, gyda'r nos ac ar y penwythnos) gan lanw bylchau pan nad oes gwasanaethau eraill ar gael. Mae darpariaeth chwarae o safon yn rhoi 'pair' i gymdogaeth ble mae plant, fyddai ddim yn cwrdd a chymdeithasu fel arfer, yn gallu cymysgu gyda'i gilydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i brofi pobl eraill a mwy o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithiau cymdeithasol eang. Mae gallu chwarae yn eu cymdogaethau'n fater o gydraddoldeb i blant fel grŵp. Mae edrych ar a mynd i'r afael â'r amodau sy'n cefnogi'r rheini sy'n cael trafferth i gael mynediad i chwarae'r tu allan yn darparu profiad mwy teg i blant.

**Cymru o gymunedau cydlynus**

Pan mae gan blant fynediad i fannau a lleoedd i chwarae ac ymgasglu gyda'u ffrindiau, mae'r gymuned yn tyfu'n fwy goddefgar tuag at chwarae.[54]

Mae presenoldeb plant yn chwarae'n cefnogi rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned i fod yn eiriolwyr dros chwarae a phlentyndod.[55] Mae plant yn ennill gwell ymdeimlad o berthyn (cynefin, sydd wedi'i gorffori yn y Cwricwlwm i Gymru 2022) i'r gymuned a'r rôl y maent yn ei chwarae ynddi. Mae darpariaeth chwarae lleol yn cyfrannu at gydlyniad cymunedol, ymlyniad â chyfoedion a lle a chynhwysiant cymdeithasol, gan ei fod yn benodol i'r gymuned.[56]

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae gweithgareddau hamdden (sy'n cynnwys gweithgareddau diwylliannol) yn ffurfio rhan o'r adran ar gyfleoedd chwarae ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Pan mae cymunedau'n cefnogi chwarae plant, caiff hynny ei ddilyn gan rannu straeon a hanesion. Caiff llên gwerin cymunedol ei basio i lawr trwy genedlaethau'n chwarae. Mae Asesiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol yn cynnwys deall a darparu ar gyfer anghenion chwarae plant Cymraeg eu hiaith.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae plant a chyfeirir at yr agwedd hon yn Sylw Cyffredinol rhif 17 ar Erthygl 31 CCUHP. Mae deddfwriaeth arloesol Llywodraeth Cymru'n enghraifft o arbrawf mentrus wrth gynllunio a chyfrif ar gyfer chwarae ble nad oes templed y gellir ei ddilyn yn bodoli eisoes. Mae hyn wedi arwain at ddiddordeb rhyngwladol yn Erthygl 31 ac agwedd Cymru.

## Sicrhau dulliau integredig

Mae'r astudiaethau ymchwil digonolrwydd cyfleoedd chwarae wedi defnyddio agwedd seiliedig ar asedau tuag at ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, gan fynegi trwy'r adroddiadau mai chwarae yw'r hyn fydd plant yn ei wneud pan mae'r amodau'n gywir a'i sefydlu fel eu ffordd nhw o gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae hyn i'w weld amlycaf yn astudiaeth 2020[57], sy'n alinio'r broses o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae gyda'r agwedd a fabwysiadwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n tanlinellu bod "dull seiliedig ar asedau yn dynodi ffactorau sy'n cefnogi iechyd a llesiant da ac yn dibynnu ar weithio'n lleol gyda chymunedau".[58]

Mae rhoi'r broses digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar waith wedi gofyn am ymgysylltu ystyrlon gyda phlant a dibynnu ar safbwynt sy'n ystyried plant fel unigolion cymwys sydd â'r ddawn i ddylanwadu ar ddatblygiadau positif yng nghyd-destun eu chwarae. Ledled Cymru, mae plant wedi cyflwyno sylwadau ar eu cyfleoedd i chwarae[59] ac, o gael eu cefnogi i wneud hynny, gallant ddarparu cyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth am eu cymdogaethau[60]. Mae ymgysylltu'n weithredol gyda phlant yn rhoi cyfle inni fabwysiadu agwedd seiliedig ar asedau tuag at ateb anghenion chwarae plant.

## Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19

Mae pwysigrwydd chwarae ar gyfer iechyd a lles wedi ei ymchwilio, ei bwysleisio a'i hybu'n eang ar draws gwahanol sectorau. Mae plant wedi adrodd bod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig wedi effeithio ar eu gallu i gael mynediad i'w hawliau. Yn ogystal, i'r plant, bu mynediad wedi'i gyfyngu i chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau yn hynod o anodd, gyda llawer yn adrodd gostyngiad mewn ymdeimlad o les.[61]

Ar nodyn cadarnhaol, bu rhaid i randdeiliaid ganfod a defnyddio ffyrdd newydd o weithio. Mae gan y cynnydd mewn cyfarfodydd ar-lein a chyfarfodydd cyfunol y potensial i alluogi cydweithredu a phartneriaethau traws-bolisi trwy gefnogi gwell presenoldeb a chynnwys pobl allweddol.

## Argymhellion allweddol

**Argymhelliad allweddol 1: Mabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru.**

**Argymhelliad allweddol 2: Sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae.**

# Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid

Mae Llywodraeth Cymru am i Gymru fod yn wlad ble mae plant yn cael eu gweld y tu allan yn amlach yn mwynhau buddiannau chwarae – gwlad chwarae-gyfeillgar sy'n darparu amser, lle a chaniatâd i bob plentyn chwarae.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[62] sy'n trafod yr ymrwymiad i drechu tlodi plant. Yn bwysig iawn, mae'r mesur hwn yn cwmpasu chwarae a chyfranogaeth hefyd.

Mae rhan o'r mesur yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal, yn unol â Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012[63].

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17[64] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n rhoi gwybodaeth ychwanegol, arweiniad ac argymhellion i lywodraethau ar Erthygl 31, yn annog llywodraethau cenedlaethol i ystyried deddfu i sicrhau'r hawliau dan Erthygl 31. Mae'n cynghori y dylai deddfwriaethau gyfeirio at yr egwyddor o ddigonolrwydd – dylai pob plentyn gael digon o amser a lle i arfer eu hawl i chwarae. Mae'n pwysleisio hefyd y dylai deddfwriaeth o'r fath gydnabod bod creu amgylcheddau sy'n cefnogi gweithgarwch plant a gyfarwyddir yn bersonol cyn bwysiced â darparu cyfleusterau a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a drefnir.

## Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn rhan o agenda gwrthdlodi Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod y gall plant brofi tlodi mewn amryw ffyrdd. Gall amddifadedd chwarae[65] effeithio ar blant o bob cefndir cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar draws Cymru.

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn dwy ran. Cychwynnwyd y rhan cyntaf, sy'n mynnu y dylai awdurdodau lleol asesu digonolrwydd y cyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd, ym mis Tachwedd 2012. Cyflwynwyd yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) teirblynyddol cyntaf ym mis Mawrth 2013. Mae'r ail ran yn gofyn i awdurdodau lleol sicrhau cyfleoedd digonol ar gyfer chwarae plant yn eu hardaloedd, cyn belled ag sy'n rhesymol ac ymarferol, ac fe'i cychwynnwyd ym mis Gorffennaf 2014.

Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn cyflwyno Cynlluniau Gweithredu Chwarae ac Adroddiadau Cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi crynodeb o'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae, ar eu gwefannau, ac mae rhaid cynnwys canlyniadau'r asesiad a thanlinellu'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd er mwyn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Wrth asesu nifer ac ansawdd digonolrwydd y cyfleoedd i chwarae, bydd rhaid i awdurdodau lleol ystyried y naw Mater a ddisgrifir yng nghyfarwyddyd statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwa*rae[66]:

Mater A: Poblogaeth
Mater B: Diwallu anghenion amrywiol
Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

- Mannau agored
- Mannau chwarae dynodedig yn yr awyr agored lle nad oes staff

- Caeau chwarae

Mater Ch: Darpariaeth dan oruchwyliaeth
- Darpariaeth gwaith chwarae
- Gweithgareddau hamdden strwythuredig

Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae

Mater Dd: Mynediad i le a darpariaeth, yn cynnwys mesurau diogelwch ffyrdd, trafnidiaeth, gwybodaeth a chyhoeddusrwydd

Mater E: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae

Mater F: Ymgysylltu gyda'r gymuned a'i chynnwys

Mater Ff: Chwarae ym mhob polisi ac agenda weithredu berthnasol.

Er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu gweithrediad statudol o'r ddyletswydd, paratowyd *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae*[67] gan Chwarae Cymru a Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a darparwyr chwarae ar hyd a lled Cymru. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys templed o Asesiad Digonolrwydd Chwarae safonedig gyda dros 100 criteria ar draws y naw Mater. Cafodd y templed ei adolygu a'i ddiweddaru ar gyfer cyfnodau asesu diweddarach er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn polisi, deddfwriaeth a rhaglenni ariannu wedi'u diweddaru a'u cynnwys.

Mae awdurdodau lleol yn adrodd[68] bod y templed yn caniatáu ar gyfer cymharu rhwng blynyddoedd ac yn gyrru cydweithredu trwy ddarparu offeryn cyson ar gyfer gweithio trawsadrannol a chynllunio camau gweithredu. Fodd bynnag, mae ymchwil[69] a gynhaliwyd yn 2020 wedi argymell ei bod yn bryd adolygu, adfywio ac ail-lansio'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae*, ac ategir hyn gan drafodaethau a gwaith grŵp llywio'r adolygiad.

## Ymchwilio i ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae

Mae pedair astudiaeth ymchwil ar raddfa fechan, a gomisiynwyd gan Chwarae Cymru, wedi eu cynnal ers cychwyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae[70]. Mae'r astudiaethau'n dwyn ynghyd y llwyddiannau a'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth weithredu'r ddyletswydd.

Mae'r ymchwil i weithrediad awdurdodau lleol o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae'n awgrymu bod y broses yn annog a hwyluso gweithio traws-bolisi ar lefel awdurdod lleol, ond bod angen atgyfnerthu hyn a'i fod yn llai amlwg ar lefel genedlaethol[71]. Mae'r un ymchwil yn pwysleisio cydsyniad eang ymysg awdurdodau lleol a chyrff sector bod angen cyfarwyddyd pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi iddynt dderbyn yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) a'r adroddiadau blynyddol.

O ystyried potensial y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynd i'r afael ag agendâu polisi cymdeithasol eraill[72], dylid gwneud mwy i hyrwyddo'r ddyletswydd ar draws Llywodraeth Cymru ac adrannau awdurdodau lleol, cyrff cenedlaethol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a gyda'r cyhoedd. Mae angen system ar gyfer adrodd yn ôl yn ogystal â modd o dynnu allan flaenoriaethau cenedlaethol allweddol a meysydd sy'n galw am waith traws-bolisi pellach. Mae swyddogion arweiniol digonolrwydd chwarae lleol yn adrodd bod y broses o greu'r ADCh yn ddarn sylweddol o waith ac os yw'r broses i fod yn un effeithlon, mae angen cydnabod hynny a gweithredu arno ar lefel leol a chenedlaethol.

Ar draws y pedair astudiaeth ymchwil, ceir cydnabyddiaeth bod y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chware a'i offerynnau polisi (y rheoliadau, y cyfarwyddyd statudol, y pecyn cymorth a'r templed) yn datgan:

> "Nid yw chwarae'n weithgaredd fydd yn digwydd mewn mannau ar wahân ac ar adegau penodol yn unig; nid yw'n rhywbeth y gall oedolion, yn syml, ei 'ddarparu', ond yn hytrach mae'n weithred o gyd-greu fydd yn codi'n gyfleus o gyfuniad o ffactorau cyd-ddibynnol a chydberthynol".[73]

Tra bo'r ymchwil wedi canolbwyntio ar ymateb awdurdodau lleol i ddyletswyddau statudol, mae'r gwersi'n drosglwyddadwy i'r lefel genedlaethol. Mae'r astudiaethau wedi cydnabod bod y cysyniad o 'ddigonolrwydd' yn broses ac nid yn gynnyrch. Mae'n cynnwys proses weithrediadol barhaus o ymgysylltu ac arbrofi ar lefelau lleol a chenedlaethol ac mae'n gofyn i bobl fod yn agored i wneud pethau'n wahanol.

Mae astudiaeth ymchwil 2020[74] yn gwneud nifer o argymhellion ynghylch yr amodau all gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu camau gweithredu i sicrhau cyfleoedd digonol i blant chwarae. Maent, yn gryno, yn cynnwys:

- "cyfliniad polisi gyda'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae, a'i hybu'n lleol ac yn genedlaethol
- y bobl gywir yn y man cywir ar yr adeg gywir gyda digon o awdurdod, capasiti, gallu a chysondeb
- ffynhonnell benodedig, gyson o ariannu ar gyfer digonolrwydd chwarae
- gwybodaeth sy'n bodoli eisoes a gwybodaeth newydd, yn cynnwys ymchwil (yn enwedig ymchwil lleol iawn gyda phlant a ffyrdd i rannu gwybodaeth)
- bod yn agored i bosibiliadau (diwylliannau sefydliadol sy'n caniatáu inni allu ymateb i gyfleoedd fydd yn codi)".

Mae datblygu a gweithredu polisi yn broses a ddylanwadir gan ffactorau hanesyddol a chyfoes. Mae'r astudiaethau ymchwil i ddigonolrwydd chwarae'n seiliedig ar agwedd nad yw chwarae'n ffenomenon ar wahân sy'n digwydd mewn mannau dynodedig ac ar adegau a bennir, ond sydd wedi'i phlethu trwy fywydau bob dydd plant ac y bydd yn digwydd ble bynnag y mae amodau'n caniatáu.

Ar lefel genedlaethol, daw'r ymchwil i'r casgliad bod rôl i Lywodraeth Cymru gefnogi'r prosesau digonolrwydd chwarae yn weithredol er mwyn i awdurdodau lleol allu asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant, yn cynnwys parhad y bartneriaeth allweddol gyda Chwarae Cymru. Byddai hyn yn cynnwys archwilio'r wybodaeth yn yr ADCh yn fanwl i weld yr hyn sy'n gweithio'n dda a chefnogi arferion o'r fath ar draws pob awdurdod lleol. Mae hefyd yn galw am weithio'n drawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod hawl plant i chwarae'n cael ei chydnabod a'i gwreiddio mewn polisïau, arferion a ffrydiau cyllido cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer awdurdodau lleol, trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae, a rôl allweddol Chwarae Cymru wrth gefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Mae'r ymchwil yn pwysleisio'r rôl ganolog a gyflawnir gan Chwarae Cymru o ran gweithio i ddatblygu, hyrwyddo a chefnogi gweithredu'r Ddyletswydd. Mae hyn wedi cynnwys:

- gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddatblygu, ymchwilio ac adrodd ar y ddyletswydd
- cefnogi awdurdodau lleol trwy gyfarfodydd rhanbarthol

- taflenni gwybodaeth
- cyfleoedd hyfforddiant traws-broffesiynol a chefnogaeth bersonol
- rhedeg ymgyrch a gwefan Plentyndod Chwareus ar gyfer rhieni a gofalwyr.

Yn gyffredinol, mae ADCh 2019 yn arddangos cydweithrediad da ar draws adrannau awdurdodau lleol, ond mae hyn yn sylweddol fwy effeithiol ble mae swyddog arweiniol penodedig ar gyfer digonolrwydd cyfleoedd chwarae.[75] Mae gwerth swyddog allweddol sydd â phrofiad amlwg all greu rhwydweithiau a gyrru agwedd fanteisgar tuag at weithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn yr awdurdod lleol, wedi ei dynodi fel egwyddor allweddol wrth greu partneriaethau sy'n gyrru mentrau cyfeillgar at blant yn eu blaen.[76]

## Cynnwys plant mewn digonolrwydd chwarae

Mae plant wedi dweud yr hoffent gymryd rhan mewn datblygiadau sy'n ymwneud â'u chwarae.[77] Mae *Y Ffordd Gywir: dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru* Comisiynydd Plant Cymru wedi'i wreiddio yn CCUHP. Mae'n helpu sefydliadau i osod hawliau plant wrth galon eu gwaith. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi galw ar i awdurdodau lleol fabwysiadu'r dull hwn fel rhan o'u ADCh a'u cynllunio gweithredu.[78] Mae gofyn am farn plant mewn modd ystyrlon yn galluogi mwy o blant i chwarae rhan well wrth siapio gwasanaethau a chyfleoedd.

Mae'r templed ADCh yn gofyn i awdurdodau lleol ddynodi sut y maent wedi ymgynghori gyda phlant. Roedd ADCh cynnar yn tueddu i ddibynnu ar holiaduron papur neu dros y we yn seiliedig ar esiampl oedd wedi'i chynnwys yn y *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.* Dros y blynyddoedd, mae nifer o awdurdodau lleol wedi datblygu ffyrdd mwy ystyrlon a chyfeillgar i blant o gasglu a chynnwys barn plant, yn enwedig wrth ystyried eu perthynas gyda'u cymdogaethau.

Mae awdurdodau lleol sydd â chapasiti i ddatblygu chwarae wedi gallu cynnal mwy o ymchwil fel rhan o'u gwaith gyda phlant, y tu hwnt i'r arolwg.[79] Mae enghreifftiau'n cynnwys ymchwil sy'n defnyddio mapio, gweithdai chwareus, grwpiau ffocws a mynd am dro drwy'r gymdogaeth. Mae ymchwil o'r fath wedi casglu cyfoeth o wybodaeth am berthnasau plant gyda'u cymdogaethau (gweler y Thema 3: Chwarae plant, cyfiawnder gofodol a'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae am fwy ar hyn).

## Cynnwys rhieni, rhai sy'n rhoi gofal a chymunedau mewn digonolrwydd chwarae

Mae Llywodraeth Cymru wedi hen gydnabod rôl allweddol rhieni, gofalwyr a chymunedau wrth gefnogi neu gyfyngu ar chwarae plant, a hynny gartref ac yn y gymuned. Roedd *Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae* 2006 yn cynnwys cam gweithredu i gynhyrchu gwybodaeth ar yr hyn sy'n creu chwarae o safon a sut all teuluoedd a chymunedau helpu i'w hwyluso.

Mae'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* yn cydnabod bod creu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar ble caiff plant ddigon o amser, lle a chaniatâd i chwarae angen i "rieni, teuluoedd a phawb yn y gymuned gydnabod bod chwarae yn bwysig iawn i fywydau plant nawr ac ar gyfer eu datblygiad yn y dyfodol".[80] Cafodd hyn ei godi hefyd mewn trafodaethau gweithdai'n ystod yr adolygiad hwn a'i gydnabod yn yr ymchwil i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.[81]

Ers 2018, mae Chwarae Cymru wedi bod yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd trwy *Plentyndod Chwareus*,[82] gwefan ac ymgyrch sy'n "helpu rhieni a gofalwyr i roi amser, lle a chaniatâd i blant chwarae gartref ac yn eu cymuned leol". Ynghyd â'r wefan, cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfryngau

cymdeithasol, sioeau teithiol a digwyddiadau (er enghraifft, helfa drysor llyfrau stori). Derbyniodd y wefan gynnydd o 400% mewn ymwelwyr yn ystod cyfnod clo cyntaf y pandemig Coronafeirws.

## Cyllid ar gyfer gwaith chwarae a datblygu chwarae

Cafwyd nifer o wahanol raglenni ariannu allai, o bosibl, gefnogi chwarae a gwaith datblygu chwarae. Ym mis Mai 2000, darparodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru £1 miliwn ar gyfer gwella cyfleusterau chwarae mynediad agored ar gyfer plant. Cafodd y cyllid, a alwyd yn Gynllun Grant Chwarae 2000, ei rannu a'i reoli trwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Parhaodd y cyllid yma a'i reoli'n yr un modd yn y flwyddyn ariannol ganlynol, ei ddyblu yn 2002 tan 2003 a'i alw'n Grant Chwarae.

Cyflwynwyd Cronfa Cymorth yn 2003 tan 2004 gan Lywodraeth Cymru i ddarparu rhwydwaith o gefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer plant. Cafodd y Grant Chwarae ei gyfuno gyda chyllid arall Cymorth a ddyrannwyd i Bartneriaethau Fframwaith a chael ei alw'n Thema Chwarae. Gwnaeth y gronfa hon wahaniaeth i ddatblygiad cyfleoedd chwarae yn y mwyafrif o awdurdodau lleol a gwelwyd nifer cynyddol o strategaethau chwarae lleol gyda chysylltiad clir i Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc.[83]

Roedd Cymunedau'n Gyntaf yn rhaglen allweddol arall gan Lywodraeth Cymru oedd yn ffynhonnell bosibl ar gyfer cyllid i gefnogi chwarae. Cychwynnodd rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yn 2001 fel rhaglen adfywio gymunedol oedd yn anelu i annog creadigedd, arbrofi a mentro. Yn ystod ei blynyddoedd olaf, symudodd tuag at ffocws ar ddeilliannau a dod i ben gyda chyfrifo seiliedig ar dargedau a chanlyniadau.

Nododd yr adolygiad bod hanes, ar lefel leol a rhanbarthol, o ganllawiau cysylltiedig annigonol ar gyfer rhaglenni ariannu megis Cymunedau'n Gyntaf. Yn aml, mae amwysedd y cyngor yma wedi arwain at gamddehongli wrth lunio penderfyniadau ar lefel leol, gaiff yn aml ei gymhlethu ymhellach gan ddiffyg tryloywder wrth lunio penderfyniadau'n lleol. Fe wnaeth cyllid ar gyfer Canolfannau Plant Integredig (ICC) gynnwys datblygu gwaith chwarae mynediad agored wedi'i staffio fel un o'r pedwar amcan. Rhoddwyd ffocws ar ddatblygu meysydd chwarae antur wedi'u staffio. Mae tystiolaeth[84][85] yn awgrymu na ddefnyddiwyd mentrau cyflenwol, megis Cymunedau'n Gyntaf, ysgolion bro a Chanolfannau Plant Integredig, yn y modd gorau ar gyfer chwarae plant.

Roedd rhaglen Chwarae Plant y Loteri Fawr (2006 i 2012) yn rhaglen strategol oedd yn anelu i gael effaith sylweddol ar chwarae plant yng Nghymru. Fe wnaeth rownd un y rhaglen gefnogi datblygu'r isadeiledd oedd angen i drosglwyddo chwarae a helpu i staffio deg rhwydwaith chwarae rhanbarthol yn cwmpasu Cymru gyfan. Dyrannodd rownd dau'r rhaglen grantiau i rwydweithiau chwarae rhanbarthol oedd yn cynnig cyfleoedd uniongyrchol i chwarae. Roedd y rhaglen Chwarae Plant yn canolbwyntio ar agweddau newydd tuag at brosiectau chwarae wedi'u staffio, ac yn disgwyl i brosiectau ddatblygu prosiectau chwarae creadigol oedd yn cynnig her a chyfleoedd amrywiol.

Disodlwyd cyllid Cymorth gan Gronfa Teuluoedd yn Gyntaf yn 2012 ar gyfer gwaith awdurdodau lleol a chynrychiolodd hyn gam tuag at wasanaethau oedd wedi'u targedu fwy tuag at drechu tlodi plant. Er mai bwriad y rhaglen oedd y byddai hyblygrwydd lleol ar gyfer dehongli a gweithredu'r rhaglen ar lefel awdurdod lleol, cododd yr adolygiad hwn fater penodol ynghylch argaeledd cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i gefnogi darpariaeth chwarae. Arweiniodd y cam hwn tuag at wasanaethau oedd wedi'u targedu fwy at fwlch sylweddol mewn ariannu ar gyfer darpariaeth chwarae ledled Cymru.[86]

Golygodd y newid hwn, ynghyd â diwedd ariannu'r Loteri Fawr a'r toriadau mewn gwario ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, bod yr isadeiledd oedd yn cefnogi datblygiad chwarae mewn ambell awdurdod lleol wedi ei golli. Mae'r adolygiad hwn wedi tanlinellu effaith y golled sylweddol o

ran cyfrifoldebau strategol, trosglwyddo a datblygu chwarae yr oedd y cymdeithasau chwarae rhanbarthol yn eu darparu.

## Ariannu digonolrwydd cyfleoedd chwarae

Ar hyn o bryd, nid oes ffrwd ariannu genedlaethol benodedig i awdurdodau lleol ar gyfer chwarae neu swyddogaethau digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cyllid refeniw a chyfalaf i awdurdodau lleol ar gyfer digonolrwydd chwarae ar sail *ad hoc* yn flynyddol, trwy:

- Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG)
- Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae
- Pecyn ariannu Ail-greu ar ôl COVID-19 – Yr Heriau a'r Blaenoriaethau
- Rhaglenni Haf o Hwyl
- Rhaglen Gaeaf yn Llawn Lles.

Mae'r cyllid hwn wedi'i groesawu gan awdurdodau lleol ac mae camau gweithredu wedi'u cyflawni trwy ei ddefnyddio. Fodd bynnag mae'r amseriad, sy'n aml yn gyfyng iawn, sy'n mynnu iddo gael ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol y'i derbyniwyd a'r ansicrwydd nad yw wedi'i warantu, yn golygu na ellir ei wario bob amser yn y modd mwyaf strategol[87]. Oherwydd bod cyllid AWPOG yn gallu un ai bod yn gyllid cyfalaf neu refeniw neu'r ddau, daw hyn ag ansicrwydd a chyfyngiadau ychwanegol ar sut y gellir ei wario.

Cychwynnwyd rhan dau o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2014 ar y ddealltwriaeth y byddai'n niwtral o ran cost. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn adrodd bod ariannu ar gyfer chwarae wedi gostwng yn sylweddol mewn termau real rhwng 2014 a 2019. Mae pob awdurdod lleol wedi adrodd am ostyngiad mewn ariannu ar gyfer chwarae yn ADCh 2019.[88] At hynny, mae'r adolygiad o ADCh 2019 wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer staff awdurdodau lleol a gyflogir i ddatblygu a throsglwyddo cyfleoedd i blant chwarae.

Bu gostyngiad hefyd yn y gyllideb a'r personél ar draws meysydd eraill sy'n dylanwadu ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae (megis polisi trafnidiaeth, darpariaeth ieuenctid, polisi cynllunio, personél parciau). Mater allweddol arall yw cau'r mwyafrif o gymdeithasau chwarae gwirfoddol rhanbarthol ar draws Cymru. Yn 2013, roedd deg cymdeithas, ac roedd y rhain yn cyfrannu ar lefel strategol a throsglwyddo ledled Cymru – roedd llawer ohonynt yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi gwaith digonolrwydd cyfleoedd chwarae'r awdurdod lleol.[89] Nid oes gan yr ychydig sy'n dal i weithredu ar hyn o bryd ddigon o gapasiti i gyfrannu ar lefel strategol ac, yn aml, nid oes ganddynt y capasiti i ymateb pan fydd arian ychwanegol ar gael. Bu colli'r gefnogaeth hon ar gyfer digonolrwydd chwarae yn golled fawr.

Tra bo pob awdurdod lleol yn cynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Chwarae, mae'r rhybudd hwyr ar gyfer dyraniadau AWPOG yn golygu nad yw cyllid yn cyrraedd mewn modd fyddai'n cefnogi blaenoriaethau a chaiff awdurdodau lleol eu gorfodi i symud ymlaen gyda'r hyn sy'n gyraeddadwy yn hytrach na'r hyn sydd bwysicaf. Mae'r gallu i wneud defnydd o ariannu'n perthyn yn agos hefyd i bresenoldeb swyddog arweiniol digonolrwydd chwarae penodedig sydd â digon o awdurdod a statws i wneud penderfyniadau a dylanwadu ar eraill.[90] Mae'n heriol i awdurdodau lleol gynnal grwpiau strategol a monitro, cael mynediad i gyllid a chyd-drafod gyda rhanddeiliaid i ddyrannu cyllid yn ddoeth os nad oes swyddog sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.

## Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19

Mae adroddiadau cynnydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2020-21 yn nodi bod mesurau cyfnodau clo coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar allu awdurdodau lleol i sicrhau digonolrwydd darpariaeth o ran rhai o'r Materion. Mae'r effaith ar ddarpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio, ardaloedd chwarae penodedig ac ymgysylltu cymunedol wedi ei bwysleisio.

Er i'r pandemig achosi cyfyngiadau ac ansicrwydd annisgwyl nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen, bu hwn yn gyfnod hefyd o arloesi ac arbrofi. Fe wnaeth awdurdodau lleol a'u partneriaid addasu eu hunain i ddod at ei gilydd i gynnig cymorth a chefnogaeth.[91] O ymgysylltu ar-lein a darparu adnoddau chwarae i blant, fe weithiodd sefydliadau plant a chwarae ar draws Cymru yn galed i wneud yn siŵr bod chwarae'n aros ar frig agenda pawb. Ceir enghreifftiau hefyd o fudiadau a thimau chwarae ledled Cymru'n sicrhau bod gan blant bresenoldeb chwareus a chyfleoedd i chwarae yn eu cymdogaethau trwy gynnig syniadau a darpariaeth chwarae'r tu allan.

Tanlinellodd Llywodraeth Cymru bwysigrwydd chwarae ar gyfer iechyd a lles mewn cyfarwyddyd a darparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chamau gweithredu digonolrwydd chwarae fel rhan o'r pecyn ariannu *Ail-greu ar ôl COVID-19 - Yr Heriau a'r Blaenoriaethau*. Arweiniodd ffocws ar ddarpariaeth gwaith chwarae ar gyfer plant bregus yn ystod haf 2020 at bartneriaethau cryfach rhwng swyddogion digonolrwydd cyfleoedd chwarae a gwasanaethau plant eraill ac adroddodd nifer o dimau chwarae am fwy o gydweithredu ac ymdeimlad o well cydnabyddiaeth.

## Argymhellion allweddol:

**Argymhelliad allweddol 3: Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer adfer wedi'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn ystyried hawl plant i chwarae.**

**Argymhelliad allweddol 4: Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol yn ei chyfanrwydd.**

**Argymhelliad allweddol 5: Cefnogi trosglwyddiad rhaglen wybodaeth i'r cyhoedd am yr hawl i chwarae.**

**Argymhelliad allweddol 6: Defnyddio'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n ehangach i gwmpasu ystod eang o gyrff eraill.**

# Thema 3: Chwarae plant, cyfiawnder gofodol a'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Hawl plant i chwarae

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, fel holl ddeddfwriaethau a pholisïau Cymru sy'n ymwneud â phlant, yn seiliedig ar hawliau. Mae Sylw Cyffredinol rhif 17[92] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn datgan bod "plant yn chwarae yn unrhyw le ac ym mhobman". Mae'r datganiad cymharol syml hwn yn un dwfn ac yn ein helpu i ddeall dau bwynt allweddol o ran dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o chwarae.

Yn gyntaf, nid yw chwarae'n weithgaredd fydd ond yn digwydd mewn mannau dynodedig ac ar adegau penodedig. Caiff hyn ei gydnabod yn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sy'n cydnabod yr angen am ddarpariaeth chwarae penodol yn ogystal â hawl plant i chwarae'r tu allan yn eu cymdogaeth leol. Gwnaethpwyd rhywfaint o gynnydd ar fynd i'r afael â digonolrwydd cyfleoedd chwarae y tu hwnt i fannau chwarae penodedig, er yr ystyrir hyn fel y "mater mwyaf dyrys".[93] Mae iaith yn bwysig yma: a dyna pam y cynigir y dylai arweiniad pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru siarad am chwarëusrwydd yn hytrach na chwarae (fel agwedd yn hytrach na gweithgaredd gaiff ei phennu gan amser a lle), ac y dylid ystyried newid geiriad o 'gyfleoedd chwarae' i 'gyfleoedd i chwarae'.

Yn ail, mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn dangos sut mae chwarae, yn ei hanfod, yn ofodol, ac felly mae angen creu cysylltiadau cryfach gyda pholisïau gofodol. Wrth galon Polisi Cynllunio Cymru (PCC) mae'r egwyddor o gyflawni lles trwy greu lleoedd. Mae hwn yn gyfle i feddwl yn benodol am sut y mae gofodau'n gweithio ar gyfer plant.

Yn aml, mae plant yn anweledig mewn polisïau ac arferion sy'n effeithio ar drefnu gofod. Felly, mae'n ddefnyddiol ystyried plant fel grŵp pendant. Er hynny, mae'n hanfodol cofio hefyd nad oes y fath beth ag un plentyndod ond nifer ohonynt, a bod anghydraddoldeb ac anghyfiawnder yn cael eu profi'n wahanol ac mewn ffyrdd sy'n croesi ar draws ei gilydd, gan wahanol blant. Fel rhan o'r adolygiad, dywedodd plant hŷn eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu barnu a bod oedolion yn cymryd yn ganiataol eu bod ar berwyl drygioni.[94]

Ceir tystiolaeth bod anghydraddoldebau ar gyfer grwpiau penodol o blant o ran eu cyfleoedd i chwarae. Mae bechgyn yn tueddu i chwarae'r tu allan yn amlach na merched, mae merched yn teimlo'n fwy cyfyngedig na bechgyn o ran ble y gallant chwarae, ac mae plant anabl yn cael eu cyfyngu fwy fyth.[95] Yn aml, nid oes gan bobl sy'n byw mewn llety gorlawn neu dros dro, yn cynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches, fawr ddim mynediad i fannau i chwarae, a hynny wedi ei waethygu gan gyfyngiadau eu llety.[96] Mae gan gymdogaethau incwm isel a rhai sydd â chyfran uchel o deuluoedd Duon a theuluoedd of liw lai o fynediad i ofodau awyr agored ac mae'r gofodau sydd ar gael o safon is a ddim yn cael eu cynnal a'u cadw cystal.[97] Yng Nghymru, mae 40% o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau o 10,000 o bobl neu lai.[98] Mae llawer o'r hyn allai ymddangos fel gofod gwyrdd ac agored ar gyfer chwarae yn anodd cael mynediad iddo, yn rhannol oherwydd ffyrdd gwledig peryglus ac yn rhannol oherwydd ei fod yn dir amaeth preifat.[99]

Mae llawer o ymchwil rhyngwladol sy'n dangos yr hyn sy'n creu amgylchedd cyhoeddus sy'n gyfeillgar at blant, er bod y mwyafrif o hyn yn cyfeirio at ardaloedd trefol.[100] Yn gyffredinol, bydd amgylchedd cyhoeddus cyfeillgar at blant yn cefnogi gallu plant i symud o gwmpas yn ddiogel ac yn ddidrafferth (fydd yn galw am fesurau traffig ystyriol a rhoi blaenoriaeth i gerddwyr) a bydd yn

cynnig cyfleodd i blant chwarae a chymdeithasu. Mae amser, lle a chaniatâd yn nodweddion allweddol gofod cyhoeddus y gellir chwarae ynddo, yn ogystal â phlant eraill.[101]

Fodd bynnag, mae angen mwy o ymchwil er mwyn deall y materion gofodol sy'n wynebu grwpiau penodol o blant. Mae plant wedi dweud hefyd yr hoffent gyfranogi mewn datblygiadau sy'n ymwneud â'u chwarae.[102] Trafododd y grŵp llywio gyfuno'r ddwy elfen hon trwy gefnogi awdurdodau lleol i gynnal ymchwil hynod leol gyda phlant, gan ddefnyddio dulliau gofodol creadigol fel mapio, mynd am dro a thynnu lluniau sy'n canolbwyntio ar feicro-fanylion cymdogaethau penodol iawn.

Bu dirywiad sylweddol yn y nifer o blant sydd allan yn y gymuned heb oedolyn yn eu goruchwylio dros nifer o ddegawdau.[103] Fodd bynnag, mae plant yng Nghymru yn dal eisiau chwarae'r tu allan, a ble fo'r amodau'n gywir (sy'n amlach nac y mae llawer yn feddwl), fe fyddan nhw'n gwneud hynny.[104] Mae angen talu sylw i sut gaiff amodau sy'n cefnogi chwarae eu creu. Mae llawer o hyn yn ymwneud â'r ffyrdd y trefnir gofod ac amser. Mae deall hawl plant i chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

## Beth mae cyfiawnder gofodol yn ei olygu?

Yng nghyd-destun yr adolygiad, mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â mynediad teg a chyfiawn plant i – a'u cyfranogaeth yn – yr hyn sydd gan ofod cyhoeddus i'w gynnig. Mae'r ffocws yma ar ofod cyhoeddus cyffredinol ac ar gymdogaethau'n arbennig. Felly, mae cyfiawnder gofodol yn ymwneud â rhyddid bob dydd plant[105] i symud o gwmpas eu cymdogaethau a chwarae neu gwrdd â ffrindiau.

Gellir cysylltu'r dirywiad yn rhyddid bob dydd plant yn uniongyrchol i'r modd y mae dyluniad a threfniant gofod cyhoeddus yn blaenoriaethu'r economi dros bobl, ac oedolion dros blant. Mae hyn yn amlwg ym mhreifateiddio cynyddol tir ac yn y modd y mae ceir, sy'n symud ac wedi'u parcio, yn rheoli llawer o strydoedd a chymdogaethau preswyl. Oherwydd bod strydoedd yn cael eu hystyried yn beryglus, mae plant wedi eu tynnu oddi arnynt yn enw diogelwch.[106] Dros amser, mae llai a llai o blant ac oedolion allan ar y strydoedd, gan arwain at ystyried plant fel bod "allan o le" ar y stryd ac, o'r herwydd, yn chwyddo ofnau eraill (perygl dieithriaid, bwlio, aflonyddu, trais, neu bryderon rhieni ynghylch cael eu hystyried yn esgeulus).[107]

Mae'r dirywiad hwn wedi ei gysylltu gyda'r cynnydd mewn pryderon cyfoes am iechyd a lles plant megis gordewdra, diffyg ffitrwydd corfforol[108] ac iechyd meddwl gwael.[109] Mae'r bai wedi ei osod ar nifer o elfennau, yn cynnwys sgriniau, rhieni goramddiffynnol a pherygl dieithriaid. Mae'r cysyniad o gyfiawnder gofodol yn caniatáu safbwynt ehangach a mwy deallus, sy'n cydnabod y llu o ffactorau sy'n cyfrannu at gynhyrchu gofod cyhoeddus ble nad oes croeso i blant bellach.

Mae'r cysyniad o gyfiawnder gofodol yn cydweddu'n dda gyda'r ffocws ar greu lleoedd yn PCC. Mae hefyd yn cyd-daro gyda'r syniad o 'gynefin', a gyflwynir yn y *Cwricwlwm i Gymru 2022.* Mae'r ddau'n ddefnyddiol wrth edrych y tu hwnt i ddim ond elfennau technegol dylunio. Diffinnir 'cynefin' fel:

> *"Y man ble rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, ble mae'r bobl a'r dirwedd o'n hamgylch yn gyfarwydd, a ble mae'r hyn yr ydym yn ei weld a'i glywed yn galonogol gyfarwydd. Er ei fod yn cael ei gyfieithu'n aml i 'habitat' yn Saesneg, mae cynefin yn fwy na dim ond lleoliad mewn ystyr ffisegol neu ddaearyddol: cynefin yw'r man hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n dal i ffurfio'r gymuned sy'n byw yno."*[110]

Er mwyn i bob plentyn deimlo eu bod yn perthyn, mae angen iddyn nhw allu arfer rhyddid bob dydd i symud o gwmpas eu cymdogaethau'n ddiogel ac i allu chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau.

## Cyfiawnder gofodol a pholisi Llywodraeth Cymru

Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi galluogi awdurdodau lleol i archwilio a mynd i'r afael â materion cyfiawnder gofodol ar gyfer plant. Mae partneriaethau allweddol yn rhai gyda chynllunio, tai, priffyrdd, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, mannau agored, rheolwyr canol trefi, Cynghorau Tref a Chymuned, yr heddlu a phobl broffesiynol eraill y mae eu gwaith yn ymwneud â dylunio, rheoli a threfnu gofod cyhoeddus. Gallai cyfeiriadau cryfach a mwy amlwg at y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y cyfarwyddyd sy'n berthnasol i bolisïau gofodol, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wneud gweithio partneriaeth ar lefel leol yn llawer haws.[111]

Fe ellir, ac fe ddylid mwyafu'r synergedd rhwng buddiannau Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae llwyddiannus a nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, o bosibl trwy ganllawiau diamwys ar gyfer cynlluniau llesiant. Mae nifer o nodau a dangosyddion llesiant y ddeddf yn cyd-daro gyda'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyfiawnder gofodol ar gyfer plant, yn cynnwys Cymru sy'n iachach, mwy cyfartal, â chymunedau cydlynus, a diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Er enghraifft, byddai gwneud cymdogaethau'n fwy cyfeillgar at blant trwy leihau trwch traffig, allyriadau traffig a'r gofod y mae ceir yn ei gymryd yn cefnogi llawer o'r nodau llesiant yn ogystal â chyfiawnder gofodol ar gyfer plant. Er y gellid cymryd bod plant wedi'u cynnwys yn y dangosyddion sy'n ymwneud â chymunedau diogel a chydlynus, mae cyrff cyhoeddus yn annhebygol o feddwl am berthnasau gwahanol iawn plant gyda'u cymdogaethau oni bai y sonnir amdanynt yn benodol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ganolog i gyfiawnder gofodol ar gyfer plant. Mae'r prif nod o sicrhau lles trwy greu lleoedd yn arddangos awydd i symud y tu hwnt i agweddau fformwläig a thechnegol tuag at gynllunio ar gyfer chwarae. Mae awdurdodau lleol wedi adrodd yn ôl bod canllawiau Meysydd Chwarae Cymru (FiT Cymru) yn ddefnyddiol o ran cynllunio ar gyfer mannau chwarae dynodedig sydd ag offer. Mae FiT Cymru wedi cyhoeddi arweiniad diweddarach sy'n ehangu ar hyn ac sy'n cydnabod hefyd rôl gofod agored anffurfiol ar gyfer chwarae plant.[112] Gall cynllunio ar gyfer hyn, ac ar gyfer rhyddid bob dydd plant (sy'n gysylltiedig â chynlluniau teithio llesol) sicrhau agwedd ehangach tuag at gyfiawnder gofodol i blant.

Ble fo canllawiau'n cyfeirio at 'ddarpariaeth chwarae' neu 'gyfleoedd chwarae' bydd newid yr iaith i 'gyfleoedd i chwarae' yn helpu i ail-fframio disgwyliadau. Mae digonolrwydd chwarae'n ymwneud ag ystyried trwch y cyfleoedd i chwarae yn hytrach na dim ond yr hyn gaiff ei ddarparu gan oedolion.

Yn ei gyngor ymarferol ar blant a chynllunio trefol,[113] mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yn argymell y dylid cynnwys polisïau cyfeillgar at blant yn eglur mewn cynlluniau lleol a chenedlaethol. Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi ei chynnwys yn rhestr PCC o ddeddfau perthnasol i gofio eu hystyried. Mae Pennod 4 (llesiant a chreu lleoedd actif a chymdeithasol) yn hynod o berthnasol, gan gynnwys adrannau ar strydoedd actif a chymdeithasol, trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Mae plant hŷn wedi adrodd eu bod, yn benodol, yn gwerthfawrogi'r gofodau ble gallant chwarae a chwrdd â ffrindiau ond eu bod eisiau mwy ohonynt, a'u bod hefyd eisiau isadeiledd trafnidiaeth fydd yn caniatáu iddynt gyrraedd mannau'n ddiogel (gweler y paragraff teithio llesol isod).[114] Dylai gwarchod caeau chwarae a mannau agored rhag cael eu datblygu, fel yr amlinellir yn *Polisi Cynllunio Cymru* Rhifyn 11, gael ei adlewyrchu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Unwaith eto, mae synergeddau a chyd-fuddiannau i gysylltiadau nes ar bob lefel o gynlluniau ddatblygu (yn lleol, strategol a chenedlaethol), a chyfleoedd i gynnwys y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a hawl cyffredinol plant i chwarae mewn offerynnau ategol eraill, megis y Nodiadau Cyngor Technegol (TANs). Mae rhifyn 2020 o'r 'Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu' yn rhestru nifer o asesiadau effaith y gellir eu hintegreiddio wrth ystyried llunio cynlluniau datblygu. Dylai hyn gynnwys CRIA, y gellid ei gynnal hefyd ar gynlluniau am ddatblygiadau newydd. Dylai'r CRIA gynnwys plant mewn gwahanol amgylchiadau, fel y trafodwyd uchod. Yn ogystal, dylid ymdrechu i gynnwys plant a phobl ifanc yn natblygiad Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi adnodd a thempled ar gyfer canllawiau cynllunio atodol ar *Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach*, sydd wedi'i anelu at gefnogi awdurdodau cynllunio yn eu CDLl. Mae'r ddogfen hon yn sôn yn benodol am gymdogaethau cyfeillgar at blant all gefnogi chwarae, o ran ardaloedd chwarae penodol, strydoedd sy'n ddiogel ac y gellir chwarae arnynt, a llwybrau teithio llesol, diogel. Ar lefel leol, mae angen annog awdurdodau lleol i ddefnyddio hwn.

Yn ogystal, mae cysylltiadau agos rhwng y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cyfiawnder gofodol a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r cyfarwyddyd[115] yn cydnabod bod llwybrau sy'n addas ar gyfer cerdded yn addas hefyd ar gyfer chwarae, ac y gall llwybrau deniadol gynnwys mannau chwarae ffurfiol neu anffurfiol neu seilwaith gwyrdd. Mae'r canllawiau cyllido'n cyfeirio at y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o ran ceisiadau gaiff eu llunio gan bolisïau a strategaethau eraill. Dylid annog gweithio partneriaeth agos er mwyn gwneud y gorau o adnoddau sydd ar gael i gefnogi rhyddid bob dydd plant, fel y mae ambell awdurdod lleol yn ei wneud eisoes.[116] Mae'r canllawiau'n cynnwys egwyddor y dylai rhwydweithiau teithio llesol "ddarparu ar gyfer plant i deithio'n annibynnol, fel cerddwyr neu feicwyr …, o'r oed y byddant yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd". Fel uchelgais tymor hir, byddai gostwng yr oedran yma i wyth oed yn cefnogi symudedd annibynnol plant.

Mae effaith y car ar chwarae plant mor sylweddol fel bod angen annog a chefnogi datrysiadau priffyrdd cymunedol dyfeisgar a chreadigol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac annog datrysiadau cadarnhaol i broblemau lleol. Mae'n bosibl mai mabwysiadu terfyn cyflymder o 20mya ym mhob ardal breswyl ac adeiledig gaiff yr effaith mwyaf pellgyrhaeddol a chadarnhaol.[117] Yn 2022, cymeradwyodd Senedd Cymru ddeddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd preswyl a strydoedd cerddwyr prysur. Caiff hyn ei gyflwyno'n genedlaethol, fesul cam, o fis Medi 2023.

Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno'r terfyn cyflymder hwn. Bydd hyn yn lleihau'r nifer o farwolaethau ar y ffyrdd a hefyd yn cael effaith positif ar les ac ar yr amgylchedd.

Mae'r egwyddor sylfaenol o greu lleoedd trwy les mewn polisïau cynllunio'n cefnogi cyfiawnder gofodol i blant yn gryf, a dylid ymdrechu i gefnogi awdurdodau lleol (ac, ble fo'n berthnasol, Gynghorau Tref a Chymuned) i ddod â chynllunwyr a staff digonolrwydd chwarae at ei gilydd. Dylid annog ymgysylltu â'r egwyddorion a'r cyfarwyddyd yn y polisïau hyn ar lefel leol yn ogystal â lefel genedlaethol.

## Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19

'Does dim dwywaith bod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig wedi cael effaith sylweddol ar blant, ond digwyddodd hyn yn wahanol iawn i wahanol blant. I'r plant, roedd methu gweld ffrindiau neu fynd i'r ddarpariaeth chwarae'n anodd.[118] Cafodd mynediad plant i'r awyr agored ei gyfyngu yn ddifrifol, gan danlinellu a dwysáu anghydraddoldebau oedd yn bodoli eisoes: i rai plant roedd treulio

mwy o amser gartref gyda'u teulu yn braf, i eraill fe gynyddodd straen a chaledi. Dangosodd gwaith ymchwil bod plant Duon a phlant o liw yng Nghymru wedi'u heffeithio'n anghymesur gan gyfyngiadau'r cyfnodau clo.[119] Mae pobl sy'n byw mewn fflatiau neu lety dros dro yn llawer llai tebygol o fod â mynediad i ofod preifat y tu allan, a chafwyd adroddiadau am blant yn derbyn rhybuddiad gan yr heddlu am chwarae'r tu allan. Er bod llawer llai o draffig (ac, o ganlyniad, llai o lygredd) bu hefyd gynnydd mewn traffig yn goryrru wnaeth olygu, er bod strydoedd yn dawelach, 'doedden nhw ddim o reidrwydd yn fwy diogel. Yn ogystal, fe wnaeth ansicrwydd rhieni ynghylch yr hyn oedd yn cael ei ganiatáu, neu ddim, effeithio ar allu plant i chwarae'r tu allan. Gwelodd rhai strydoedd fwy o blant yn chwarae'r tu allan, ond eraill lai.[120]

Gwyddom fod y cyfyngiadau ar chwarae'r tu allan a chwarae gyda ffrindiau wedi cyfrannu at gynnydd mewn trafferthion iechyd meddwl a hefyd o ran colli ffitrwydd corfforol ac ennill pwysau ymhlith rhai plant, mewn ffyrdd oedd hefyd yn dwysáu anghydraddoldebau oedd yn bodoli eisoes.[121] Er bod plant sydd angen cefnogaeth ychwanegol, gall gweithwyr proffesiynol ddefnyddio agwedd fwy cadarnhaol sy'n seiliedig ar asedau a chydnabod y gall plant wneud llawer i gefnogi eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain os gallant gymryd rhan mewn chwarae a drefnir yn bersonol.[122] Mae hyn yn golygu bod creu amodau i blant chwarae hyd yn oed yn bwysicach ar gyfer ein hadferiad wedi'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn yn ei gyllid Haf o Hwyl ar gyfer awdurdodau lleol yn 2021/22 a dylai'r gydnabyddiaeth hon barhau.

Cyhoeddodd gwefan *Plentyndod Chwareus*, a reolir gan Chwarae Cymru, nifer o erthyglau ar gyfer rhieni a gofalwyr ar chwarae'n ystod y cyfnodau clo yn ogystal ag ar ymgyrch Haf o Hwyl, yn cynnwys e-lyfr o gemau a anfonwyd atynt gan blant ac a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad â Chomisiynydd Plant Cymru.

Mae'r pandemig wedi "cadarnhau'r angen am strydoedd wedi'u dylunio'n dda, ac sy'n gyfeillgar at bobl".[123] Yn ogystal, mae ffocws *Polisi Cynllunio Cymru* ar gyflawni lles trwy greu lleoedd yn golygu y byddai gweithio llawer agosach rhwng y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, y system gynllunio a pholisïau gofodol eraill yn waith buddiol i bawb tuag at adferiad.

## Argymhellion allweddol

**Argymhelliad allweddol 7: Sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi ei hymgorffori yn ddigonol mewn offerynnau a phenderfyniadau polisi strategol.**

**Argymhelliad allweddol 8: Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydnabod a'i deall trwy *Bolisi Cynllunio Cymru*.**

**Argymhelliad allweddol 9: Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu'r ffyrdd y mae cymdogaethau'n cael eu cynllunio a'u rheoli.**

# Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae

Yn ogystal â gweithio tuag at weld plant yn gallu chwarae a chymdeithasu yn eu cymdogaethau, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod gwerth darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio ym mywydau plant. Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn anelu i sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad i ddarpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio o safon yn eu cymunedau lleol. Gall gwaith chwarae ddigwydd mewn amrywiol leoliadau yn cynnwys darpariaeth mynediad agored, ysgolion, gofal plant a gwaith ieuenctid.

Mae gwaith chwarae'n cael ei ddiffinio yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*[124] fel "proffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae'n digwydd ble mae oedolion yn cefnogi chwarae plant ond nid yw'n cael ei yrru gan ganlyniadau addysg neu ofal rhagnodedig*".* Mae'r diffiniad hwn yn egluro'n gwbl groyw bod gweithwyr chwarae'n ymwneud yn bennaf â chefnogi a hwyluso chwarae plant.

Fel rhan o'r adolygiad, adroddodd plant eu bod angen "mannau i fynd iddynt sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus a diogel"[125] ac y gallai diffyg darpariaeth ar gyfer gwasanaethau chwarae, hamdden a gwaith ieuenctid effeithio'n negyddol ar les ac iechyd meddwl pobl ifanc.

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn[126] yn cydnabod y gall chwarae ddigwydd pan mae plant ar eu pen eu hunain neu gydag oedolion cefnogol. Mae darpariaeth gwaith chwarae mewn cymunedau lleol yn cynnig cyfleoedd i blant chwarae gyda'i gilydd, wedi'u cefnogi gan weithwyr chwarae deallus a medrus ac mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer gofal plant anffurfiol a ffurfiol ar gyfer rhieni. At hynny, mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn cydnabod y dylai cyfleoedd chwarae fod yn briodol i oedran y plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a'u bod yn derbyn mwy o ryddid, gall darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored peripatetig[127] alluogi plant i archwilio'r rhyddid hwn wedi'u cefnogi gan weithwyr chwarae medrus tra hefyd yn darparu cyswllt i wasanaethau eraill yn eu cymuned, megis gwaith ieuenctid a gweithgareddau hamdden eraill.

## Ble mae gwaith chwarae'n digwydd

Mae gweithwyr chwarae'n gweithredu mewn amrywiol leoliadau, sy'n rhannu elfennau tebyg o ran arfer a phrofiad y plentyn ond sy'n wahanol o ran eu modelau trosglwyddo.

Gofal plant y tu allan i oriau ysgol – mae hyn yn cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol llawn amser y plentyn ac mae'n cynnwys gofal a ddarperir cyn amser ysgol, ar ôl amser ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol[128]. Mae clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn galluogi rhieni a gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith neu i hyfforddiant a'r plant i fwynhau darpariaeth o safon gyda ffocws ar chwarae wedi'i staffio gan weithwyr chwarae cymwysedig[129]. Fel arfer caiff gofal plant y tu allan i oriau ysgol ei gynnal mewn ysgolion neu adeiladau cymunedol er mwyn ymateb i anghenion lleol.

Gwaith chwarae mynediad agored – gall fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, wedi'i lleoli mewn amrywiol leoliadau gyda neu heb adeilad a gall gynnwys gynlluniau chwarae gwyliau. Fel arfer, bydd y ddarpariaeth hon yn darparu ar gyfer ystod oedran eang, fel arfer yn blant pump oed a throsodd. Y diben yw darparu cyfleoedd chwarae wedi'u staffio ar gyfer plant, fel arfer yn absenoldeb eu rhieni. Ni chyfyngir ar symudiadau'r plant, heblaw pan fo'n ymwneud â materion diogelwch ac ni chânt eu hatal rhag mynd a dod fel y mynnant.[130] Mae gwaith chwarae mynediad agored yn ddi-dâl yn y man mynediad ac, o ganlyniad, mae'n tueddu i ddibynnu ar ariannu. Gellir cynnal gwaith chwarae mynediad agored ar feysydd chwarae antur wedi'u staffio, parciau ac adeiladau cymunedol neu fod yn beripatetig mewn natur, megis cynlluniau rhodwyr chwarae. Nid

oes gan ddarpariaeth beripatetig leoliad sefydlog ac mae'n tueddu i weithredu mewn mannau agored cymunedol ble mae plant yn gallu chwarae.

Cynlluniau chwarae gwyliau – caiff y rhain eu creu'n benodol er mwyn darparu cyfleoedd i chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol. Gallant weithredu fel gwaith chwarae mynediad agored neu ofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn dibynnu ar eu model trosglwyddo dewisedig.

Lleoliadau gwaith chwarae amhenodedig – yn ogystal â'r lleoliadau gwaith chwarae uchod, gall gweithwyr chwarae weithredu hefyd mewn ystod amrywiol o leoliadau ble nad yw gwaith chwarae yn brif ddiben. Gallai'r rhain gynnwys: ysbytai, ysgolion, llochesi, gwasanaethau gwaith ieuenctid ac ystafelloedd chwarae mewn carchardai.

Ar draws yr ystod gyflawn o leoliadau gwaith chwarae a amlinellir uchod, mae rheolaeth a statws cyfreithiol y sefydliadau'n amrywio. Mae awdurdodau lleol, mudiadau trydydd sector a busnesau preifat i gyd yn cynnig darpariaeth gwaith chwarae ac mae hyn yn dibynnu ar yr hanes a'r isadeiledd yn lleol. Byddai adolygu ac atgyfnerthu'r diffiniadau uchod i adlewyrchu arfer cyfredol yn cefnogi gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n ffurfio darpariaeth gwaith chwarae.

Nid oes angen i rai lleoliadau gwaith chwarae gael eu rheoleiddio gan AGC os ydynt wedi'u heithrio o dan Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)[131] (gweler yr adran nesaf am fwy o fanylion). At ddiben yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae statudol, caiff darpariaeth gwaith chwarae a reoleiddir ac sy'n anrheoleiddedig eu hasesu. Fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, mae'r rheoliadau'n datgan y dylid asesu gwaith chwarae mynediad agored a gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Mae'r ddau asesiad statudol hwn yn cefnogi cynllunio cynaliadwy darpariaeth ar lefel leol.

## Diogelu

Mae rhaid i leoliadau sy'n gweithredu am dros ddwy awr ac am fwy na chwe diwrnod y flwyddyn, yn cynnwys lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored a chlybiau y tu allan i oriau ysgol, gael eu cofrestru gydag AGC o dan ran 2 o Orchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Diwygio) 2016. Mae cofrestru'n golygu bod rhaid i wasanaethau gwaith chwarae mynediad agored a chlybiau y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant hyd at 12 mlwydd oed gydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd). Fodd bynnag mae hyn yn gadael llawer o ddarpariaeth y gellid ei labelu fel gofal plant neu waith chwarae sydd heb unrhyw oruchwyliaeth gan gorff rheoleiddio.

Trwy'r adolygiad hwn, bu'n amlwg iawn bod rhanddeiliaid yn teimlo mai un o brif ddibenion rheoleiddio ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae yw sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cyflawni ac y cydymffurfir â gofynion diogelu, yn cynnwys bod â staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol. Derbyniodd hyn gefnogaeth gref yn ystod yr adolygiad gan blant sydd wedi datgan y dylai pob lleoliad ddilyn côd ymddygiad a bod yn gyfrifol am ddiogelu trwy fynychu hyfforddiant priodol a chael eu cofrestru gyda chyrff fel AGC[132].

Er mwyn cefnogi trefniadau diogelu mewn darpariaeth anrheoleiddiedig megis grwpiau chwaraeon a chelfyddydau, grwpiau ffydd, grwpiau lifrog, clybiau ieuenctid a gweithgareddau, darpariaeth addysgu a darpariaeth gwaith chwarae heb ei gofrestru, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu *Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: côd ymarfer diogelu*[133]. Bwriedir i'r côd ymarfer gwirfoddol hwn gefnogi darparwyr gwasanaethau i arddangos eu bod yn cymryd camau priodol i sicrhau diogelwch plant (ac oedolion) ac mae'n gam cadarnhaol tuag at gefnogi ymarfer diogelu. Rhan o gyflwyniad y côd ymddygiad yw cynyddu ymwybyddiaeth ymysg rhieni, plant a phobl ifanc am yr

angen i unrhyw wasanaethau y maent yn cael mynediad iddynt feddu ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu. Tra bo dal eithriadau i gofrestru ar gyfer darparwyr gwaith chwarae, mae'r côd ymddygiad yn offeryn pwysig i gefnogi ymarfer diogelu cadarn. Nid oes gan y côd ymddygiad, fel y deëllir ar hyn o bryd, unrhyw gapasiti goruchwyliaeth gan gorff rheoleiddio.

## Rheoleiddio a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Yn ymarferol, mae cofrestru'n golygu bod rhaid i leoliadau gwaith chwarae dalu sylw i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC)[134] ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed. Ymysg gofynion eraill, mae'r SGC yn amlinellu'r lefel o hyfforddiant a chymwysterau[135] sy'n ofynnol ar gyfer staff sy'n gweithio yn y lleoliad gwaith chwarae yn ogystal â'r cymarebau staff i blant angenrheidiol.

**Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir**

Mae darpariaeth gofal plant cofrestredig ar gyfer plant hyd at 12 oed yn cael ei rheoli gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC). Maent yn cwmpasu ystod eang o wahanol fathau o ddarpariaeth, yn cynnwys gwarchodwyr plant, gofal dydd, gofal plant y tu allan i oriau ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored. Mae'r SGC wedi'u dylunio i helpu darparwyr a lleoliadau i gyflawni'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal plant cofrestredig. Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n rheoleiddio ac arolygu darpariaeth gofal plant ar ran Llywodraeth Cymru yn unol â rheoliadau, y SGC a'u fframwaith arolygu eu hunain.

Defnyddir y safonau i benderfynu os yw lleoliadau gwarchod plant a gofal dydd yn darparu gofal digonol ar gyfer plant hyd at 12 oed. Maent yn cwmpasu ystod eang o faterion yn cynnwys ansawdd y gofal, staffio, ymddygiad a rheoli'r gwasanaethau, a'r amgylchedd ffisegol.

I ddarparwyr gwaith chwarae, gall cofrestru helpu i wella'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig trwy dderbyn adborth gan y rheoleiddiwr. Fodd bynnag, mae ambell ddarparwr wedi siarad hefyd am ba mor drwm y maent yn teimlo mae'r broses rheoleiddio ac arolygu. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi achosi i ddarpariaeth gau, gohirio cofrestru neu benderfynu'n erbyn cofrestru gydag AGC yn gyfan gwbl.

Mae angen i ddarparwyr gofrestru er mwyn galluogi rhieni i gael mynediad i gymorth gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth, megis Cynnig Gofal Plant Cymru, Gofal Plant Di-dreth ac elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol. Gall rhieni dynnu ar gymorth ariannol Llywodraeth y DU a gynigir dan y cynlluniau hyn i dalu am eu gofal plant cofrestredig. Yn bwysig iawn, mae cofrestru hefyd yn cynnig sicrwydd i rieni am ddiogelwch y ddarpariaeth gwaith chwarae a gynigir a ffocws ar ganlyniadau o safon ar gyfer plant.

Adolygwyd y SGC gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn 2019[136]. Fe wnaeth yr adolygiad gynnwys dadansoddi'r berthynas rhwng Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016 a'r SGC, ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ar draws y sector gofal plant a gwaith chwarae ac archwiliad o'r agweddau a fabwysiedir gan weinyddiaethau eraill y DU i asesu safon y ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae. Yn ogystal, fe ystyriodd yr adolygiad y berthynas rhwng Fframwaith Arolygu AGC a'r cynlluniau ansawdd a weithredir gan awdurdodau lleol unigol a'r sefydliadau gofal plant a gwaith chwarae. Cododd nifer o faterion allweddol o'r adolygiad. Mae'r rhain yn amrywio o newidiadau posibl i safonau penodol i ystyried yr agenda ansawdd a rheoleiddiol ehangach a'u perthnasau

gyda'r sector gofal plant a gwaith chwarae. Mae nifer o argymhellion o'r adolygiad o'r SGC yn berthnasol i'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae:

- "Ystyried cynnwys arolygu a rheoleiddio lleoliadau gwaith chwarae yn yr Adolygiad Chwarae ehangach;
- Ystyried datblygu dull mwy cymesur o reoleiddio ac archwilio mewn perthynas â mathau penodol o ddarpariaeth, er enghraifft darpariaeth chwarae mynediad agored neu ddarpariaeth dymhorol. Rheoleiddio i adlewyrchu natur ac amgylchiadau penodol y lleoliad, gan gynnwys staffio, cyd-destun cymunedol, natur yr amgylchedd ac oedran a gallu'r plant;
- Ystyried gofynion cofrestru ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae fel rhan o'r Adolygiad Chwarae ehangach;
- Cymwysterau gwaith chwarae i gael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad Chwarae ehangach."

Trafodir y tri cyntaf o'r argymhellion hyn yn yr adran hon tra bo'r argymhelliad olaf yn cael ei gario trosodd i Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau.

Datblygwyd y SGC gyntaf yn 2002 fel cyfresi unigol o safonau oedd yn gwahaniaethu rhwng gofal dydd llawn, gwarchod plant, gofal dydd sesiynol, gwaith chwarae mynediad agored a gofal plant y tu allan i oriau ysgol. Ers 2011 cafwyd cyfres unigol o SGC ar gyfer pob lleoliad gofal plant a'r adborth o'r adolygiad hwn yw bod rhai o'r safonau ddim yn hawdd i'w cymhwyso i leoliadau gwaith chwarae, yn enwedig rai sy'n gweithredu'r tu allan yn bennaf, er enghraifft mewn parciau cyhoeddus neu feysydd chwarae antur wedi'u staffio. Mae rhai safonau'n cyfeirio'n benodol at waith chwarae mynediad agored a rhai sydd ddim yn berthnasol. Mae rhai o'r rhanddeiliaid yn yr adolygiad hwn yn credu y byddai dychwelyd at gyfres benodedig o SGC gwaith chwarae ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored yn fuddiol i'r sector, ac yn cyfrannu at ail-fframio'r broses arolygu i sicrhau ei bod yn addas i'r diben. Roedd eraill yn teimlo y byddai atodiadau sy'n mynegi'n fwy croyw rai o'r gwahaniaethau ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored a gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn cefnogi'r broses reoleiddio ac arolygu.

Tua diwedd cyfnod paratoi adroddiad *Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae*, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar rai o'r safonau sydd wedi'u cynnwys yn y SGC ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Bydd ymatebion y sector gwaith chwarae'n helpu i bennu'r cyd-destun ar gyfer ystyriaeth bellach o'r drefn reoleiddiol a'r SGC ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.

## Heriau i fynd i'r afael â hwy ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwaith chwarae

Mae'r model presennol o reoleiddio ac arolygu'n creu rhywfaint o heriau ar gyfer y gwahanol fathau o leoliadau gwaith chwarae a amlinellir uchod. Mae nifer o'r materion hyn wedi'u trafod ers cryn amser ac, yn wir, wedi bod yn destun adolygiadau eraill yn cynnwys Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (2019)[137]. O ran lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored, bu dirywiad sylweddol mewn cofrestriadau dros y deng mlynedd diwethaf, y gellir olrhain llawer ohonynt yn uniongyrchol i'r heriau a amlinellir isod. Pan gyflwynwyd y drefn reoleiddiol bresennol yn 2004 roedd 388 o leoliadau mynediad agored cofrestredig, erbyn 2009 roedd 77 ac ym mis Mawrth 2020, roedd 41. Ym mis Awst 2022, roedd 16 lleoliad mynediad agored wedi'u rhestru ar wefan AGC. Dyma'r unig wasanaeth chwarae a gofal plant a effeithiwyd fel hyn, gan fod y lleill i gyd yn arddangos lefel cymharol gyson o gofrestriadau. Nid yw'r ffigyrau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu gostyngiad mewn darpariaeth ar lawr gwlad ond mae angen eu dadansoddi o ran pam fod lleoliadau ddim yn dal i gofrestru. Dynodwyd angen hefyd i adolygu arferion a throsglwyddiad patrwm arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â sut y mae lleoliadau gwaith chwarae'n gweithredu ar

hyn o bryd. Nod hyn fyddai i wella ei addasrwydd at ddiben yn unol â'r rheoliadau cyfredol a galluogi mwy o leoliadau i gofrestru.

**Gorchymyn Eithriadau** – Mae nifer o eithriadau all ryddhau cyfran sylweddol o leoliadau sy'n darparu gwasanaethau rhag cael eu rheoleiddio. Roedd hyn yn destun pryder penodol i'r grŵp llywio, yn enwedig gan nad yw llawer o rieni'n ymwybodol nad oes rhaid i bob darpariaeth gofal plant, gwaith chwarae a hamdden ar gyfer plant gael eu goruchwylio gan gorff rheoleiddiol. At hynny, *nid oes modd* i leoliadau gwaith chwarae mynediad agored a chlybiau y tu allan i oriau ysgol gofrestru gydag AGC os ydynt wedi'u heithrio dan y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd). Nid oes system ar gyfer cofrestru gwirfoddol.

Er mwyn i'r gorchymyn eithriadau fod yn gymwys, mae rhaid i'r lleoliad weithredu am lai na dwy awr y dydd am lai na chwe diwrnod y flwyddyn neu gynnig hyfforddiant a dysg ar ffurf grŵp celfyddydol, grŵp chwaraeon, grŵp ffydd neu grŵp diwylliannol. Mewn lleoliadau o'r fath, mae'r eithriadau hyn yn gymwys oherwydd bod y gofal a ddarperir yn cael ei ystyried yn eilbeth.

Yn 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru 'alwad am dystiolaeth'[138], ar y Gorchymyn Eithriadau. Mynegodd y mwyafrif o'r rheini a gyflwynodd sylwadau'n ystod yr alwad am dystiolaeth eu pryderon bod yr eithriad hwn yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr i osgoi cofrestru i ddarparu gofal plant. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn bryderus bod elfennau diogelu plant yn gysylltiedig â'r Gorchymyn Eithriadau hwn gan ei fod yn cael ei gamddefnyddio i alluogi i ofal plant anrheoleiddiedig ddigwydd. Ni ddigwyddodd ymgynghoriad arfaethedig ar y Gorchymyn Eithriadau yn 2020 oherwydd y pandemig. At hynny, nid oedd adolygu'r eithriad dwy awr yn rhan o'u cylch gorchwyl, dim ond yr eithriadau hyfforddiant a dysg. Roedd aelodau'r grŵp llywio'n teimlo y dylid cynnal adolygiad o'r materion hyn fel mater o gryn frys er mwyn hysbysu newidiadau i ddeddfwriaeth y Gorchymyn Eithriadau.

Amlygwyd pryderon hefyd fel rhan o'r adolygiad hwn, bod dehongliad yr eithriadau hyn wedi llacio fwyfwy, sydd wedi arwain at gynnydd mewn darpariaeth anrheoleiddiedig.

**Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)**

Mae'r eithriadau canlynol yn benodol o berthnasol i leoliadau gwaith chwarae a chanfyddiadau'r Adolygiad Gweinidogol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae:

Nid yw person yn darparu gofal dydd pan ddarperir y gofal gan y person hwnnw yn y fangre dan sylw ar lai na chwe diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr.

Nid yw person yn gweithredu fel darparwr gofal dydd os nad yw'r cyfnod, neu gyfanswm y cyfnodau, yn ystod unrhyw un diwrnod pan fo'r plant yn cael eu gwarchod yn y lleoliad, yn fwy na dwy awr.

Nid yw person yn darparu gofal dydd pan fo'n hyfforddi neu'n dysgu mewn gweithgaredd o fath a restrir ym mharagraff (3) ac mae unrhyw ofal a ddarperir yn achlysurol mewn cysylltiad â'r hyfforddiant neu'r dysgu hwnnw.

(2) Nid yw'r eithriad yn yr erthygl hon yn gymwys –

a) os yw'r plant islaw pump oed ac yn bresennol am fwy na phedair awr y dydd; neu,

b) os yw'r person yn cynnig hyfforddiant neu ddysg mewn mwy na dau o'r mathau o weithgaredd a restrir ym mharagraff (3).

(3) Y mathau o weithgaredd yw –

(a) chwaraeon;

(b) celfyddydau perfformio;

(c) celfyddydau a chrefftau;

(ch) cymorth ar gyfer astudiaethau ysgol neu waith cartref;

(d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.

**Yr eithriad dwy awr** – Yn hanesyddol, mae'n aneglur pam y dewiswyd dwy awr neu chwe diwrnod fel trothwy is ar gyfer y rheoliadau. Ar hyn o bryd, ni ellir cofrestru lleoliadau gwaith chwarae gydag AGC os ydynt yn rhedeg am lai na dwy awr. I gynlluniau chwarae gwyliau a gwaith chwarae mynediad agored peripatetig, weithiau mae dwy awr yn fodel trosglwyddo dymunol. Yn y cyfamser, gall rhai lleoliadau sy'n cael trafferth cyflawni gofynion y SGC ddewis rhedeg am lai na dwy awr er mwyn osgoi cael eu rheoleiddio. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddileu'r eithriad dwy awr yn 2016. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn o blaid y newid. Fodd bynnag, ystyriwyd bod yr argymhelliad yn un anghymesur, gyda goblygiadau cost o ran cynlluniau treth a budd-daliadau'r DU ar gyfer darpariaeth gofrestredig ac, yn y pen draw, ni chafodd ei dderbyn. Dywedodd plant wrthym, fel rhan o'r adolygiad hwn, y dylai pob darpariaeth gwaith chwarae gael ei gofrestru gyda'r AGC[139]. Mae'n amserol ystyried unwaith eto oblygiadau'r eithriad hwn a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn enwedig gan fod y plant wedi pwysleisio hwn fel pryder.

**Yr eithriad hyfforddi neu ddysgu**[140] – Mae'r eithriad hyfforddi neu ddysgu plant rhag cofrestru'n golygu bod grwpiau sy'n darparu gweithgareddau penodol i blant yn gallu cynnal sesiynau hirach heb lynu at y SGC. Bwriad gwreiddiol yr eithriad hwn oedd sicrhau nad oedd gweithgareddau oedd yn canolbwyntio ar hyfforddi, ac felly'n ymwneud mwy â dysg, yn cael eu maglu gan ddeddfau sy'n llywodraethu gofal plant oherwydd ei fod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod gofal yn eilbeth i'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, dros amser mae'r diben hwn wedi ei lastwreiddio. Mae nifer o grwpiau

o’r fath sydd bellach yn rhedeg yn ystod gwyliau’r ysgol yn canolbwyntio’n aml ar weithgareddau diwylliannol neu chwaraeon yn fwy cyffredinol (yn cynnwys trosglwyddo trwy gyfrwng y Gymraeg). Tra bo rhai cynlluniau o’r fath yn cael eu goruchwylio gan gorff ambarél nid yw hyn yr un lefel o oruchwyliaeth gyfreithiol a ddarperir gan AGC.

Mynegodd aelodau’r Grŵp Llywio bryderon hefyd bod gan yr eithriad hwn y potensial i ddylanwadu’n negyddol ar y farchnad ar gyfer darparwyr gofal plant cofrestredig pan fydd rhieni’n defnyddio clybiau chwaraeon neu gelfyddydau fel gofal plant. Byddai Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yn cynnig golwg mwy eglur o faint y broblem hon.

Mae’r eithriad yn datgan bod unrhyw ofal a ddarperir i blant yn ystod y sesiynau hyfforddi neu ddysgu yn eilbeth i ddarpariaeth yr hyfforddiant neu ddysg hwnnw. Fodd bynnag, os yw plant yn mynychu lleoliad am gyfnod estynedig o amser mae’n anodd dadlau bod gofal – neu ddiogelu – yn eilbeth. Gall plant sy’n mynychu’r lleoliadau hyn fod mor ifanc â phum mlwydd oed ac yn dal angen gofal sylweddol. Mae pryder cydnabyddedig ynghylch y diffyg dealltwriaeth gan rieni a gofalwyr ynghylch y gwahaniaeth rhwng darpariaeth gofrestredig a darpariaeth heb ei chofrestru a’r lefel o ofal a diogelu a ddarperir, yn enwedig pan mae darpariaeth anrheoleiddiedig o’r fath yn cael ei chymeradwyo neu ei rhedeg gan awdurdodau lleol neu ysgolion.

Fel rhan o’r adolygiad, mynegwyd pryderon hefyd bod ambell ddarpariaeth gwaith chwarae wedi newid ei diben i ymwneud mwy â chwaraeon neu gelf a chrefft er mwyn defnyddio’r gorchymyn eithriadau i osgoi cofrestru. Mae angen darlun llawer cliriach o effaith yr eithriad hwn ac eglurder hefyd i leoliadau am beth yn union a olygir wrth hyfforddi a dysgu. At hynny, mae angen gwell dealltwriaeth o drefniadau diogelu mewn lleoliadau gaiff eu cwmpasu gan y Gorchymyn Eithriadau.

**Cynlluniau chwarae gwyliau** – Mae’r adolygiad hwn wedi tanlinellu’r farn y dylai ffocws arolygu a rheoleiddio fod ar ddiogelu plant. I ambell ddarpariaeth dros y gwyliau sy’n rhedeg am gyn lleied â phythefnos y flwyddyn, mae’r amser a dreulir ar ymweliadau arolygu a hefyd amlder yr ymweliadau (bob tair blynedd) yr un fath â’r hyn ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae blwyddyn gron. Canlyniad hyn yw bod darpariaeth dros y gwyliau pythefnos o hyd, ar hyn o bryd, i bob diben, yn destun arolwg deuddydd o hyd bob chwe wythnos y mae’n agored. Mae angen rhoi ystyriaeth i wneud y broses arolygu’n fwy cymesur a chytbwys, gan adlewyrchu gwahanol natur y ddarpariaeth, tra’n galluogi’r arolygiaeth i sicrhau craffu manwl yng nghyd-destun diogelu ac addasrwydd staff.

**Grwpiau cymunedol** – Yn hanesyddol, mae darpariaeth wedi esblygu o anghenion y gymuned gyda Chynghorau Tref a Chymuned, grwpiau cymunedol neu hyd yn oed grwpiau bychan o rieni’n sefydlu darpariaeth gwaith chwarae lleol iawn. Mae adborth oddi wrth Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod yr adolygiad hwn yn awgrymu bod y baich canfyddedig o gofrestru gydag AGC yn y lle cyntaf wedi atal gweithredu cymunedol. Mae angen ystyried sut y gellid symleiddio’r broses gofrestru i hyrwyddo lleoliadau gwaith chwarae cymunedol tra’n cynnal y manylrwydd o ran diogelu ac addasrwydd staff.

**Safleoedd lluosog** – I sefydliadau sy’n cynnig darpariaeth gwaith chwarae o nifer o wahanol safleoedd, yn enwedig darpariaeth beripatetig, mae rhaid cofrestru pob safle unigol gydag AGC. Ar gyfer darparwyr gwaith chwarae mynediad agored, gallai hyn olygu cofrestru nifer fawr o barciau ac adeiladau cymunedol ar draws ardal er bod y tîm staff, yr ymarfer gwaith chwarae, y polisïau a’r rheolaeth yn aros yr un fath. Mae hyn yn anghymesur i’r darparwr ei hun ond hefyd i’r arolygiaeth, fydd yn gorfod cofrestru ac arolygu pob safle yn unigol. Mae’r her hon wedi bod yn rheswm mawr y tu ôl i’r ffaith nad yw gwaith chwarae mynediad agored sy’n cael ei redeg gan awdurdod lleol yn gallu cofrestru ac mae’n gwneud unrhyw ddarpariaeth beripatetig bron yn amhosibl i’w chofrestru. Mae’r un gofyn hwn yn gymwys hefyd i ofal plant y tu allan i oriau ysgol ble mae clybiau gwyliau’n

cael eu rhedeg weithiau o leoliadau niferus ar draws gwahanol safleoedd ysgolion neu adeiladau cymunedol. Er, yn yr achos hwn, adroddwyd bod system gofrestru ar-lein AGC wedi helpu i leihau'r her hon.

Tra bo hyn wedi'i godi fel mater o bwys yn yr adolygiad hwn ac yn y gorffennol, cydnabyddir y byddai newid cofrestru'r safle ei hun i'r darparwr yn galw am ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

**Cymesuredd** – Argymhellodd yr adolygiad o'r SGC yn 2019 y dylid ystyried agwedd gymesur tuag at arolygu a rheoleiddio. Nododd adborth o'r adolygiad y dylid defnyddio'r term 'cymesuredd' a bod angen ei ddiffinio'n gwbl eglur. Byddai'r gallu i gynnwys safleoedd lluosog dan un cofrestriad yn cefnogi agwedd fwy cymesur ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored yn benodol. Ar hyn o bryd, mae gan leoliadau gwaith chwarae, yn fynediad agored yn ogystal â gofal plant y tu allan i oriau ysgol, sydd ond yn gweithredu am ychydig wythnosau'r flwyddyn, yr un drefn arolygu â lleoliadau blwyddyn gron ac y byddant yn derbyn arolwg llawn bob tair blynedd. Dylai unrhyw gynnig i ddiwygio'r broses gofrestru ac arolygu ystyried ystod o ffactorau a sicrhau nad yw'n llacio disgwyliadau sy'n ymwneud â threfniadau diogelu, rheoli a staffio. Mae adborth gan ddarparwyr fel rhan o'r adolygiad hwn yn dynodi bod angen i agwedd gymesur gymryd i ystyriaeth: rhwyddineb cofrestru, amlder ymweliadau arolygu llawn, os oes eithriadau penodol yn y SGC ac os gellid symud i gynnal 'arolygon arbennig' yn bennaf unwaith eu bod wedi'u cofrestru. Fel arfer, bydd arolygon arbennig ond yn digwydd pan godir pryderon neu i ail-edrych ar feysydd i'w gwella a ddynodwyd mewn arolygon blaenorol. Mae'n bosibl y bydd yr arolygon hyn ond yn edrych ar rai agweddau o wasanaeth.

**Gwaith ieuenctid** – Cododd Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) (Diwygio) 2016[141] yr ystod oedran ar gyfer darpariaeth gofal plant a reoleiddir o 8 oed i 12 mlwydd oed. Tra bo gwaith ieuenctid statudol o 11 oed wedi'i eithrio rhag cael ei reoleiddio, mae llawer o ddarpariaeth gwaith ieuenctid iau a gwaith ieuenctid trosiannol ar gyfer plant dan 11 oed yn gweithredu yng Nghymru, yn enwedig yn y sector gwirfoddol. Mewn rhai achosion, bu gofyn i'r gwasanaethau hyn gofrestru gydag AGC. Fodd bynnag, nid oes cyfres glir o SGC i gwmpasu darpariaeth gwaith ieuenctid, nid yw cymwysterau gwaith ieuenctid yn gymwys ar gyfer lleoliadau cofrestredig a chaiff gweithwyr ieuenctid eu rheoleiddio gan gorff arall, sef Cyngor y Gweithlu Addysg. Fodd bynnag, mae cymwysterau trosiannol diweddar yn cynnwys y Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) a'r Dyfarniad mewn Trosi i Waith Chwarae (2021) diwygiedig, wedi'u dylunio i gefnogi gweithwyr ieuenctid i ennill cymwysterau gwaith chwarae ychwanegol ble fo angen.

## Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19

Arweiniodd y pandemig at leoliadau gwaith chwarae'n oedi eu gwasanaeth. I leoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol, mae llawer wedi'u heffeithio'n andwyol gan y newid mewn galw am ofal plant. I'r rheini sy'n cynnal darpariaeth gwaith chwarae ar safleoedd ysgol, mae'r newid mewn defnydd o adeiladau ysgol wedi golygu bod rhywfaint o waith chwarae wedi gallu ailgychwyn yn yr un modd.

Fe wnaeth gweithwyr chwarae adrodd eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi[142] ddigon ond cyflwynwyd hefyd enghreifftiau cadarnhaol o sut oeddent wedi parhau i gefnogi plant a theuluoedd[143]. Symudodd rhai darparwyr gwaith chwarae mynediad agored at drosglwyddo wedi ei dargedu'n well er mwyn cydymffurfio â chanllawiau ar 'swigod' ac mewn rhai achosion ni fu modd iddynt ailgychwyn darpariaeth o gwbl oherwydd nifer y plant oedd yn mynychu mewn mannau cyhoeddus. Mae angen i gynaladwyedd gwaith chwarae i'r dyfodol fod yn seiliedig ar anghenion esblygol y gwasanaethau hyn o ganlyniad i'r pandemig ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yw'r mecanweithiau mwyaf priodol er mwyn parhau i asesu hyn.

Ble yr addaswyd ysgolion i'w defnyddio fel hybiau gofal plant ceir enghreifftiau o rai rhannau o Gymru ble defnyddiwyd staff gwaith chwarae i gefnogi darpariaeth ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Bu hyn o fudd i ddatblygiad proffesiynol staff yr ysgol, gan eu cefnogi i ddeall yn well agweddau gwaith chwarae tuag at gefnogi chwarae plant.

Newidiodd AGC ei ddull o arolygu darpariaeth trwy lacio rhai agweddau o'r SGC dros dro[144]. Mae Cylchlythyr WG 009/2020 yn cynnwys crynodeb o'r camau llacio a rhai o'r cylchlythyrau blaenorol sy'n berthnasol i COVID-19. Efallai y gallai dysgu oddi wrth y newid hwn yn y modd y cafodd lleoliadau eu harolygu a'u rheoleiddio'n ystod y pandemig, gynnig cipolwg ar ddatrysiadau i rai o'r heriau i reoleiddio gwaith chwarae a fynegir yn yr adolygiad hwn.

## Argymhellion allweddol

**Argymhelliad allweddol 10: Sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae.**

**Argymhelliad allweddol 11: Adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy'n ymwneud â gwaith chwarae.**

# Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau

Mae Llywodraeth Cymru'n gosod gwerth mawr ar sicrhau bod y bobl hynny y mae eu gwaith yn effeithio ar chwarae plant yn meddu ar wybodaeth a sgiliau addas, a chymwysterau priodol. Mae'r *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*[145] 10 mlynedd o hyd, yn mynegi'r weledigaeth ar gyfer y sector. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dair thema allweddol: recriwtio, codi safonau a chynyddu sgiliau, a buddsoddi mewn cynyddu capasiti a gallu. Yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*[146] mae Llywodraeth Cymru'n mynnu y dylai awdurdodau lleol gefnogi datblygiad y gweithlu, gan gynnwys a hyfforddi gweithwyr proffesiynol eraill sydd yn y gweithlu plant, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned.

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn gwahaniaethu rhwng y gweithluoedd sydd ynghlwm â chefnogi chwarae plant. Mae'r gweithlu gwaith chwarae (oedolion sy'n hwyluso chwarae plant yn uniongyrchol) a'r gweithlu chwarae (pawb y mae eu gwaith yn effeithio ar blant) yn wahanol ac mae eu gofynion proffesiynol yn wahanol. Mae'r adolygiad hwn, tra'n canolbwyntio ar anghenion a gofynion y gweithlu gwaith chwarae, yn ystyried hefyd yr angen diddarfod am ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu chwarae ehangach. Daw'r diffiniadau isod o *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.[147]

**Y gweithlu gwaith chwarae**
Mae gwaith chwarae yn broffesiwn medrus iawn sy'n cyfoethogi ac yn gwella chwarae plant. Mae'n digwydd ble mae oedolion yn cefnogi a hwyluso chwarae plant ond nid canlyniadau rhagnodedig o ran addysg neu ofal yw symbyliad y chwarae hwnnw. Gall hyn gynnwys (ond nid dim ond) y bobl hynny sy'n gweithio mewn darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, neu ddarpariaeth ieuenctid.

**Y gweithlu chwarae**
Mae'n cynnwys unrhyw weithiwr cyflogedig y mae ei rôl yn effeithio ar chwarae plant – pobl sydd naill ai'n hwyluso'r chwarae'n uniongyrchol, yn cynllunio cyfleoedd chwarae, neu sydd â'r grym i ganiatáu i blant chwarae neu beidio. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn: llywodraeth leol a chenedlaethol, cynllunio gwlad a thref, priffyrdd, gofal iechyd a chymdeithasol, addysg, parciau a mannau agored, tai, datblygu cymunedol, a gwaith ieuenctid yn ogystal â phobl wedi'u hethol i swyddi yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[148] yn cydnabod y gall chwarae ddigwydd pan fydd plant ar eu pen eu hunain neu gydag oedolion cefnogol, gan eu bod yn ymwneud â'r plant trwy eu chwarae. Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn cydnabod hefyd "bod oedolion yn aml â diffyg hyder, sgiliau neu ddealltwriaeth i gefnogi chwarae plant ac i ryngweithio gyda nhw mewn ffordd chwareus".

## Lleoliadau gwaith chwarae

Gall darpariaeth gwaith chwarae ddigwydd mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Feysydd chwarae antur wedi'u staffio
- Gofal plant y tu allan i oriau ysgol
- Prosiectau chwarae rhiniog y drws a chymdogaeth (megis strydoedd chwarae)
- Canolfannau Plant Integredig
- Ysgolion
- Gwaith chwarae peripatetig (megis bysus chwarae a gwasanaethau rhodwyr chwarae)
- Cynlluniau chwarae gwyliau
- Canolfannau chwarae
- Ystafelloedd neu ardaloedd chwarae mewn ysbytai
- Gwasanaethau ieuenctid
- Ystafelloedd chwarae mewn carchardai.

Mae gan rai o'r proffesiynau hyn eu systemau cymwysterau eu hunain hefyd, megis gwaith ieuenctid, arbenigwyr chwarae mewn ysbytai ac ysgolion. Yn yr achos hwn, gall cymwysterau gwaith chwarae gefnogi a chyfoethogi ymarfer.

Mae Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae yn rhoi mwy o fanylion ar fathau o leoliadau gwaith chwarae.

## Rolau gwaith chwarae

Mae rôl y gweithiwr chwarae'n un hynod amrywiol, gyda ffocws ar greu mannau ble gall pob plentyn chwarae. Mae gweithwyr chwarae angen gallu cael mynediad i gymwysterau, cyfleoedd i hyfforddi a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sy'n eu galluogi i gynyddu sgiliau i gynllunio a hwyluso amgylcheddau ar gyfer chwarae a gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, yn ogystal ag ystod eang o feysydd gwaith eraill. Mae rhai o'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi gwaith digonolrwydd chwarae: amlygodd astudiaeth ymchwil 2020 pa mor bwysig fu gweithwyr chwarae yn hyn o beth:

> "Ni ellir pwysleisio ddigon ddylanwad gwaith chwarae ar a chyfraniad gweithwyr chwarae i ddatblygiad a gweithrediad y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn genedlaethol ac yn lleol. Sawl gwaith, mae'r bobl hynny sydd ag o leiaf gefndir gwaith chwarae os nad swyddogaeth gwaith chwarae, wedi bod yn anogwyr neu'n alluogwyr ar gyfer camau gweithredu, gan dynnu pobl ynghyd, datblygu cyd-ddoethineb, hwyluso a datblygu ymatebion i ymchwil gyda phlant, hyrwyddo gwerth Digonolrwydd Chwarae i adrannau a sefydliadau perthnasol ar lefel genedlaethol a lleol."[149]

Disgrifir y sgiliau sydd eu hangen ar weithwyr chwarae yn y tabl isod:[150]

**Beth mae gweithiwr chwarae'n ei wneud?**
**(*Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru*, cynllun datblygu gweithlu Chwarae Cymru, 2020)**

**Hwyluso chwarae plant –** mae gweithwyr chwarae'n sensitif i'w hymyriadau personol a sut y maent yn effeithio ar chwarae plant a gyfarwyddir yn bersonol. Mae gweithwyr chwarae'n cefnogi pob plentyn i greu mannau ble y gallant chwarae tra'n cydbwyso risgiau gyda budd datblygiadol a lles y plant.

**Gweithio gyda'r gymuned –** bydd gweithwyr chwarae'n mynd i'r afael â rhwystrau i chwarae yn y gymuned yn gyffredinol a bydd hyn yn golygu ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb yn neu sy'n effeithio ar y mannau ble bydd plant yn chwarae.

**Gweithio gyda rhieni** – mewn rhai achosion bydd gweithwyr chwarae'n cefnogi'r teulu ehangach yn ogystal â'r plentyn os oes trafferthion eraill o fewn y teulu. Hefyd, ble fo plant angen cymorth ychwanegol er mwyn cael eu cynnwys mewn sesiynau chwarae (fel plant anabl), bydd angen gweithio gyda'r teulu i ateb anghenion y plentyn.

**Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill** – oherwydd yr ystod o faterion a phroblemau y daw gweithwyr chwarae ar eu traws, mae'n bosibl y bydd angen i weithwyr chwarae gydweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, yn cynnwys: cymorth i deuluoedd, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol.

**Gweithio gydag ysgolion –** mae nifer o weithwyr chwarae'n ymestyn eu gwaith chwarae trwy weithio mewn ysgolion i gefnogi amserau chwarae, hyfforddi staff a darparu adnoddau chwarae.

**Casglu adnoddau** – bydd gweithwyr chwarae'n treulio amser yn ymweld â busnesau lleol a chreu perthnasau gyda'r rhain er mwyn sicrhau cyflenwad da o rannau rhydd i'r plant chwarae gyda nhw.

**Arfer myfyriol** – mae gwaith chwarae'n alwedigaeth sy'n dibynnu ar arfer myfyriol i wella ac addasu arfer ac fel math o DPP hefyd. Dylai gweithwyr chwarae dreulio peth o'u horiau gwaith yn cyflawni arfer myfyriol un ai'n unigol neu gyda gweddill y tîm.

**Ysgrifennu ceisiadau am gyllid** – gan nad oes ffynhonnell ariannu unigol ar gyfer gwaith chwarae, mae darpariaeth blwyddyn gron yn dueddol o dderbyn cyllid o nifer o wahanol gronfeydd ariannu llai o faint.

**Monitro a gwerthuso** – bydd nifer o gyllidwyr yn galw hefyd am adroddiadau monitro a gwerthuso niferus a hynny, o leiaf, bob chwarter – mae'n bosibl y bydd staff sydd ddim yn rheolwyr yn helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer y rhain.

## Cymwysterau gwaith chwarae a chyllid

Mae gwaith chwarae'n alwedigaeth ac mae gweithwyr chwarae'n hyfforddi i wneud eu swydd. Mae gwaith chwarae'n seiliedig ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae[151], y fframwaith proffesiynol a moesol ar gyfer gwaith chwarae a ddatblygwyd yn 2005 gyda chyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ac maent yn cael eu cydnabod ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygiad cymwysterau gwaith chwarae gyda chyllid Ewropeaidd. Arweiniodd hyn at ddatblygu'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae a redodd o 2007 i 2010 a chyllid i ddatblygu cyfres o gymwysterau gwaith chwarae. Mae Chwarae Cymru, gan weithio mewn partneriaeth gydag Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, wedi gweithio i gynnal deilliannau'r ganolfan genedlaethol.

Mae cymwysterau gwaith chwarae wedi'u datblygu'n unol â'r SGC[152] ar gyfer gwaith chwarae ac fe'u bwriedir ar gyfer pawb sy'n gweithio mewn rolau gwaith chwarae. Mae rhaid i bobl sy'n gweithio mewn lleoliadau a reoleiddir gan AGC, yn unol â Rhan 2 o Orchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Diwygio) 2016[153], dalu sylw dyledus i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gofal Plant a Reoleiddir (SGC), gafodd eu diweddaru yn 2016[154]. Mae'r SGC yn datgan bod cymwysterau ar gyfer gwaith chwarae wedi'u cynnwys yn *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*[155] PETC Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r sector gwaith chwarae yng Nghymru i ddatblygu dau gymhwyster newydd a ddyluniwyd i gefnogi pobl sy'n gweithio mewn darpariaeth cynlluniau chwarae gwyliau i gyflawni gofynion y SGC: Agored Cymru Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) ac Agored Cymru Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Chwarae Cymru, sydd wedi datblygu cyfres o gymwysterau gwaith chwarae o'r enw Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith ($P^3$). Bydd dysgwyr yn gymwys ar gyfer y cymwysterau hyn, a ariennir trwy'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, tan fis Mawrth 2023.

Trwy'r cynllun prentisiaeth bob oed a'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu cymwysterau gwaith chwarae Lefel 2 a Lefel 3 gan gyrff dyfarnu Cache a City and Guilds, i gefnogi pobl sy'n gweithio i ennill cymwysterau tra'n gweithio trwy ddysgu seiliedig ar waith. Tra bo'r model prentisiaethau'n rhaglen ariannu ddefnyddiol ar gyfer pobl sy'n gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos, mae adborth o'r adolygiad hwn ac o werthusiad o'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant wedi canfod nad yw'n addas ar gyfer rhai mewn cytundebau tymhorol, rhan-amser a chontract dim oriau. Mae'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant wedi ei diwygio er mwyn galluogi dysgwyr i gael mynediad hefyd i gymwysterau gwaith chwarae trwy lwybr addysg bellach (di-brentisiaeth).

Mae'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosi i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar hefyd wedi derbyn cyllid trwy'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant sy'n cefnogi'r rheini sy'n meddu ar gymwysterau blynyddoedd cynnar Lefel 3 eisoes i weithio mewn lleoliadau gwaith chwarae a reoleiddir. Adolygwyd y cymhwyster hwn yn 2021 a'i ehangu i gynnwys proffesiynau eraill sydd â chymwysterau Lefel 3 perthnasol megis gwaith ieuenctid, addysg a gofal. Dylid nodi nad oes cyfle pontio o waith chwarae i'r blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd ac y gallai cyfyngiad[156] cymwysterau blynyddoedd cynnar gan Gymwysterau Cymru wneud hyn yn heriol yn y tymor byr i ganolig.

Mae'r casgliad cyfan o gymwysterau sy'n gymwys i'w hariannu yng Nghymru wedi'u cynnwys yn *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*[157] PETC Cymru.

Mae'r sector gwaith chwarae'n wynebu heriau wrth gyflawni'r gofynion cymwysterau hyn. Mae rhai o'r materion penodol yn cynnwys:

- **Mynediad i hyfforddiant a ariennir** – Mae'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, a ariennir trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, wedi ymateb i lawer o bryderon y sector ynghylch cyllid ar gyfer cymwysterau gwaith chware. Fodd bynnag, daw'r cyllid hwn i ben ym mis Mawrth 2023 ac mae angen ystyried ariannu gofynion cymwysterau'r sector i'r dyfodol. Mae angen i amserlenni a dulliau caffael ar gyfer rhaglenni ariannu yn y dyfodol fod yn addas er mwyn sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad i hyfforddiant a chymwysterau pan maent eu hangen gan y darparwr hyfforddiant sy'n ateb eu hanghenion orau. Dylai cyllid ar gyfer gwaith chwarae yn y dyfodol alluogi llwybrau cynnydd sy'n seiliedig ar ddysgu yn y gwaith (prentisiaethau) yn ogystal â llwybrau cynnydd addysg bellach. Mae cyfyngiadau ar ariannu dysgu seiliedig ar waith ar gyfer uwchsgilio yn golygu nad yw'n bosibl, yn gyffredinol, i ddysgwyr gwblhau dau gymhwyster llawn ar yr un lefel (fel Lefel 3 gofal plant a Lefel 3 mewn gwaith chwarae) er y caiff hyn ei ystyried ar sail achosion unigol.
- **Argaeledd cyrsiau perthnasol** – Mae'n anodd i ambell weithiwr chwarae weithio digon o oriau i gyflawni elfennau ymarferol dysgu seiliedig ar waith i ennill cymwysterau gan fod gwaith chwarae, yn aml, yn dymhorol a rhan amser. Mae rhaid i bobl sydd am gwblhau prentisiaeth fod mewn cyflogaeth reolaidd am nifer penodol o oriau. Mae maint cymharol fychan y sector yn golygu hefyd bod ambell gwrs yn anymarferol oherwydd niferoedd isel.

- **Gofynion sectoraidd sy'n cystadlu â'i gilydd** – Mae rhaid i berson sy'n gweithio mewn lleoliad gwaith chwarae cofrestredig feddu ar gymhwyster gwaith chwarae. Fodd bynnag, yn ymarferol, yn dibynnu ar natur y lleoliad, gellid dadlau y byddai'n fwy pragmatig mewn rhai achosion i gwblhau cymhwyster gofal plant a chwrs trosi mewn gwaith chwarae, gan ddarparu casgliad mwy trosglwyddadwy o gymwysterau. Gallai hyn fod yn rhwystr hefyd i rywun benderfynu os ydynt am gwblhau (neu i benderfyniad cyflogwr i ariannu) cymhwyster gwaith chwarae llawn ai peidio. Mae'r cymwysterau trosi neu bontio hyn wedi'u datblygu i gefnogi gallu gweithwyr i symud ar draws y sectorau, ac maent yn llwybrau cynnydd dilys, ond ddylen nhw ddim effeithio'n andwyol ar y flaenoriaeth neu'r cyllid sydd ar gael i ddysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau gwaith chwarae llawn.
- **Tâl cymharol isel** – Efallai y bydd hyn yn atal pobl rhag buddsoddi amser ac arian yn y broses o gwblhau cymwysterau. Nid oes strwythur tâl a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer gwaith chwarae, felly mae graddfeydd tâl yn amrywio ar draws lleoliadau ac yn rhanbarthol.
- **Isadeiledd gwan o diwtoriaid galwedigaethol gymwys** – Ceir cronfa fechan o weithwyr proffesiynol galwedigaethol gymwys sy'n addysgu ac asesu gwaith chwarae ac sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio mewn lleoliadau gwaith chwarae ac sy'n deall gwaith chwarae'n llwyr.
- **Capasiti cyfrwng Cymraeg** – Mae diffyg tiwtoriaid cymwysedig, aseswyr a chyrff hyfforddi sy'n gallu cynnal cyrsiau cyfrwng Cymraeg. Mae'r isadeiledd hwn yn tyfu'n araf ond mae'n ymwneud hefyd â datblygiad gyrfaoedd ym maes gwaith chwarae: yn gyntaf rydym angen mwy o weithwyr chwarae dwyieithog i ddatblygu tiwtoriaid ac aseswyr dwyieithog, cymwys.
- **Trafferthion ar gyfer darpariaeth dymhorol** – Mae ambell ddarpariaeth dymhorol yn dibynnu ar recriwtio staff yn flynyddol. Daw hyn â'r heriau o roi hyfforddiant neu gymwysterau digonol i staff pan nad ydynt, efallai, yn chwilio am yrfaoedd tymor hir yn y sector. Mae angen sicrhau bod llwybrau cymwysterau'n adlewyrchu ymarfer cyfoes ar lawr gwlad er mwyn sicrhau y gall dysgwyr ennill y cymwysterau y maent eu hangen i weithio mewn lleoliadau a reoleiddir. Byddai hyn yn cefnogi lleoliadau i gael eu rheoleiddio'n unol â'r argymhellion yn adran diogelu Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae.
- **Gweithwyr portffolio** – Gan fod rolau mewn gwaith chwarae'n aml yn rhai rhan-amser, mae'n bosibl bod staff yn gweithio mewn rolau eraill hefyd ac angen cymwysterau eraill (fel y blynyddoedd cynnar, gwaith ieuenctid neu gymorth dysgu). Mae hyn yn golygu bod rhai gweithwyr chwarae'n meddu ar, neu angen, cymwysterau eraill hefyd a'u bod yn 'weithwyr portffolio'.
- **Cymhwysedd rheolwyr llinell** – Helpu rheolwyr llinell i ennill y wybodaeth a'r sgiliau priodol i gefnogi dysgwyr ar leoliad yn effeithlon.

Yn ystod haf / hydref 2021, gweithiodd Chwarae Cymru gyda Phrifysgol Abertawe i gynnal ymchwil gweithlu cynhwysfawr, gyda gweithwyr chwarae, ymarferwyr chwarae, arweinyddion digonolrwydd chwarae a mudiadau gwaith chwarae. Mae'r ymchwil yma'n darparu'r ddealltwriaeth ddiweddaraf o'r anghenion a'r heriau sy'n wynebu'r sector a chymorth gyda chynllunio i'r dyfodol ar gyfer trosglwyddo cymwysterau, cyllido a chyfleoedd DPP yn ogystal â recriwtio a chadw staff.

Mae nifer o bryderon yn cael eu mynegi gan gyflogwyr a dysgwyr hefyd am ansawdd trosglwyddo cymwysterau gwaith chwarae. Amlygwyd y rhain yn Adolygiad 2016 Cymwysterau Cymru o Gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol[158] yn cynnwys gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r pryderon yn cwmpasu ystod eang o feysydd ac yn cynnwys:

- cymhwysedd aseswyr a'u gwybodaeth sector-benodol
- effaith profion sgiliau hanfodol ar ddysgwyr
- anaddasrwydd prentisiaethau fel llwybr cynnydd ar gyfer pobl mewn rolau gwaith chwarae rhan-amser a thymhorol

- baich asesu trwm ar ddysgwyr
- angen i'r bobl hynny sy'n meddu ar gymwysterau gofal plant ar hyn o bryd i ddeall sut i gefnogi chwarae plant a ddewisir o wirfodd. Mae hyn wedi'i ddatrys yn rhannol gyda chyfranogiad clòs y sector yn natblygiad cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD), ond nid yw hyn yn disodli'r gofyniad rheoleiddiol am gymwysterau gwaith chwarae.

Yn gynnar yn adolygiad Cymwysterau Cymru, daeth yn amlwg nad yw cael dwy restr o gymwysterau ar gyfer gofal plant (Gofal Cymdeithasol Cymru) a gwaith chwarae (Skills Active yn y gorffennol a bellach PETC Cymru) o gymorth. Mewn ymateb i hyn, datblygodd Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) Siart Lif Cymwysterau Gwaith Chwarae[159] sy'n symleiddio dealltwriaeth o'r cysylltiadau a'r perthnasau rhwng gofynion cymwysterau gofal plant a gwaith chwarae.

Mae Cymwysterau Cymru'n cymeradwyo cymwysterau i'w hariannu a'u rheoleiddio yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod cymwysterau gwaith chwarae newydd yn ateb anghenion y sector yng Nghymru, byddai proses ffurfiol o ymgynghori gyda PETC Cymru yn atgyfnerthu'r broses gymeradwyo bresennol.

## Sicrhau ansawdd

Mae sicrhau ansawdd yn cefnogi lleoliadau i gyflawni safonau ansawdd cytûn, gweithredu i gynnal y safonau hyn a dynodi meysydd i'w gwella. O ran y gweithlu, mae sicrhau ansawdd yn cefnogi'r gweithlu i fyfyrio ar a gwella eu harfer sy'n cael effaith uniongyrchol ar sgiliau a gwybodaeth. At hynny, mae lleoliadau sy'n cyflawni safonau sicrhau ansawdd cydnabyddedig yn fwy abl i gefnogi eu staff i gwblhau cymwysterau trwy leoliadau o safon a chefnogi asesu ymarfer.

Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu Fframwaith Ansawdd ar gyfer Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC)[160], gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth gytûn o'r hyn mae plentyn ei angen yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd. Bydd y fframwaith yn darparu safon y gall darparwyr a staff fyfyrio'n ei herbyn er mwyn datblygu eu cynnig i blant yn barhaus. Bydd fframwaith ansawdd ECEC yn cysylltu gyda mentrau eraill y bwriedir iddynt sicrhau ansawdd ar draws y sector.

Yn 2001, cyhoeddodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf… fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* wnaeth baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Hwn oedd y fframwaith ansawdd cyntaf ar gyfer gwaith chwarae ac mae wedi'i ddefnyddio'n helaeth dros yr 20 mlynedd diwethaf a chyfeiriwyd ato mewn fersiynau blaenorol o'r SGC. Mae Chwarae Cymru bellach wedi datblygu, mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o'r sector a Llywodraeth Cymru, 'Chwarae o Safon' – fframwaith sicrhau ansawdd gwaith chwarae, sydd i'w lansio yn 2022. Bydd y fframwaith sicrhau ansawdd gwaith chwarae hwn yn cefnogi pawb sy'n defnyddio agwedd gwaith chwarae i ystyried y ffactorau seiliedig ar leoliad ac ymarfer sy'n cyfrannu at ddarpariaeth o safon ac sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn broses a ddefnyddir gan unigolion i wella eu perfformiad yn ymarferol trwy fynd ati i ddysgu trwy ystod eang o weithgareddau sy'n cynnal, datblygu, a chyfoethogi eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Gellir cyflawni DPP mewn nifer o ffyrdd. Gall rhaglen gynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd, seminarau a chynadleddau allweddol
- Astudio ar gyfer cyrsiau byrion neu gymwysterau mwy o faint

- Astudio a darllen preifat
- Arsylwi, mentora ac adrodd yn ôl ar arferion gweithio.

Yn ogystal ag astudio ar gyfer cymwysterau, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod cyfleoedd ar gyfer DPP yn ffordd allweddol o sicrhau bod y gweithlu gwaith chwarae'n parhau i fod yn fedrus iawn.

## Cefnogi a chynrychioli'r sector

Yn hanesyddol, SkillsActive sydd wedi dal trwydded y cyngor sgiliau sector ar gyfer gwaith chwarae yn y DU. Fodd bynnag, mae statws y drwydded hon yn amwys gan fod rôl cynghorau sgiliau sector wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn y gorffennol, roedd SkillsActive yn hwyluso arweinyddiaeth strategol gyda llywodraethau ledled y DU ar ddatblygu, gweithredu a sicrhau ansawdd cymwysterau gwaith chwarae, ar ran cyflogwyr. Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlodd a chynhaliodd SkillsActive isadeiledd rhanbarthol a chenedlaethol oedd yn cefnogi cyfranogiad pob rhanddeiliad yn y sector gwaith chwarae. Roedd Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae y DU a'i chwaer sefydliadau yn y gwledydd datganoledig, yn ddull allweddol ar gyfer hyrwyddo, gwella a chydlynu gwaith chwarae.

Sefydlwyd PETC Cymru[161] i ddarparu fforwm i'r sector drafod materion o bwys strategol ar bob agwedd o addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a PETC UK. Mae aelodau PETC Cymru'n cynnwys sefydliadau cenedlaethol, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant sy'n mynychu cyfarfodydd a chyfrannu at dasgau fel rhan o'u hymrwymiad fel aelodau.

Ers 2013, nid yw SkillsActive wedi derbyn cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth y DU. O fis Mai 2017, daeth cynrychiolaeth SkillsActive o'r sector gwaith chwarae ar PETC Cymru i ben a than Awst 2017, cwtogodd ei gyfraniad i gyhoeddi'r rhestr ofynnol ac argymelledig o gymwysterau gwaith chwarae ar ei wefan. Daeth hyn i ben gyda chyhoeddiad fersiwn Medi 2019 o'r rhestr. Yn 2019, cytunodd Llywodraeth Cymru, trwy farn gyfreithiol, y dylai PETC Cymru, fel rhan o'i swyddogaeth weithredol, gymeradwyo cymwysterau i'w cynnwys yn y rhestr o gymwysterau gofynnol i weithio yn y sector gwaith chwarae yng Nghymru.

Yn dilyn y broses hon o dynnu cefnogaeth yn ôl a gwaith sylweddol ar ran PETC Cymru i ddelio â'r bylchau, ym mis Mehefin 2021 pasiodd PETC Cymru bleidlais ffurfiol o ddiffyg hyder yn SkillsActive, gan ddatgan nad yw bellach yn ei gydnabod fel y cyngor sgiliau sector. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyflawni rhywfaint o'r rolau cyngor sgiliau sector ar gyfer y sector gwaith ieuenctid ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynrychioli'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. O ran sectorau eraill, mae llawer o rolau'r cyngor sgiliau sector bellach wedi'u cynnwys yn rôl y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru.

Mae absenoldeb cyngor sgiliau sector gweithgar, penodol ar gyfer gwaith chwarae wedi ei deimlo'n enbyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae PETC Cymru wedi ymgymryd ag elfennau sylweddol o'r rôl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn agwedd gynaliadwy na digon strategol yn y tymor hir. Mae'r adolygiad hwn wedi dynodi'r angen am y swyddogaethau canlynol:

- Cynrychioli anghenion cyflogwyr gwaith chwarae yng nghyd-destun cymwysterau, hyfforddiant a DPP.
- Cynrychioli anghenion cyflogwyr gwaith chwarae yng nghyd-destun recriwtio a chadw'r gweithlu gwaith chwarae.

- Cynrychioli anghenion ehangach y sector, yn cynnwys cyflogwyr a dysgwyr, yn natblygiad unrhyw gymwysterau i'r dyfodol fydd yn effeithio ar y gweithlu gwaith chwarae.
- Cefnogi datblygiad y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) – diweddarwyd y NOS gwaith chwarae ddiwethaf yn 2016.
- Arwain ar ddatblygu ac adolygu'r fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru.
- Cynrychioli anghenion y sector gwaith chwarae gyda Llywodraeth Cymru a chyrff sector eraill yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, AGC, Cyngor y Gweithlu Addysg a Chymwysterau Cymru.
- Cynnal a chymeradwyo'r *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*.
- Cynnal ymchwil i hysbysu a delio gyda bylchau a phrinder sgiliau.

Ar hyn o bryd, mae PETC Cymru'n cyflawni llawer o'r swyddogaethau a amlinellir uchod ac mae'n cynllunio sut i barhau i lanw'r diffyg hwn. Mae Chwarae Cymru'n arwain ar y camau gweithredu hyn fel rhan o'i ysgrifenyddiaeth i PETC Cymru ac fel rhan o amcanion cytûn y caiff ei ariannu ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru. Yn y tymor canolig i hir, dylid rhoi ystyriaeth i sefydliad priodol i gydlynu gwahanol swyddogaethau'r gefnogaeth sgiliau sector ar gyfer gwaith chwarae yng Nghymru. O ystyried rôl lai'r cynghorau sgiliau sector ar draws y DU, efallai nad yw'n briodol bellach i un sefydliad gyflawni'r holl swyddogaethau hyn ar gyfer y sector gwaith chwarae. Nid yw cynghorau sgiliau sector eraill yn ymgymryd â'r holl swyddogaethau hynny a restrir uchod ar gyfer y sectorau y maent yn eu cynrychioli.

Mae nifer o opsiynau posibl ar gyfer cynrychioli'r sector ar gyfer gwaith chwarae a bydd angen ystyried a chloriannu pob un o'r oblygiadau hyn yn fanwl. Mae gan waith chwarae gysylltiadau cryfion ar draws nifer o sectorau cysylltiedig: mae'n cysylltu gyda'r gweithlu gofal plant, y mae ei anghenion sgiliau'n cael eu cynrychioli gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a gyda'r gweithlu addysg, yn cynnwys gwaith ieuenctid, a reoleiddir yn annibynnol gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Dylai buddiannau ac anfanteision posibl pob un o'r posibiliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw rai eraill, fod yn destun gwerthusiad opsiynau llawn cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol. Dylid nodi y bydd unrhyw newid o'r fath yn debyg o alw am ddiwygiad rheoliadol ac mae'n debyg na fyddai'n ateb tymor byr i'r sector gwaith chwarae. Mae pedwar sefydliad chwarae cenedlaethol y DU yn cefnogi datblygiad eu priod PETC (mewn gwahanol gyfnodau datblygu) trwy ddarparu ysgrifenyddiaeth a chynllunio'n strategol ar gyfer adolygiad pellach o'r NOS ar gyfer gwaith chwarae. Mae adborth o'r adolygiad hwn yn awgrymu bod PETC Cymru yn gweithio'n effeithlon ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r bylchau a amlygwyd a dylai hyn ffurfio rhan o ddatrysiad tymor byr i ganolig i'r mater llosg o gynrychioli'r sector.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal gwaith i archwilio cofrestriad proffesiynol y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Bydd hyn yn golygu sefydlu a chynnal cofrestr broffesiynol o ymarferwyr a dynodi'r gofynion er mwyn i ymarferwyr gael eu caniatáu i weithio yn y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyflawni'r rôl hon eisoes ar gyfer gofal cymdeithasol tra bo Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyflawni'r rôl hon ar gyfer gweithwyr ym maes addysg, yn cynnwys gwaith ieuenctid. Ni ddaethpwyd i benderfyniad hyd yma ar bwy ddylai gyflawni'r rôl hon ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Mae goblygiadau'r gwaith yma wedi bod yn destun adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan yr Education Policy Institute yn ystod 2022 ac mae'n cynnwys ystyriaeth o'r goblygiadau ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae[162].

Mae'r *Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar*[163] 10 mlynedd o hyd yn mynegi'r weledigaeth ar gyfer y sector ac mae cyflawni'r cynllun i'r dyfodol yn dibynnu ar waith

cwmpasu diweddar o anghenion y sector. Dylai Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac ymchwil i'r gweithlu hysbysu datblygiad y cynllun hwn.

## Gweithlu chwarae

Mae'r gweithlu chwarae yn grŵp amrywiol dros ben, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt angen cymwysterau ffurfiol mewn chwarae i gyflawni eu rolau. Mae'r ystod o randdeiliaid sy'n cael eu cwmpasu gan y diffiniad 'gweithlu chwarae' yn cynnwys y bobl hynny y mae eu rôl yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar yr amrywiol Faterion a ddiffinnir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn: cynllunio, tai, mannau agored, parciau, gwasanaethau diwylliannol, gwasanaethau amgylcheddol, addysg, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, iechyd, teithio, priffyrdd, datblygu cymunedol, gwasanaethau ieuenctid, hamdden a chwaraeon ar draws wasanaethau statudol a nifer o sefydliadau trydydd sector ond gall hefyd gynnwys rhanddeiliaid eraill.

Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn cydnabod yr angen i gynyddu sgiliau, ac ochr-sgilio, y gweithlu chwarae ehangach fel bod ganddynt wybodaeth o'r hyn yw chwarae, am ei bwysigrwydd allweddol i blant a dealltwriaeth ar y cyd o sut all eu rôl effeithio ar y weledigaeth ar gyfer chwarae plant. Ceir tystiolaeth o'r ADCh ble fo timau datblygu chwarae'n bodoli mewn ardal, boed fel rhan o'r awdurdod lleol neu trwy'r trydydd sector, bod anghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae ehangach yn cael eu dynodi a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu ar gyfer eu hanghenion. Yn Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid o'r adolygiad hwn fe wnaethom drafod ADCh ac argymell ystyried ffrwd ariannu benodedig ar gyfer rôl digonolrwydd chwarae ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Dylai rôl o'r fath ddarparu cysondeb a chefnogaeth ar gyfer y sector gyflawn a chefnogi cyfleoedd datblygu'r gweithlu ar gyfer y gweithlu chwarae.

Ar hyn o bryd, mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer uwchsgilio yn dueddol o fod ar gyfer cymwysterau ffurfiol yn hytrach na hyfforddiant a DPP. Efallai na fydd cymwysterau'n llwybr priodol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn sectorau sydd eisoes â gofynion mynediad a ddiffiniwyd ymlaen llaw a llwybrau gyrfa sy'n bodoli eisoes, a ble gallai ariannu fod hyd yn oed yn anos i gael mynediad iddo. Yn ychwanegol i hyn, mae gostyngiad mewn cyllid cyffredinol i awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector wedi arwain, mewn nifer o achosion, at lai o staff ar lawr gwlad a'r staff sydd ar ôl yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ychwanegol. Efallai y bydd hyn yn golygu bod 'chwarae' yn rhan o orchwyl llawer ehangach rhywun, ac mewn rhai awdurdodau lleol mae'r ADCh yn cael eu cwblhau gan bobl sydd â fawr ddim profiad o chwarae a gwaith chwarae. Mae hyfforddiant a DPP ar gyfer y rheini yn y gweithlu chwarae ehangach wedi cefnogi'r bobl hynny sydd ynghlwm â'r gwaith o asesu a sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Ar lefel leol, mae'r cyllid sydd ar gael trwy'r Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG) wedi cefnogi cynadleddau, hyfforddiant a digwyddiadau ar gyfer y gweithlu chwarae.

Er mwyn cefnogi'r gweithlu cyfnod sylfaen gyda gweithredu'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu modiwlau datblygiad proffesiynol cenedlaethol ar-lein fydd yn cefnogi ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae'r modiwlau'n edrych ar ddysgu'r tu allan, rheoli risg a meysydd allweddol eraill o'r cwricwlwm newydd ac maent yn cynnwys modiwl ar bwysigrwydd chwarae ac agweddau seiliedig ar chwarae tuag at ddysgu.

## Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19

Fe effeithiodd y pandemig Coronafeirws ar drosglwyddo hyfforddiant a chymwysterau. Dros flynyddoedd academaidd 2019/20 i 2020/21 gwelwyd symud tuag at gynnig mwy o 'ddysgu cyfunol',

gan ddefnyddio dulliau trosglwyddo wyneb-yn-wyneb ac ar-lein. Mae hyn wedi cynnig llawer o fuddiannau o ran mynediad i gyrsiau, cyflawni ymrwymiadau gofal plant a datblygu dulliau newydd o addysgu ac asesu. Fodd bynnag, mae hefyd wedi amlygu bylchau mewn llythrennedd digidol a mynediad i dechnoleg er mwyn sicrhau mynediad teg i ddysgu ar-lein. Hefyd, gyda lleoliadau ar gau a staff ar ffyrlo, bu asesu cymhwysedd yn heriol a bu'n rhaid datblygu trefniadau newydd.

Adroddodd gweithwyr chwarae iddynt gael mwy o amser i gael mynediad i DPP ar-lein gan fod gwasanaethau ar gau. Mae amryw o'r grŵp llywio wedi adrodd bod y niferoedd sy'n mynychu cyfleoedd DPP ar-lein yn ganlyniad cadarnhaol.

I lawer o weithwyr chwarae, er gwaethaf eu hawydd i ddal i weithio gyda phlant, mae pwysau'r pandemig ar drosglwyddo gwaith chwarae mewn lleoliadau wedi golygu bod pobl wedi gadael y sector i weithio mewn proffesiynau eraill.

I'r gweithlu chwarae ehangach, mae mynychu digwyddiadau ar-lein sy'n ymwneud â digonolrwydd chwarae, wedi'u hanelu at gynghorau cymuned, swyddogion cynllunio, seicolegwyr addysg, ysgolion a gweithwyr gofal plant wedi caniatáu i bobl fynychu digwyddiadau cenedlaethol heb yr heriau sy'n gysylltiedig gyda lleoliadau a theithio.

Yn olaf, mae profiad personol pobl o'r pandemig wedi cynyddu ymwybyddiaeth ar draws y gweithlu am bwysigrwydd allweddol chwarae plant.

## Argymhellion allweddol

**Argymhelliad allweddol 12: Datblygu isadeiledd strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu gwaith chwarae.**

**Argymhelliad allweddol 13: Sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer datblygu'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.**

# Thema 6: Chwarae ac addysg

Mae'n bwysig nodi ar gychwyn y thema hon bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd chwarae yn ein hadferiad ar ôl COVID-19. Mae Adnewyddu a diwygio: cynllun adfer addysg wedi COVID-19 Llywodraeth Cymru[164] yn nodi y bydd "angen amser a chyfleoedd ar ein holl ddysgwyr, yn enwedig ein dysgwyr ifanc, i chwarae a chymdeithasu â'i gilydd hefyd, er mwyn cefnogi eu lles a'u helpu i addasu i'r newidiadau niferus sy'n digwydd o'u cwmpas."

Trafodir hyn yn fanylach yn yr adran ar Ddealltwriaeth o'r pandemig yn Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae, ond sonnir amdano yma oherwydd ei fod yn plethu trwy holl gamau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae a'r polisi addysg.

Bydd plentyn yn treulio mwy na chwe awr y dydd a 28 wythnos y flwyddyn yn yr ysgol, am o leiaf 12 mlynedd o'u bywyd, felly mae gan blant gyfleoedd sylweddol i chwarae yn y lleoliad hwn. Mae tystiolaeth ryngwladol empirig yn awgrymu bod mentrau amser chwarae ysgolion a anelir at gyfoethogi cyfleoedd chwarae'n gysylltiedig ag ystod o welliannau mewn sgiliau academaidd, agweddau, talu sylw ac ymddygiad, a gyda gwell sgiliau cymdeithasol, gwell perthnasau cymdeithasol rhwng gwahanol grwpiau o blant, a mwynhau ac ymgynefino'n well â bywyd ysgol.[165]

Mae plant o bob oed yn teimlo mai ysgolion a'r sector addysg sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyfleoedd digonol i chwarae. Maen nhw'n gwbl glir nad yw chwarae ond yn bwysig ar gyfer plant yn yr ysgol gynradd. Mae plant rhwng 12 a 18 oed yn teimlo y dylai ysgolion a darparwyr addysg bennu mwy o amser ar gyfer chwarae a mwy o gyfleoedd i blant gwrdd â'i gilydd yn ystod y diwrnod ysgol. Maent wedi awgrymu y dylai'r adolygiad hwn ystyried amser chwarae neu amser egwyl ar gyfer plant 12 i 18 oed mewn ysgolion a cholegau.[166]

Mae athrawon hefyd yn nodi buddiannau chwarae, yn enwedig chwarae'r tu allan:

- Dywed 97% o athrawon bod chwarae'r tu allan yn allweddol er mwyn i blant gyrraedd eu llawn botensial.
- Dywed 88% o athrawon bod plant yn hapusach ar ôl chwarae'r tu allan.
- Dywed 86% o athrawon bod chwarae'r tu allan yn rhoi gwell dealltwriaeth i blant am yr amgylchedd.[167]

Mae Llywodraeth Cymru[168] yn nodi bod ysgolion yn darparu cyfle pwysig i blant chwarae'n ystod y diwrnod ysgol. Dylai'r ADCh asesu i ba raddau:

- mae plant yn derbyn amgylchedd chwarae diddorol ar gyfer egwyliau yn ystod y diwrnod ysgol
- mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae yn ystod adegau y tu allan i oriau ysgol, yn cynnwys cyn amser ysgol, gyda'r nos, ar y penwythnos ac yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â mynediad agored i diroedd yr ysgol a defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau
- mae ysgolion yn annog plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol
- mae plant yn derbyn amser chwarae yn y bore, amser cinio a'r prynhawn.

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,[169] yn pwysleisio bod yr hawliau o dan Erthygl 31 o fudd cadarnhaol i ddatblygiad addysgol plant ac y dylid eu hwyluso'n ystod cwrs pob diwrnod trwy gydol addysg plentyndod cynnar, yn ogystal ac mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r pwyllgor yn dynodi y gallai'r pwysau i sicrhau cyrhaeddiad addysgol, o bosibl, warafun eu hawl i chwarae i blant, gan bwysleisio:

- "Mae addysg plentyndod cynnar yn canolbwyntio fwyfwy ar dargedau academaidd a dysg ffurfiol ar draul cymryd rhan mewn chwarae ac ennill deilliannau datblygiad ehangach;
- Mae hyfforddiant allgyrsiol a gwaith cartref yn tarfu ar amser plant ar gyfer gweithgareddau a ddewisir o wirfodd;
- Nid yw'r cwricwlwm a'r amserlen ddyddiol, yn aml, yn cydnabod anghenraid ein darpariaeth ar gyfer chwarae, hamdden a gorffwys;
- Nid yw'r defnydd o ddulliau addysg ffurfiol neu ddidactig yn yr ystafell ddosbarth yn manteisio ar gyfleoedd am ddysgu chwareus bywiog;
- Mae cyswllt gyda natur yn lleihau mewn llawer o ysgolion gyda phlant yn gorfod treulio mwy o amser dan do;
- Mae cyfyngu ar y math o chwarae y gall plant gymryd rhan ynddo yn yr ysgol yn helpu i lesteirio eu cyfleodd ar gyfer bod yn greadigol, i archwilio a datblygiad cymdeithasol".[170]

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn nodi bod gan ysgolion rôl bwysig wrth hyrwyddo'r hawl i chwarae ar draws y meysydd canlynol:

- Gofynion y cwricwlwm
- Addysgeg addysgol
- Amgylchedd ffisegol lleoliadau
- Strwythur y diwrnod.

Mae hyn yn atgyfnerthu'r ffaith bod cyfleoedd plant i chwarae ym mhob lleoliad – yn cynnwys ysgolion – yn dibynnu ar ystod o faterion, a drefnir ar draws tair thema, yn benodol amser, lle a chaniatâd, fel y nodir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*:

> "Er mwyn i blant gael cyfleoedd chwarae digonol, mae angen amser arnynt i chwarae, lle i chwarae a chydnabyddiaeth gan oedolion bod gan bob plentyn yr hawl honno, fel y bo pob un ohonynt yn cael yr amser a'r lle hwnnw".[171]

## Chwarae, y cwricwlwm ac addysgeg addysgol

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae fel cyfrwng ar gyfer dysgu. Mae'n datgan bod addysg gynhwysol a chwarae cynhwysol yn atgyfnerthu ei gilydd ac y dylid eu hwyluso'n ddyddiol trwy gydol addysg plentyndod cynnar ac wedi hynny. Yn ogystal â'i werth cynhenid, mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn cyfeirio at werth cyfrannol chwarae – fel modd pwysig i blant ddysgu trwyddo. Gall darparu amgylchedd addysgu a dysgu eang a chytbwys, tra hefyd yn cwmpasu iechyd a lles y plentyn, o bosibl ddarparu profiad dysgu gwell a mwy cadarnhaol.

Mae cyfnod sylfaen Llywodraeth Cymru ar gyfer plant tair i saith mlwydd oed yn seiliedig ar yr egwyddor o ddysgu trwy chwarae ac mae'n elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Mae'n ddiymwad[172] bod dysgu trwy chwarae'n arf pwysig. Gall helpu plant i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae chwarae'n caniatáu i blant fod yn greadigol, i ymchwilio ac archwilio gwahanol ddeunyddiau, ac mae'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw arbrofi a darogan canlyniadau. Gall hefyd helpu plant i ddatblygu eu hyder, hunan-ysgogiad a rheolaeth dros eu meddyliau a'u gweithredoedd eu hunain. Mae chwarae hefyd yn caniatáu i blant brofi eu doniau, defnyddio eu menter eu hunain, cymryd risg a gwneud camgymeriadau heb ofni methiant. Trwy chwarae, bydd plant yn dysgu sgiliau trafod a'r grefft o ffurfio perthnasau gyda'u cyfoedion.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru[173] newydd sy'n cael ei fabwysiadu ar draws ysgolion a lleoliadau yng Nghymru yn 2022, yn adeiladu ar yr agwedd a'r egwyddorion a ddatblygir trwy'r cyfnod sylfaen. Mae'r cwricwlwm newydd yn darparu cyfle da ar gyfer dysgu wedi'i arwain gan greadigedd. Pwrpas cwricwlwm pob ysgol fydd i gefnogi plant o bob oed i fod yn:

- "ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas".

Er mwyn cefnogi'r gweithlu i wreiddio chwarae mewn strwythurau dysgu, yn enwedig fel rhan o'r adferiad wedi'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu modiwlau hyfforddiant datblygiad proffesiynol cenedlaethol. Mae modiwl ar-lein ar chwarae wedi'i ddatblygu sy'n archwilio'r berthynas rhwng chwarae a dysgu. Bwriedir i hwn gefnogi staff addysgu gyda sefydlu chwarae fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae *Agor Llwybrau*, canllawiau ychwanegol ar gyfer dysgwyr yn y cyfnod dysgu sy'n arwain at Gam Cynnydd 1, yn pwysleisio bod rhaid ystyried chwarae a dysgu chwareus pan fydd ysgolion neu leoliadau'n llunio eu cwricwlwm newydd. Mae'r arweiniad yn nodi bod chwarae rhydd yn bwysig ac y dylai fod yn un o bileri trosglwyddo yn y blynyddoedd cynnar. Mae cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir sy'n trosglwyddo addysg i blant tair a phedair oed wedi'i ddatblygu hefyd i gefnogi'r sector i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Trwy'r cwricwlwm hwn caiff chwarae ei gydnabod fel y prif gyfrwng ar gyfer dysgu i'n plant ieuengaf. Mae'r arweiniad yn nodi bod yr amgylchedd awyr agored yn bwysig wrth gefnogi datblygiad plentyn ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru'n symud tuag at agwedd sy'n dwyn ynghyd bob agwedd o addysg a gofal plentyndod cynnar. Mae Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC) yn derm a ddefnyddir yn rhyngwladol yn aml i ddisgrifio darpariaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi anghenion holistig y plentyn. Wrth gefnogi plentyn, caiff yr un gwerth ei osod ar bob agwedd o ofal, datblygiad, addysg a chwarae, waeth pa leoliad y bydd y plentyn yn ei fynychu.

Bydd dysgwyr yn dysgu orau pan maen nhw'n gyfranogwyr gweithredol yn eu dysg eu hunain. Mae gan ddysgu chwareus nodweddion sy'n cynnwys chwilfrydedd, mwynhad a pherchenogaeth. Caiff ei ystyried orau ar gontinwwm "yn ymestyn o weithgareddau a sbardunir ac a gyfarwyddir gan y plentyn i brofiadau a sbardunir ac a arweinir fwy gan oedolion".[174]

Mae'r grŵp llywio'n pwysleisio pwysigrwydd chwarae ar gyfer plant hŷn, hefyd. Mae chwarae, yn enwedig yn nhermau datblygiad plant, yn tueddu i dderbyn llawer mwy o sylw ym mlynyddoedd cynnar bywydau plant nac yn ystod plentyndod hwyrach gan ddiystyru, o bosibl, ei werth ar gyfer plant hŷn. Mae ymchwil o faes niwrowyddoniaeth wedi dangos bod ein hymennydd yn dal i ddatblygu trwy gydol ein glasoed[175]. Yn ystod glasoed, mae'r cortecs cyndalcennol yn fwy datblygedig nag mewn plant iau, sy'n golygu bod gan blant hŷn botensial gwych ar gyfer dysgu a chreadigedd. Ar yr un pryd, mae ardaloedd gwobrau'r ymennydd yn fywiog dros ben, sy'n golygu bod plant hŷn yn cael eu gyrru i chwilio am brofiadau a gwefrau newydd ac y gallant fod yn fyrbwyll yn aml. Gall chwarae helpu i bontio'r ddwy agwedd hon o ddatblygiad yr ymennydd yn ystod glasoed.[176]

Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 yn disgrifio pwysigrwydd amgylcheddau dysgu sy'n fywiog a chyfranogol. Gall ysgolion wneud gweithgareddau chwareus yn ganolog i ddysg, ar gyfer plant hŷn

yn ogystal ag ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar. Ble fo'r ffiniau rhwng gwaith ysgol a chwarae'n fwy 'aneglur', mae plant yn teimlo ymdeimlad cryfach o reolaeth dros eu profiad dysgu personol.[177]

## Strwythur y diwrnod: amser a chaniatâd i chwarae

Dynododd adolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2019[178] bod amser chwarae mewn ysgolion, ar draws awdurdodau lleol, yn lleihau er gwaethaf ymdrechion lleol i fynd i'r afael â hyn. Mae pryderon ynghylch llai o gyfleoedd i chwarae, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus, er enghraifft plant anabl a phlant sy'n byw mewn tlodi, wedi'u hamlygu gan Adran Seicolegwyr Addysg a Phlant Cymdeithas Seicolegol Prydain yn eu papur sefyllfa *Right to Play Position Paper*[179] a phwysau'r cwricwlwm wedi arwain at lai o gyfleoedd ar gyfer chwarae mewn ysgolion[180].

Mae Grŵp Arbenigol Plant Egnïol Iach Cymru 2021 yn argymell y byddai darparu egwyliau digonol ar gyfer chwarae'n cyfrannu at weithgarwch corfforol cyffredinol ymhlith plant.[181] Gall gweithgarwch corfforol plant yn ystod amserau chwarae anffurfiol fod yn sylweddol uwch nac yn ystod gwersi Ymarfer Corff ffurfiol, gyda lefel uwch o ymgysylltiad, yn enwedig os yw'r gofod yn cefnogi gwahanol fathau o chwarae.[182] Mewn ymchwiliad yn 2019 i weithgarwch corfforol ymhlith plant, mynegodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd Cymru ei siom o glywed bod cwtogi egwyliau cinio ac amserau chwarae yn gyffredin mewn ysgolion. Anogodd Lywodraeth Cymru i adolygu pa mor gyffredin yw'r arfer hwn mewn ysgolion ledled Cymru[183].

Trafododd y grŵp llywio gynnydd mewn pryderon ymhlith rhieni am gwtogi'r diwrnod ysgol oedd yn arwain at lai o amser chwarae, a hefyd, ddal amser chwarae'n ôl fel rhan o bolisi rheoli ymddygiad.

Gall dal amser chwarae'n ôl fel cosb am ymddygiad gwael a'i gynnwys mewn polisïau rheoli ymddygiad achosi difrïo ac mae'n gwrthdaro gyda hawl plant i chwarae. Gall fod yn wrthgynhyrchiol hefyd gan, yn aml iawn, yr union blant sy'n ei chael yn anodd canolbwyntio yn y dosbarth yw'r rhai sydd angen mynd allan i symud.[184] Mae *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol*[185] Llywodraeth Cymru yn egluro hyn yn blaen – ni ddylid dal chwarae'n ôl oddi wrth blant yn yr ysgol fel math o gosb.

Yn sicr, i blant, mae chwarae'n rhan hanfodol o'r diwrnod ysgol, gan gyfrannu'n sylweddol at eu hiechyd a'u lles meddyliol. Mae angen inni wneud mwy i sicrhau ei fod yn cael ei warchod a'i fod o safon uchel. Mae hyn yn wir am leoliadau awdurdodau lleol a lleoliadau nas cynhelir.

## Lle i chwarae yn ystod a'r tu allan i oriau ysgol

Mae creu'r amodau ar gyfer amserau chwarae da mewn ysgolion yn ymwneud â'r gofod ffisegol yn ogystal â diwylliant yr ysgol: mae'r ddau'n gweithredu gyda'i gilydd i gynhyrchu gofod ble gall plant chwarae. Mae ymchwil i ymyriadau i wella amserau chwarae yn dangos eu bod fwyaf effeithlon pan mae gan ysgolion bolisïau clir a phan fo'r rheini sy'n goruchwylio'n gyfarwydd gyda dulliau gwaith chwarae, yn ogystal â darparu amgylchedd chwarae ffisegol cyfoethog.[186]

Mae ysgolion unigol yn amrywio o ran y gofod a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer chwarae ac mae rhai'n cyflwyno cyfyngiadau'n cynnwys gwahanu plant iau a hŷn, rhannu'r buarth yn ardaloedd, cyfyngu offer mwy anturus ar gyfer achlysuron penodol, a phenderfynu na chaiff plant chwarae ar ardaloedd glaswelltog am rywfaint neu'r rhan fwyaf o'r flwyddyn.[187] [188] Mae Chwarae Cymru wedi cynhyrchu nifer o adnoddau i gefnogi ysgolion i wella amserau chwarae a chynnig ystod ehangach o gyfleoedd ar gyfer chwarae plant.[189]

Mae adroddiad *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion* Estyn[190] yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru'n cefnogi iechyd a lles eu disgyblion. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o gyfeiriadau tuag at amserau chwarae ac egwyl ysgolion. Mae'r adroddiad yn tanlinellu bod ysgolion sy'n defnyddio agwedd ysgol gyfan tuag at gefnogi iechyd a lles yn darparu amgylchedd, cyfleusterau a gofod i chwarae, cymdeithasu ac ymlacio'n ystod amserau egwyl. Mae'n nodi hefyd:

- bod mynediad i fannau chwarae awyr agored mewn nifer o ysgolion yn cael ei effeithio'n negyddol yn aml gan dywydd garw
- bod diffyg gofod awyr agored gan rai ysgolion a'u bod yn gorfod cyfyngu mynediad i ddim ond ambell grŵp o ddisgyblion
- bod disgyblion yn yr ysgolion hyn yn llai gweithgar yn gorfforol o ganlyniad, ac y gallant ei chael yn anos i ymlacio'n dawel yn ystod amserau egwyl, sy'n effeithio ar eu lles.

Mae un o'r materion allweddol o ran gweld ysgolion yn cefnogi chwarae plant yn ymwneud â phryderon ynghylch diogelwch. Mae plant yn adrodd am gael eu hatal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae traddodiadol, fel dringo coeden, oherwydd bod oedolion yn eu hystyried yn "rhy beryglus".[191] Yn 2012, cyhoeddodd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ddatganiad lefel uchel sy'n cydnabod pwysigrwydd chwarae a chyfleoedd i gymryd risg wrth chwarae ac mae'n egluro nad dileu risg yw'r nod, ond pwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau.[192] Mae'r datganiad hwn yn pwysleisio hefyd:

- bod chwarae yn bwysig ar gyfer lles a datblygiad plant
- y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd i chwarae ganolbwyntio ar reoli'r gwir risgiau, tra'n diogelu neu gynyddu'r buddiannau – ac nid ar y gwaith papur
- bod damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eu dwyn i gyfraith a'u herlyn wedi tyfu y tu hwnt i bob rheswm.

Fel rhan o'u Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae, mae rhaid i awdurdodau lleol asesu hefyd i ba raddau y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae'n ystod adegau y tu allan i oriau ysgol. Mae pwysigrwydd mynediad y gymuned i ysgolion, yn enwedig mewn cymunedau sydd heb adnoddau digonol, yn cael ei gydnabod.[193] [194] Mae cyfleusterau ysgolion, yn y mwyafrif o achosion, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i fodloni nid yn unig anghenion dysgu disgyblion, ond llawer o anghenion cymdeithasol a hamdden i'r gymuned. Mae tiroedd ysgol yn aml iawn yn cynrychioli'r ased awyr agored unigol fwyaf mewn llawer o gymunedau. Mae adolygiadau olynol o'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn awgrymu bod y mwyafrif o diroedd ysgol yn dal i gael eu tanddefnyddio i'r diben hwn.

Mae nifer o gyfyngiadau a wynebir gan ysgolion y bydd rhaid eu goresgyn os y defnyddir cyfleusterau ysgolion ar gyfer gweithgareddau heblaw'r brif swyddogaeth o addysgu disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae arweinyddion a llywodraethwyr ysgolion yn mynegi nifer o bryderon, yn cynnwys materion sy'n ymwneud ag yswiriant, diogelwch a goruchwyliaeth
- mae dyluniad ysgolion yn aml yn gwrthdaro gyda'u hagor at ddefnydd y gymuned, yn benodol agweddau diogelwch
- efallai y bydd trafferthion o ran y cyfleusterau a'u patrwm
- gall agor y tu allan i oriau ysgol achosi costau cynnal a chadw a chostau gweithredol ychwanegol.

Fodd bynnag, mae'r buddiannau posibl o ran ymgysylltu a lles cymunedol, yr effeithiau positif ar iechyd a hapusrwydd plant a phobl ifanc, a chyfoethogi'r ymdeimlad lleol o gymuned yn golygu ei fod yn werth chweil. Un o ganfyddiadau allweddol prosiect ymchwil weithredu a ddefnyddiodd diroedd ysgol ar gyfer chwarae oedd bod yr holl staff a gyfwelwyd wedi sylweddoli bod llawer o'u hofnau yn ddi-sail. O ganlyniad, roeddent yn hapus i rannu rheolaeth o'r gofod, a thrwy hynny feithrin cysylltiadau cymunedol a defnydd mwy ymddiriedus a democrataidd o'r gofod.[195]

Mae'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad tymor hir gan Lywodraeth Cymru mewn ysgolion a cholegau i'w datblygu fel hybiau ar gyfer dysgu a lleihau'r nifer o adeiladau sydd mewn cyflwr gwael. Cefnogir y rhaglen gan ganllawiau, templedi, Bwletinau Adeiladau a chyllid grant.

## Dealltwriaeth o'r pandemig COVID-19

Mae effaith y pandemig ar ddysg plant wedi bod yn sylweddol ac amrywiol. Mae rhai wedi sôn am fuddiannau treulio mwy o amser gyda'r teulu a dysgu gartref. Mae'r rheini sy'n ei chael yn anodd yn yr ysgol wedi canfod buddiannau hefyd. Fodd bynnag, i lawer, nid yw amgylchedd y cartref wedi cefnogi dysgu gartref, ac mae plant hefyd wedi methu agweddau eraill o fynychu'r ysgol yn rheolaidd fel prydau bwyd, cyswllt gyda ffrindiau a staff, a gwasanaethau cymorth ychwanegol. Yn yr un modd ag agweddau eraill o'r pandemig, mae cau ysgolion wedi dwysáu anghydraddoldebau oedd yn bodoli eisoes. [196] [197]

Mae plant yn adrodd iddynt ei chael yn anodd methu mynd i'r ysgol yn ystod y cyfnodau clo a'u bod yn hapusach wedi i ysgolion ailagor a phan oedd ganddynt fynediad i ddarpariaeth chwarae. Nododd y plant hefyd bod lefel y gwaith cartref yr oedd disgwyl iddynt ei gwblhau lawer yn fwy na'r arfer a bod hyn wedi cyfrannu at iddynt brofi mwy o bwysau – o ran yr ysgol, roeddent yn teimlo bod cyfnodau clo 2020/21 ddim yn llawer o hwyl iddyn nhw.[198]

Ni all plant ddysgu'n effeithlon pan maent dan straen neu'n teimlo wedi'u llethu. Mae astudiaethau o ddatblygiad yr ymennydd yn nodi bod plant sydd wedi dioddef trawma yn ei chael yn anodd i dalu sylw, cofio pethau, rheoli eu hymddygiad a'u hemosiynau, ac y gallant ddioddef problemau iechyd meddwl yn ystod glasoed ac oedolaeth[199].

Yng nghyd-destun COVID-19, roedd ffocws ar chwarae a'i gyfraniadau sylweddol at iechyd a lles yn hanfodol iawn yn ystod ac yn ein hadferiad wedi'r pandemig. Anogodd *Play First: Supporting Children's Social and Emotional Wellbeing During and After Lockdown*, llythyr a anfonwyd at weinidogion Llywodraeth Cymru[200], bob llywodraeth i flaenoriaethu chwarae plant a chymdeithasu gyda ffrindiau dros wersi ffurfiol a chynnydd academaidd pan fydd ysgolion yn ailagor, a phan gaiff cyfyngiadau'r cyfnodau clo eu llacio. Galwodd eiriolwyr dros hawliau plant[201] ar i'r ffocws fod ar chwarae ac iechyd meddwl, yn hytrach na dal i fyny gyda'r cwricwlwm.

Mae hyn wedi'i gydnabod yng nghynllun Adnewyddu a diwygio Llywodraeth Cymru[202], a gyhoeddwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Mae'r cynllun yn amlinellu sut y cefnogir dysgwyr ac ymarferwyr fel rhan o'r adferiad wedi COVID-19. Mae'r cynllun yn cadarnhau ymrwymiad i les ac iechyd meddwl dysgwyr ac ymarferwyr, gan gefnogi dysgwyr i sicrhau'r cynnydd y maent ei angen, a mynd i'r afael ag effeithiau addysgol yr anghydraddoldebau a amlygwyd gan y pandemig.

O ganlyniad, ac er mwyn osgoi pwysau i ddysg ffurfiol ddal i fyny o ganlyniad i'r pandemig, datblygodd Llywodraeth Cymru gyfres o gyfathrebiadau[203] ar gyfer uwch-arweinyddion a rhieni i sicrhau bod dealltwriaeth glir o fuddiannau dysg seiliedig ar chwarae a'r effaith cadarnhaol ar ddeilliannau tymor hir.

Mae mynediad plant i fannau'r tu allan ar gyfer chwarae, ymarfer corff a mwynhad yn amrywio'n fawr ar draws Cymru a chafodd hyn ei bwysleisio'n ystod y pandemig. Mae rhai plant yn byw mewn cartrefi gyda gerddi, digonedd o ofod cymunedol y tu allan a gofalwyr cefnogol gydag amser i gefnogi chwarae, tra nad yw plant eraill. Mae gan agor tiroedd ysgolion ar gyfer chwarae rôl bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r angen taer i sicrhau y gall mwy o blant gael mynediad i chwarae'r tu allan. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru i'w galluogi i ddatblygu cyfres o brosiectau peilot sy'n edrych ar sut i ddarparu gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol o amgylch y diwrnod ysgol. Mae'r adolygiad wedi amlygu'r angen i fod yn ymwybodol o ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes wrth ystyried sefydlu gweithgareddau newydd, ac yn enwedig glybiau y tu allan i oriau ysgol sy'n bodoli eisoes, sydd wedi wynebu heriau ariannol yn ystod y pandemig ac sydd angen cefnogaeth i barhau er mwyn osgoi colli darpariaeth o'r fath.

## Argymhellion allweddol

**Argymhelliad allweddol 14: Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy'r polisi ysgolion bro.**

**Argymhelliad allweddol 15: Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.**

## Casgliad

Mae'r holl dystiolaeth a ystyriwyd trwy'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae yn cadarnhau'r un pwynt: bod chwarae o fudd i blant, teuluoedd a'r cymdogaethau y maent yn byw ynddynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain yn fyd-eang ar chwarae trwy ddatblygu polisïau arloesol, cyhoeddi deddfau a dyrannu cyllid ar gyfer chwarae. Nawr, mae gwir angen cynnal y momentwm hwn ac adeiladu ar y gwaith hwn trwy fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiad hwn.

Dylid parhau â'r cynsail sefydledig o ddyraniad ariannu uniongyrchol ar gyfer chwarae gan Lywodraeth Cymru. Dylid ei ddatblygu i ddarparu ffynhonnell ariannu gyson a phenodedig ar gyfer digonolrwydd chwarae. Bydd cyllid a ymrwymir dros gyfnod o flynyddoedd yn fodd mwy effeithlon o alluogi datblygu agweddau strategol tuag at drosglwyddo digonolrwydd chwarae. Bydd criteria cwbl glir ynghylch pa ddarpariaeth sy'n gymwys yn caniatáu amser digonol ar gyfer ymgynghori, cynllunio, a chyflogi staff o flwyddyn-i-flwyddyn.

Mae angen atgyfnerthu a sicrhau adnoddau ar gyfer yr isadeiledd cenedlaethol ar gyfer cefnogi chwarae, datblygu chwarae a digonolrwydd chwarae ledled Cymru er mwyn wynebu'r heriau hyn. Bydd ariannu uniongyrchol ar gyfer swyddogion arweiniol digonolrwydd cyfleoedd chwarae ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru'n gryn gymorth i awdurdodau lleol weithredu'r ystod eang o bolisïau Llywodraeth Cymru a drafodwyd yn yr *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae*. Dylid defnyddio'r rhaglen ariannu hefyd i bwysleisio ac atgyfnerthu rôl y sector chwarae gwirfoddol. Bydd hyn yn darparu'r gefnogaeth y mae ei hangen i fabwysiadu rolau strategol yn ogystal â rolau trosglwyddo wrth sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

Mae agwedd seiliedig ar hawliau Llywodraeth Cymru tuag at lunio polisïau sy'n ymwneud â phlant yn caniatáu i'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fynegi'n groyw werth cynhenid chwarae fel hawl. Mae hyn yn eistedd ochr-yn-ochr â gwerth mwy cyfrannol ei rôl wrth gyfrannu at agendâu polisi eraill – er enghraifft, trechu tlodi plant, iechyd a lles, dysg a datblygiad, a chydlyniad cymunedol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fabwysiadu agwedd gydlynol, gan helpu i greu'r Gymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac i'r dyfodol. Mae gweithrediad llwyddiannus y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n alinio'n dda gyda phum dull o weithio'r ddeddf a'i saith nod llesiant. Dylid cynnwys y ddyletswydd yn amlwg mewn cyfarwyddyd ar gyfer asesiadau lles ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ddynodi a chyflawni nodau lles ar gyfer plant a chymunedau.

Mae angen arweiniad ar lefel genedlaethol. O ystyried potensial y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynd i'r afael ag agendâu polisi cymdeithasol eraill, mae rhaid gwneud mwy i hyrwyddo'r ddyletswydd. Mae angen gwneud hyn trwy Lywodraeth Cymru ac adrannau awdurdodau lleol, yn ogystal ag ymhlith cyrff cenedlaethol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a'r cyhoedd.

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n drawsadrannol er mwyn sicrhau bod natur trawsbynciol chwarae'n cael ei gydnabod a'i wreiddio mewn polisïau, arferion a ffrydiau cyllido cenedlaethol. Caiff y dull gweithio hwn ei gefnogi gan sefydlu strategaeth digonolrwydd chwarae traws-bolisi a grŵp monitro fydd yn adolygu blaenoriaethau cenedlaethol, cynhyrchu a monitro camau gweithredu strategol ac adrodd yn ôl i weinidog.

Atgyfnerthir y weledigaeth a'r ymrwymiad i chwarae plant gan benodiad Gweinidog dros Blant a Phobl Ifanc, a enwir ac y gellir ei ddynodi'n glir, i'r Cabinet gyda phortffolio sy'n cynnwys chwarae ac sydd â goruchwyliaeth o weithio traws-bolisi rhwng chwarae a meysydd polisi eraill. Bydd rôl o'r fath yn cefnogi cynlluniau adfer ar ôl COVID-19 ac yn cyfrannu at fframwaith polisi cydlynol ar gyfer chwarae yng Nghymru.

Bydd datblygu agwedd fwy strategol tuag at hyrwyddo cyfleoedd i chwarae ar gyfer pob plentyn yng Nghymru yn helpu rhanddeiliaid i gefnogi mwy o blant i wireddu eu hawl i chwarae. Ar yr un pryd, bydd hefyd yn gweithio tuag at agendâu polisi ehangach, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae angen gweithredu'r argymhellion hyn ar frys er mwyn creu amgylchedd mwy cynaliadwy ar gyfer trosglwyddo cyfleoedd ar gyfer chwarae plant yng Nghymru. Mae'n anochel y bydd cost yn gysylltiedig gyda gweithredu'r argymhellion hyn, ond o ystyried pwysigrwydd chwarae i iechyd a lles plant mae'n bris sy'n werth ei dalu.

[1] Gweler: Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Adroddiad Sbotolau: Erthygl 31.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru; Dallimore, D. (2019) *'Rwy'n dysgu pethau newydd ac yn dringo coed' Yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[2] Gweler, er enghraifft: Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a Change – Play, Policy and Practice: A review of contemporary perspectives*. Llundain: National Children's Bureau ar ran Play England; Whitebread, D., Basilio, M., Kuvalja, M. a Verma, M. (2012) *The Importance of Play.* Toy Industries Europe.
[3] Panksepp, J. (2008) Play, ADHD, and the Construction of the Social Brain: Should the First Class Each Day Be Recess?, *American Journal of Play,* cyf. 1, rhif 1.
[4] Lester, S. a Russell, R. (2008) dyfynnwyd uchod.
[5] Prif Swyddogion Meddygol y DU (2019) *UK Chief Medical Officers' Physical Activity Guidelines*.
[6] Whitebread, D. (2017) Free Play and Children's Mental Health, *Lancet Child Adolescent Health*, 1(3) , Tachwedd, 167-9.
[7] Gleave, J. (2010) *Community Play: A literature review*. Llundain: Play England.
[8] Pellis, S. a Pellis, V. (2013) *The playful brain: venturing to the limits of neuroscience*. Rhydychen, Y DU: Oneworld Publications.
[9] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn CRC (2013) *General comment No. 17 (2013) on the right of the child to rest, leisure, play, recreational activities, cultural life and the arts (art. 31)*. Genefa: Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn.
[10] Cyngor Dinas Nottingham a Russell, W. (2006) *Reframing Playwork; Reframing Challenging Behaviour. Playwork Impact Evaluation*. Nottingham: Cyngor Dinas Nottingham.
[11] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[12] Lester, S. a Russell, W. (2010) *Children's right to play: An examination of the importance of play in the lives of children worldwide*. Yr Iseldiroedd: Bernard van Leer Foundation.
[13] Gleave, J. a Cole-Hamilton, I. (2012) *A world without play: A literature review*. Llundain: Play England/The British Toy and Hobby Association.
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019) *Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc.* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[15] Llywodraeth Cymru (2018) *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-2018*. [casglu data]. Gwasanaeth Data Y DU.
[16] Gray, P. (2011) The Decline of Play and the Rise of Psychopathology in Children and Adolescents, *American Journal of Play*, cyf. 3: 443-363.
[17] Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru (2017) *Cyflwr Iechyd Plant. Argymhellion ar gyfer Cymru 2017.* Caerdydd: RCPCH Wales.
[18] Llywodraeth Cymru (2018) *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2017* [casglu data]. Gwasanaeth Data Y DU.
[19] Brockman, R., Jago, R. a Fox, K. R. (2011) Children's active play: self-reported motivators, barriers and facilitators*. BMC Public Health 2011,* 11: 461*.*
[20] Plant yng Nghymru (2021) *Children and Young People's Consultation on the Ministerial Play Review*. Caerdydd: Plant yng Nghymru.
[21] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1974/37
[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu.* Caerdydd: Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[23] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[24] Dallimore, D. (2019) dyfynnwyd uchod.
[25] Comisiynydd Plant Cymru (2018) dyfynnwyd uchod.
[26] Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 Pennod 2 [ar-lein] Ar gael ar: https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/contents

[27] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) *Ei gwneud hi'n bosibl i gyflawni Digonolrwydd Chwarae: Archwilio'r amodau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau cyfleoedd digonol i blant yng Nghymru chwarae.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[28] Chatterjee, S. (2018) Children's Coping, Adaptation and Resilience through Play in Situations of Crisis. *Children, Youth and Environments*, 28, 119-145.
[29] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn CRC (2013) dyfynnwyd uchod, td.17.
[30] The Committee on the Rights of the Child warns of the grave physical, emotional and psychological effect of the COVID-19 pandemic on children and calls on States to protect the rights of children
[31] King-Sheard, M., Mannello, M. a Casey, T. (gol) (2018) *Access to Play for Children in Situations of Crisis: Play: rights and practice: A toolkit for staff, managers and policy makers*. Faringdon: International Play Association, td.4.
[32] International Play Association (2020) *Play in crisis: support for parents and carers.* Faringdon: International Play Association.
[33] Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.
[34] Comisiynydd Plant Cymru (2021) *Coronafeirws a Fi.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.
[35] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[36] Health & Attainment of Pupils in a Primary Education Network (2020) *HAPPEN at Home Survey – Early Results for Schools report*. Abertawe: HAPPEN; Comisiynydd Plant Cymru (2020) dyfynnwyd uchod.
[37] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[38] Comisiynydd Plant Cymru (2018) dyfynnwyd uchod.
[39] Graber, K.M., Byrne, E.M., Goodacre, E.J., et al. (2021) A rapid review of the impact of quarantine and restricted environments on children's play and the role of play in children's health. *Child Care Health Dev*. 2021; 47: 143– 153. https://doi.org/10.1111/cch.12832
[40] Ibid, td.1.
[41] Gweler, er enghraifft: Russell, W. a Stenning, A. (2020) Beyond active travel: children, play and community on streets during and after the coronavirus lockdown, *Cities & Health*, DOI: 10.1080/23748834.2020.1795386; Gill, T. a Monro-Miller, R. (2020) *Play in Lockdown: An international study of government and civil society responses to Covid-19 and their impact on children's play and mobility*. Faringdon: International Play Association; Cartwright-Hatton, et al. (2020) Play First: Supporting Children's Social and Emotional Wellbeing During and After Lockdown. Brighton: Prifysgol Sussex.
[42] Gweler: Lester, S. a Russell, W. (2010) dyfynnwyd uchod; Whitebread, D., Basilio, M., Kuvalja, M. a Verma, M. (2012) *The importance of play: a report on the value of children's play with a series of policy recommendations*. Brwsel, Gwlad Belg: Toys Industries for Europe.
[43] Lester, S. a Russell, W. (2013) *Welingtons Croen Llewpard, Het Silc a Phiben Sugnwr Llwch: Dadansoddiad o ddyletswydd Asesiad Digonolrwydd Chwarae, Cymru*. Caerdydd: Prifysgol Swydd Gaerloyw a Chwarae Cymru.
[44] Brooker, L. a Woodhead, M. gol (2013) *The Right to Play in Early Childhood in Focus 9.* Milton Keynes: Y Brifysgol Agored.
[45] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[46] Gweler Chwarae Cymru ymchwil digonolrwydd chwarae
[47] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[48] Lester, S. a Russell, W. (2013) dyfynnwyd uchod.
[49] Lester, S. a Russell, W. (2010) dyfynnwyd uchod.
[50] Llywodraeth Cymru (2012) *Creu Cyfle i Chwarae: Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol ar asesu bod digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[51] The Means (2016) *An analysis of the economic impact of Playwork in Wrexham – May 2016*. Caerdydd: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
[52] Gweler: Lester, S. a Russell, W. (2008) dyfynnwyd uchod.
[53] Beresin, A.R. (2012) Play counts: pedometers and the case for recess, *International Journal of Play*, 1:2, 131-138; Burdette, H. a Whitaker, R. (2005) Resurrecting Free Play in Young Children: Looking beyond fitness and fatness to attention, affiliation, and affect, *Archives of Pediatric Adolescent Medicine*, 159, tt. 46-50.

[54] Long, A. (2017) It's not just about 'more': A research project exploring satisfaction with opportunities to play, for children in two Welsh neighbouring communities, *International Journal of Play* 6(1), 24-39. http://doi.org/10.1080/21594937.2017.1288393
[55] Stenning, A. (2020) *Tackling Loneliness with Resident-led Play Streets*. Report produced with Playing Out. [ar-lein] Ar gael o: https://playingout.net/wp-content/uploads/2020/03/Tackling-Loneliness-with-Resident-Led-Play-Streets-Final-Report.pdf
[56] Chatterjee, S. (2005) Children's friendship with place: a conceptual inquiry, *Children, Youth and Environments* 15(1), 1-26.
[57] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[58] Dyfynnwyd Ibid, td.16.
[59] Dallimore, D. (2019) dyfynnwyd uchod.
[60] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[61] Ibid.
[62] Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
[63] Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru)
[64] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) dyfynnwyd uchod.
[65] Brown, F. (2013) *Play deprivation: impact, consequences and the potential of playwork.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[66] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[67] Llywodraeth Cymru (2015) *Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Pecyn Cymorth.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[68] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) *Hawl Plant i Chwarae yng Nghymru: Chwe blynedd o straeon a newid ers cychwyn Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Cymru.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[69] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[70] Gweler gwefan Chwarae Cymru: Ymchwil Digonolrwydd Chwarae
[71] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) dyfynnwyd uchod.
[72] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[73] Lester a Russell (2013) dyfynnwyd uchod, td.6.
[74] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod, td. 9.
[75] Gweler Ibid; Chwarae Cymru (2019) *Cyflwr Chwarae 2019 Adroddiad ar Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu Chwarae 2019.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[76] Gill, T. (2021) *Urban Playground: How child-friendly planning and design can save cities.* Llundain: RIBA.
[77] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[78] Comisiynydd Plant Cymru (2018) dyfynnwyd uchod.
[79] Chwarae Cymru (2016) *State of Play 2016 The Report of the Play Sufficiency Assessments and Play Action Plans 2016.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[80] Llywodraeth Cymru (2015) *Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae – Pecyn Cymorth, Rhan Un,* td.3.
[81] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019, 2020) dyfynnwyd uchod.
[82] https://www.plentyndodchwareus.cymru
[83] Chwarae Cymru, adroddiadau Cyflwr Chwarae.
[84] Ibid.
[85] Lester, S. a Russell, W. (2014) *Towards Securing Sufficient Play Opportunities: A short study into the preparation undertaken for the commencement of the second part of the Welsh Government's Play Sufficiency Duty to secure sufficient play opportunities.* Caerdydd: Prifysgol Swydd Gaerloyw a Chwarae Cymru.
[86] Chwarae Cymru (2016) dyfynnwyd uchod.
[87] Chwarae Cymru (2019) *Cyflwr Chwarae 2019 Adroddiad ar Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a Chynlluniau Gweithredu Chwarae 2019.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[88] Ibid.
[89] Chwarae Cymru (2013) *State of Play 2013 The Report of the Play Sufficiency Assessments and Play Action Plans 2013.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[90] Gweler: Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod; Chwarae Cymru (2019) dyfynnwyd uchod.

[91] Gweler rhifynnau *Chwarae dros Gymru* Gwanwyn 2020 a Hydref 2020.
[92] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) dyfynnwyd uchod.
[93] Sylw gan Swyddog Arweiniol Digonolrwydd Chwarae mewn gweithdy ar gyfiawnder gofodol fel rhan o'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae.
[94] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[95] Dallimore, D. (2019) dyfynnwyd uchod.
[96] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019) dyfynnwyd uchod.
[97] Rigolon, A. a Flohr, T. L. (2014) Access to Parks for Youth as an Environmental Justice Issue: Access inequalities and possible solutions, *Buildings,* 4, tt. 69-94.
[98] Llywodraeth Cymru (2021) *Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040.*
[99] Russell W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[100] Gweler er enghraifft: Arup (2017) *Cities Alive: Designing for urban childhoods*. Llundain: Arup; Gill, T. (2021) *Urban Playground: How child-friendly planning and design can save cities.* Llundain: RIBA.
[101] Arup (2017) a Gill (2021) dyfynnwyd uchod.
[102] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[103] Marzi, I. a Reimers, A.K. (2018) Children's Independent Mobility: Current Knowledge, Future Directions, and Public Health Implications, *International Journal of Environmental Research and Health*, 15(11), td. 2441.
[104] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020); Dallimore, D. (2020) dyfynnwyd uchod.
[105] Mae hwn yn derm a ddefnyddir gan Tim Gill (2021) dyfynnwyd uchod. Mae'n cyfeirio at allu plant i symud yn ddidrafferth o amgylch eu cymdogaethau a hefyd at yr hyn y mae mannau cyhoeddus mewn cymdogaethau'n eu cynnig / darparu ar gyfer chwarae.
[106] Shaw, B., Bicket, M., Elliott, B., Fagan-Watson, B., Mocca, E. a Hillman, M. (2015) *Children's Independent Mobility: An international comparison and recommendation for action*. Llundain: Policy Studies Institute.
[107] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[108] Gray, C., Gibbons, R., Larouche, R., Sandseter, E.B.H., Bienenstock, A., Brussoni, M., Chabot, G., Herrington, S., Janssen, I., Pickett, W., Power, M., Stanger, N., Sampson, M. a Tremblay, M.S. (2015) What is the Relationship between Outdoor Time and Physical Activity, Sedentary Behaviour, and Physical Fitness in Children? A systematic review, *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 12, tt.6455-6474.
[109] Gray, P. (2011) The Decline of Play and the Rise of Psychopathology in Children and Adolescents, *American Journal of Play,* 3(4), tt. 443-463.
[110] Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru,* td. 241.
[111] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019, 2020) dyfynnwyd uchod.
[112] Meysydd Chwarae Cymru (2017) *Canllawiau ar gyfer Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored Y tu hwnt i'r Safon Chwe Erw* (Cymru).
[113] Royal Town Planning Institute (2021) *Practice Advice: Children and Town Planning; Creating places to grow,* Llundain: RTPI.
[114] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[115] Llywodraeth Cymru (2021) *Canllawiau y Ddeddf Teithio Llesol.*
[116] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2019, 2020) dyfynnwyd uchod.
[117] Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru (2017) *Cyflwr Iechyd Plant. Argymhellion ar gyfer Cymru 2017.* Caerdydd: RCPCH Wales
[118] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod; Comisiynydd Plant Cymru (2020) dyfynnwyd uchod.
[119] Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi: Profiadau plant o grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yng Nghymru.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru.
[120] Stenning, A. a Russell, W. (2020) Stop the Traffic and Make Space for Play during Lockdown, *The Developer*, 20 Ebrill.
[121] Grwp Hollbleidiol Seneddol ar Blentyndod Heini a Iach (2021) *The Covid Generation: A mental health pandemic in the making – The impact on the mental health of children and young people during and after the COVID-19 pandemic*; Patterson, R. (2021) Consequences of Covid-19 on the Childhood Obesity Epidemic*,* *British Medical Journal*, 373, n953, doi:10.1136/bmj.n953.

[122] Play First UK (2020) Supporting Children's Social and Emotional Wellbeing During and After Lockdown, https://www.sussex.ac.uk/webteam/gateway/file.php?name=play-first--supporting-childrens-social-and-emotional-wellbeing-during-and-after-lockdown.pdf&site=271
[123] Llywodraeth Cymru (2020) *Adeiladu Lleoedd Gwell.*
[124] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[125] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[126] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) dyfynnwyd uchod.
[127] Chwarae Cymru (2021) *Ffocws ar chwarae – cydnabod a deall pwysigrwydd darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored yn y gymuned*. Caerdydd: Chwarae Cymru.
[128] Llywodraeth Cymru (2016) *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[129] https://www.clybiauplantcymru.org/cy/about-us/
[130] Llywodraeth Cymru (2016) – SGC dyfynnwyd uchod.
[131] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/2839/made
[132] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[133] https://www.llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-ymarfer-diogelu
[134] Llywodraeth Cymru (2016) – SGC dyfynnwyd uchod.
[135] https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/Qualifications/Llifsiart%20Cymwysterau%20Gwaith%20Chwarae%20V7%20Medi%202021.pdf
[136] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/adolygiad-or-safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-rheoleiddiedig_0.pdf
[137] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/adolygiad-or-safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-rheoleiddiedig_0.pdf
[138] https://www.llyw.cymru/gorchymyn-eithriadau-gwarchod-plant-gofal-dydd-cymru-2010-ymatebion-ir-cais-am-dystiolaeth
[139] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[140] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2010/2839/article/15/made
[141] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/87/made
[142] https://gofalcymdeithasol.cymru/straeon-newyddion/roedd-gweithwyr-gofal-plant-chwarae-a-blynyddoedd-cynnar-yn-teimlo-nad-oeddent-yn-cael-eu-gwerthfawrogin-ddigonol-yn-ystod-y-pandemig-yn-ôl-adroddiad-newydd
[143] King, P. (2020) "Can Playwork Have a Key Working Role?", *International Journal of Playwork Practice*: Cyf. 1: Rh. 1, Erthygl 7.
[144] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-09/childcare-national-minimum-standards-1-october-to-31-december-2020-covid-19_1.pdf
[145] Llywodraeth Cymru (2017) *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Cynllun Gweithlu.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[146] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[147] Ibid.
[148] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) dyfynnwyd uchod.
[149] Russell, W., Barclay, M., Tawil, B. a Derry, C. (2020) dyfynnwyd uchod.
[150] Chwarae Cymru (2020) *Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru.* Caerdydd: Chwarae Cymru.
[151] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/egwyddoriongwaithchwarae
[152] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/sgc
[153] https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/contents
[154] https://www.arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
[155] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cymwysteraugofynnol
[156] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/rheoleiddio-cymwysterau/rhestr-cymwysterau-blaenoriaeth/cymwysterau-blaenoriaethol-cyfyngedig/
[157] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cymwysteraugofynnol
[158] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant/

[159] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/newyddion/1240-llifsiart-cymwysterau-gwaith-chwarae
[160] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-dull-gweithredu-addysg-gofal-plentyndod-cynnar
[161] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/petccymru
[162] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/7/4/1657782072/cofrestrur-gweithlu-gofal-plant-chwarae-blynyddoedd-cynnar-yng-nghymru-adolygiad-annibynnol-0.pdf
[163] Llywodraeth Cymru (2017) *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Cynllun Gweithlu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[164] https://www.llyw.cymru/adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr-html
[165] Russell, W. (gol), Ardelean, A. a Smith, K. (2021) *Playtimes in primary schools: a review of the literature,* Bryste: Outdoor Play and Learning (OPAL) CIC.
[166] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[167] Prisk, C. a Cusworth, H. (2018) *From muddy hands and dirty faces... to higher grades and happy places Outdoor learning and play at schools around the world*. Learning through Landscapes.
[168] Llywodraeth Cymru (2014) dyfynnwyd uchod.
[169] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) dyfynnwyd uchod.
[170] Ibid, td.13.
[171] Llywodraeth Cymru (2014) dyfynnwyd uchod, td.14.
[172] Gweler yr Atodiad yn Chwarae Cymru (2020) *Meddwl am rannau rhydd mewn ysgolion*. Caerdydd: Chwarae Cymru.
[173] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru
[174] Mardell, B., Lynneth Solis, S., a Bray, O. (2019) The state of play in school: Defining and promoting playful learning in formal education settings, *International Journal of Play*, 8(3), 232–236. doi:10.1080/21594937.2019.1684157
[175] Lester, S. a Russell, W. (2010) dyfynnwyd uchod.
[176] Gweler Barclay, M. (2019) *Mae plant hŷn yn chwarae hefyd*. Caerdydd: Chwarae Cymru.
[177] Goodhall, N. ac Atkinson, C. (2019) How do children distinguish between 'play' and 'work'? Conclusions from the literature, *Early Child Development and Care 188*(10), 1695-1708. doi:10.1080/03004430.2017.1406484
[178] Chwarae Cymru (2019) dyfynnwyd uchod.
[179] Hobbs, C., et al. (2019) *Children's Right to play position paper*. Caerlŷr: Adran Seicolegwyr Addysg a Phlant Cymdeithas Seicolegol Prydain.
[180] Baines, E. a Blatchford, P. (2019) *School break and lunchtimes and young people's social life: A follow-up national study*. Adroddiad terfynol (EDU/42402) i'r Nuffield Foundation.
[181] Richards, A.B., Mackintosh, K.A., Swindell, N., Ward, M., Marchant, E., James, M., Edwards, L.C., Tyler, R., Blain, D., Wainwright, N., Nicholls, S., Mannello, M., Morgan, K., Evans, T., Stratton, G. WALES 2021 Active Healthy Kids (AHK) Report Card: The Fourth Pandemic of Childhood Inactivity, *Int. J. Environ. Res. Public Health* 2022, *19*, 8138.
[182] Beresin, A.R (2012) dyfynnwyd uchod; Burdette, H. a Whitaker, R. (2005) dyfynnwyd uchod.
[183] Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019) *Gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc.* Caerdydd: Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
[184] McNamara, L. (2013) What's Getting in the Way of Play? An analysis of the contextual factors that hinder recess in elementary schools, *Canadian Journal of Action Research*, 14(2), tt. 3-21; Mulryan-Kyne, C. (2014) The School Playground Experience: Opportunities and challenges for children and school staff, *Educational Studies*, 40(4), tt. 377-395.
[185] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol.pdf
[186] Russell (gol), Ardelean, A. a Smith, K. dyfynnwyd uchod.
[187] Newstead, S. (2010) *No.15: The Benefits of School Playtime*. Llundain: National Children's Bureau.
[188] Burton, L., Russell, W., Suhajda, E. V. a Vastag, Z. (2019) *The Play Friendly Schools Label: A handbook for schools*. Caerloyw: Prifysgol Swydd Gaerloyw.
[189] https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/ysgolion
[190] Estyn (2019) Adroddiad *Iach a hapus – Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*. Caerdydd: Estyn.

[191] ICM/Playday Poll (2008) [ar-lein]. Ar gael ar: http://playday.gn.apc.org/resources/research/2008-research/
[192] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) (2012) *Children's Play and Leisure: promoting a balanced approach.*
[193] Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2002) *Adroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru / Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
[194] Dyson, A., Kerr, K., Bottrill, I. a Boyd, P. (2016) *Increasing the Use of School Facilities*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.
[195] Mannello, M., Connolly, M., Dumitrescu, S., Ellis, C., Haughton, C., Sarwar, S. a Tyrie, J. (2019) Opening the School Gates: facilitating after-school play in school grounds in (Gol) Reed, M. a Fleet, A. *Rethinking Play as Pedagogy*. Llundain: Routledge.
[196] Comisiynydd Plant Cymru (2020) dyfynnwyd uchod.
[197] Holt, L. a Murray, L. (2021) Children and Covid 19 in the UK, *Children's Geographies*, DOI: 10.1080/14733285.2021.1921699.
[198] Plant yng Nghymru (2021) dyfynnwyd uchod.
[199] Tobin, M. (2016) *Changing Minds: Discussions in neuroscience, psychology and education.* Camberwell: Australian Council *for* Educational Research.
[200] Cartwright-Hatton, S. *et al.* (2020) *Play First: Supporting Children's Social and Emotional Wellbeing During and After Lockdown.* Brighton: Prifysgol Sussex.
[201] Gweler: Atkinson, C. a Mannello, M. (2020) Prioritising play to promote wellbeing. [Blog] *Policy@Manchester Blogs*.
[202] https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr?_ga=2.124690954.1008241272.1623745236-892243723.1617700927
[203] 'Ensuring a clear and shared vision for play based learning for all learners'

**Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae**

PAPUR CEFNDIR

Paratowyd gan Chwarae Cymru ar gyfer Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Ionawr 2023

ISBN: 978-1-914361-11-1

© Llun clawr: Chwarae Cymru | Play Wales